



# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2016 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

# Environment (Wales) Act 2016

2016 anaw 3

Explanatory Notes

**£19.00**





# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2016 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

# Environment (Wales) Act 2016

2016 anaw 3

Explanatory Notes

# **DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016**

---

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **RHAGARWEINIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Chwefror.2016 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth.2016. Fe'u lluniwyd gan Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r darllenydd.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.

### **SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU**

#### **Rhan 1 - Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol**

3. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn ymwneud â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n darparu ar gyfer proses ailadroddol newydd lle bydd Gweinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyrff cyhoeddus eraill yn cyfrannu at gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
4. Mae'r Rhan hon yn diffinio adnoddau naturiol, rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
5. Mae Rhan 1 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac CNC er mwyn cynorthwyo i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio polisi adnoddau naturiol cenedlaethol ac mae'n ofynnol i CNC lunio adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a datganiadau ardal. Mae'r Rhan hon yn pennu'r broses a'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r dogfennau hyn ac yn rhoi'r swyddogaeth i gyrff cyhoeddus (a ddiffinnir yn y Ddeddf) o ddarparu cymorth a/neu wybodaeth y mae CNC yn gofyn amdani er mwyn cynhyrchu'r dogfennau hyn. Mae'r Rhan hon hefyd yn rhoi'r swyddogaeth o weithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r swyddogaeth o weithredu datganiad ardal i CNC.



# ENVIRONMENT (WALES) ACT 2016

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Environment (Wales) Act 2016 which were passed by the National Assembly for Wales on 2 February 2016 and received Royal Assent on 21 March 2016. They have been prepared by the Department for Natural Resources of the Welsh Government to assist the reader.
2. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act. They are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where an individual section of the Act does not require any explanation or comment, none is given.

### COMMENTARY ON SECTIONS

#### **Part 1 – Sustainable management of natural resources**

3. Part 1 of the Act is concerned with the sustainable management of natural resources. It makes provisions for a new iterative process for the Welsh Ministers, Natural Resources Wales (NRW) and other public bodies to contribute to achieving the sustainable management of natural resources.
4. This Part defines natural resources, sustainable management of natural resources and the principles of sustainable management of natural resources.
5. Part 1 confers functions on the Welsh Ministers and on NRW to assist in the delivery of sustainable management of natural resources. The Welsh Ministers are required to produce a national natural resources policy and NRW is required to produce a state of natural resources report and area statements. This Part provides for the process and timeframe for the production of these documents and confers a function on public bodies (defined in the Act) to provide assistance and/or information requested by NRW for the production of these documents. This Part also confers functions on the Welsh Ministers to implement the national natural resources policy and for NRW to implement an area statement.

6. Mae'r Rhan hon yn rhoi erthygl 4 newydd yn lle erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, sy'n rhoi diben cyffredinol newydd i CNC o ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'r Rhan hon hefyd yn disodli swyddogaethau CNC mewn perthynas ag ymrwymo i gytundebau rheoli yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad 1968. Mae'r Rhan hon hefyd yn disodli swyddogaethau CNC yn Neddf 1968 mewn perthynas â chynlluniau arbrolfol. Mae Rhan 1 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, yn dilyn cais gan CNC, wneud rheoliadau i ganiatáu atal dros dro ofynion deddfwriaethol, i raddau cyfyngedig, er mwyn hwyluso cynllun arbrolfol sy'n debygol o gyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
7. Mae Rhan 1 yn rhoi adran newydd yn lle adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ar gyfer awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac yn rhoi adran newydd yn lle adran 42 o'r Ddeddf honno mewn perthynas â'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i baratoi rhestr o'r organeddau byw a'r cynefinoedd sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hyn, wrth arfer eu swyddogaethau yn briodol, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau.

#### **Adran 1 - Diben**

8. Mae'r adran hon yn egluro mai diben y Rhan hon yw hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

#### **Adran 2 - Adnoddau naturiol**

9. Mae adran 2 yn diffinio adnoddau naturiol at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf.
10. Mae'r diffiniad yn cwmpasu'r holl organeddau byw (biotig) ac eithrio pobl, a'r rhannau a'r deunyddiau anfyw (anfiotig) sy'n ffurfio'r amgylchedd naturiol.
11. Nid yw'r diffiniad wedi ei gyfyngu i adnoddau naturiol daearol; mae hefyd yn cynnwys adnoddau naturiol arfordirol a morol.
12. Mae'r diffiniad yn rhestru enghreifftiau o rannau o'r amgylchedd naturiol ac mae'n cynnwys, er enghraifft, adnoddau biolegol a daearegol, cyfryngau amgylcheddol (aer, dŵr a phridd) yn ogystal ag adnoddau llif (megis y llanw, y gwynt a'r haul).

#### **Adran 3 - Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol**

13. Mae'r adran hon yn diffinio "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf. Mae adran 4 yn disgrifio sut y dylid cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, drwy ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy.

6. This Part substitutes article 4 of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012, providing NRW with a new general purpose to pursue sustainable management of natural resources. This Part also replaces NRW functions in relation to entering management agreements in the National Parks and Access to Countryside Act 1949, the Wildlife and Countryside Act 1981 and the Countryside Act 1968. This Part also replaces NRW's functions in the 1968 Act, in relation to experimental schemes. Part 1 confers on the Welsh Ministers a power, on application from NRW, to make regulations to allow for a limited suspension of legislative requirements in order to facilitate an experimental scheme which is likely to contribute to sustainable management of natural resources.
7. Part 1 replaces section 40 of the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (the NERC Act 2006) for public authorities with functions in relation to Wales and replaces section 42 of the NERC Act 2006 in relation to the Welsh Ministers' duty to prepare a list of important living organisms and habitats for biodiversity in relation to Wales. It requires these public authorities in the proper exercise of their functions to seek to maintain and enhance biodiversity and in so doing promote the resilience of ecosystems.

### **Section 1 – Purpose**

8. This section makes clear that the purpose of this Part is to promote the sustainable management of natural resources.

### **Section 2 – Natural resources**

9. Section 2 defines natural resources for the purposes of Part 1 of the Act.
10. The definition covers all living organisms (biotic), other than people, and non-living components and materials (abiotic) that make up the natural environment.
11. The definition is not limited to terrestrial natural resources; it also includes coastal and marine natural resources.
12. The definition lists examples of components of the natural environment and includes, for example, biological and geological resources, environmental media (air, water and soil) and also flow resources (such as tide, wind and solar).

### **Section 3 – Sustainable management of natural resources**

13. This section defines “sustainable management of natural resources” for the purposes of Part 1 of the Act. Section 4 describes how sustainable management of natural resources should be delivered, through the principles of sustainable management.

14. Mae is-adran (1)(a) yn darparu bod rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn ymwneud â defnyddio (neu beidio â defnyddio) adnoddau naturiol (fel y'u diffinnir yn adran 2) i hyrwyddo amcan is-adran (2).
15. Mae is-adran (1)(b) ac (c) yn egluro bod rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol hefyd yn ymwneud â gweithredu, neu beidio â gweithredu, mewn ffordd sy'n hyrwyddo neu'n llesteirio cyflawni'r amcan yn is-adran (2).
16. Mae is-adran (2) yn darparu mai amcan rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau, a'u manteision. Mae ecosystem gydnerth yn iach ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n gallu ymdopi ag aflonyddwch a darparu manteision dros y tymor hir. Disgrifir prif nodweddion ecosystem gydnerth yn adran 4(i).
17. Mae cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt, megis darparu bwyd a ffeibr, yn helpu i ddiwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyfredol, a rhai'r dyfodol, ac yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant o dan adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
18. Y "manteision", neu'r gwasanaethau, a ddarperir gan ecosystemau yw'r manteision pendant ac annirnad a geir o ecosystemau ac adnoddau naturiol, sy'n cynnwys:
  - Gwasanaethau cefnogi, megis cylchdroi maetholion, cynhyrchu ocsigen a ffurfio pridd. Dyma'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu pob gwasanaeth arall;
  - Gwasanaethau darparu nwyddau, megis bwyd, ffeibr, tanwydd a dŵr. Dyma'r cynhyrchion a geir o ecosystemau;
  - Gwasanaethau rheoli, megis rheoli'r hinsawdd, puro dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Dyma'r manteision a geir o reoli prosesau ecosystemau; a
  - Gwasanaethau diwylliannol, megis addysg, hamdden, a manteision esthetaid. Dyma'r manteision y mae pobl yn eu cael o ecosystemau, nad ydynt yn rhai materol.
19. Enghraifft o reoli'r defnydd o adnoddau, yn is-adran (1), yw rheoli faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu o afon, pa mor aml y gwneir hynny, ac o ba leoliad. Er mwyn bodloni'r amcan yn is-adran (2) ni chaniateir tynnu dŵr ar raddfa gyflymach nag y gellir ei ailgyflenwi nac mewn ffordd a fydd yn cael effaith andwyol ar yr ecosystem ehangach a'r manteision eraill i'r ecosystem y mae'r afon yn eu darparu. Asesir i ba raddau y mae dŵr ar gael nid yn unig ar sail yr effaith yn y tymor byr, ond hefyd yn y tymor hir, ac ar sail gallu'r ecosystem i ddarparu manteision i genedlaethau'r dyfodol.

14. Subsection (1)(a) provides that sustainable management of natural resources is about using (or not using) natural resources (as defined in section 2) to promote the objective at subsection (2).
15. Subsection (1)(b) and (c) clarifies that sustainable management of natural resources is also about taking, or not taking, action that promotes or hinders the achievement of the objective at subsection (2).
16. Subsection (2) provides that the objective of the sustainable management of natural resources is to maintain and enhance the resilience of ecosystems and the benefits they provide. A resilient ecosystem is healthy and functions in a way that is able to absorb disturbance and deliver benefits over the long-term. The key characteristics of a resilient ecosystem are described in section 4(i).
17. Maintaining and enhancing the resilience of ecosystems and the benefits they provide such as the provision of food and fibre helps to meet current and future social, economic and environmental needs and contribute to the achievement of all the seven well-being goals under section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.
18. The “benefits”, or services, provided by ecosystems are the tangible and intangible benefits obtained from ecosystems and natural resources and include:
  - Supporting services, for example nutrient cycling, oxygen production and soil formation. These are the services that are necessary for the production of all other services;
  - Provisioning services, for example food, fibre, fuel and water. These are the products obtained from ecosystems;
  - Regulating services, for example climate regulation, water purification and flood protection. These are the benefits obtained from the regulation of ecosystem processes; and
  - Cultural services, for example education, recreation, and aesthetic benefits. These are the non-material benefits people obtain from ecosystems.
19. An example of managing resource use, at subsection (1), is the amount, frequency and location of water abstraction from a river. To meet the objective at subsection (2) water is not abstracted at a rate faster than it can be replenished or in a manner that will have an adverse effect on the wider ecosystem and the other ecosystem benefits provided by the river. Water availability is assessed not only on the impact in the short term but over the long term and on the ability of the ecosystem to provide benefits for future generations.

20. Un enghraifft lle gallai is-adrannau (1)(b) ac (c) fodloni'r amcan yn is-adran (2) fyddai drwy reoli effaith gweithgareddau cynhyrchu ar iechyd ecosystemau a'r ffordd y maent yn gweithredu. Gall defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, er enghraifft, helpu i leihau'r gyfradd y defnyddir adnoddau naturiol mewn gweithgareddau cynhyrchu, ond gallai'r gweithgaredd hwnnw hefyd gynnwys allyrru llygryddion i'r amgylchedd dyfrol neu i'r aer, a thrwy hynny gael effaith negyddol ar iechyd ein hecosystemau. Mae rheoli cynaliadwy yn cynnwys gweithredu (neu beidio â gweithredu) i leihau effeithiau negyddol posibl yn sgil gweithgareddau, er mwyn cynnal a gwella ecosystemau cydnerth.

#### **Adran 4 – Egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol**

21. Mae adran 4 yn sefydlu'r egwyddorion sy'n pennu sut yr eir ati i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r egwyddorion yn ategu ei gilydd ac yn cysylltu â'i gilydd, ac nid ydynt wedi'u rhestru yn ôl trefn blaenoriaeth.
22. Mae paragraff (a) yn darparu ar gyfer addasu i amgylchiadau wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu gwybodaeth newydd a cheisio lleihau unrhyw ansicrwydd, gan ganiatáu i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ragweld newid a darparu ar ei gyfer.
23. Mae'n ofynnol ystyried y raddfa ofodol yn ôl paragraff (b). Mae hyn yn cynnwys ystyried y lefel ofodol leol, ranbarthol neu genedlaethol briodol er mwyn ymateb i faterion neu ddarparu cyfleoedd. Er enghraifft, mae'r cysylltiadau rhwng dŵr daear, dŵr wyneb a glawiad o fewn dalgylch afon yn golygu y gall effeithiau ar unrhyw un ohonynt effeithio ar brosesau hydrolegol yn y dalgylch a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn, fel darparu dŵr glân.
24. Mae'n ofynnol gweithio â sectorau priodol o gymdeithas yn ôl paragraffau (c), (d) ac (e). Dylid gwneud penderfyniadau gan ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd gan randdeiliaid perthnasol a chan wahanol sectorau o gymdeithas, gan gynnwys, er enghraifft, gymunedau lleol a'r cyhoedd. Nid dim ond cyfeiriad at dystiolaeth wyddonol yw'r term "tystiolaeth" yn y cyddestun hwn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth leol yn ogystal â data empirig a thystiolaeth wyddonol.
25. Yn ôl paragraff (f) mae'n ofynnol nodi ac ystyried y manteision a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol a'n ecosystemau, yn ogystal â gwerth cynhenid yr ecosystemau a'r adnoddau hynny, sef gwerth adnoddau naturiol ac ecosystemau er eu mwyn eu hunain. Dylid ystyried pob mantais (neu wasanaeth) o ran darparu nwyddau, cefnogi, rheoli a diwylliant, fel y bo'n briodol. Rhoddir gwybodaeth am fanteision ym mharagraff 18. Er enghraifft, wrth reoli coedwigoedd, yn ogystal ag ystyried darparu coed, ystyrir gwasanaethau eraill fel storio carbon, darparu cynefinoedd neu weithgareddau hamdden. Mae angen rheoli coetiroedd dros dymor hir ac mae hynny'n golygu dewis rhywogaethau a lleoliad plannu coed yn ofalus fel y gellir manteisio i'r eithaf ar amrywiaeth o wasanaethau a manteision ecosystemau dros genhedlaeth neu ragor.



20. An example of subsections (1(b) and (c)) meeting the objective at subsection (2) could include managing the impact of production activities on the health and functioning of ecosystems. The use of recycled materials, for example, can help to reduce the rate at which natural resources are used in production activities, but that activity may also involve the emission of pollutants into the aquatic environment or the air, and therefore have a negative impact on the health of our ecosystems. Sustainable management includes taking action (or not taking action) to reduce potential negative impacts from activities so as to maintain and improve resilient ecosystems.

#### **Section 4 – Principles of sustainable management of natural resources**

21. Section 4 establishes the principles that determine how the sustainable management of natural resources is to be delivered. The principles are complementary and interlinked and are not listed in order of priority.
22. Paragraph (a) provides for an adaptive approach to decision-making. This involves generating new knowledge and seeking to reduce uncertainties, thereby allowing a decision-maker to anticipate and cater for change.
23. Paragraph (b) requires spatial scale to be considered. This includes considering the appropriate local, regional or national spatial level to address issues or to deliver opportunities. For example, linkages between ground water, surface water and rainfall within the area of a river catchment mean that impacts on any one of these can affect hydrological processes within the catchment and the benefits linked to these processes, such as clean water provision.
24. Paragraphs (c), (d) and (e) require working with appropriate sectors of society. Decisions should be made in consideration of the evidence and information gathered from relevant stakeholders and different sectors of society, including for example, local communities and the public. The term “evidence” in this context is not solely a reference to scientific evidence and would include local knowledge as well as empirical data and scientific evidence.
25. Paragraph (f) requires that benefits that are provided by our natural resources and ecosystems are identified and considered, as well as the intrinsic value of those ecosystems and resources, which is the value of natural resources and ecosystems for their own sake. All provisioning, supporting, regulating and cultural benefits (or services) should be considered, as appropriate. Information on benefits is provided at paragraph 18. For example, in forestry management, in addition to taking into consideration the provision of timber, other services such as carbon storage, habitat provision or recreational activities are also considered. Woodlands require long term management that demands careful selection of species and location for tree planting such that a range of ecosystem services and benefits can be optimised over a generation or more.

26. Mae'n ofynnol ystyried y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir yn ôl paragraff (g), gan gynnwys amseroedd oedi ac adborth i ecosystemau ymateb i ymyriadau. Er enghraifft, byddai'n rhaid i gynigion i gyflwyno gwlyptir newydd er mwyn helpu i leihau llygredd gwasgaredig o dir fferm ymgorffori'r amser a gymer i'r gwlyptir ddatblygu'r amodau bioffisegol angenrheidiol i reoli'r llygredd, ynghyd ag amrywioldeb llif y dŵr dros amser, wrth ddylunio a monitro'r gwlyptiroedd.
27. Mae paragraff (h) yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau a all atal niwed arwyddocaol i ecosystemau. Mae hyn yn cynnig dull ataliol o fewn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
28. Mae'n ofynnol ystyried agweddau penodol ar gydnerthedd ecosystem yn ôl paragraff (i). Nid yw'r rhestr hon yn ddiffiniad cyflawn, ond mae'n nodi, at ddiben y Rhan hon, yr agweddau allweddol ar ecosystemau cydnerth.

#### **Adran 5 - Diben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru**

29. Mae'r adran hon yn rhoi darpariaeth yn lle erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y "Gorchymyn Sefydlu") fel mai rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fydd diben creiddiol CNC).
30. Roedd y Gorchymyn Sefydlu yn sefydlu CNC fel y corff amgylcheddol a chadwriaethol yng Nghymru ac yn nodi ei swyddogaethau cyffredinol. Roedd erthygl 4 o'r Gorchymyn Sefydlu yn pennu diben cyffredinol CNC, sef sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, a hynny er lles pobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol.
31. Mae erthygl 4(1)(a), fel y'i disodlir gan adran 5 o'r Ddeddf hon, bellach yn rhoi dyletswydd ar CNC i ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Mae i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yr ystyr a roddir yn adran 3 o'r Ddeddf.
32. Mae erthygl 4(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod CNC, wrth arfer ei swyddogaethau, hefyd yn cymhwyso'r egwyddorion rheoli cynaliadwy a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf. Nid yw'r dyletswyddau yn erthygl 4 ond yn gymwys i'r graddau y bônt yn gyson ag arfer swyddogaethau CNC yn briodol. Nid ydynt, felly, yn gwrthdaro ag unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf hon, nac mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall, sy'n rhoi pwerau neu ddyletswyddau i CNC, nac yn eu gwrth-wneud.



26. Paragraph (g) requires short, medium and long term consequences to be considered, including the time lags and feedback times for ecosystems to respond to our interventions. For example, proposals to introduce a new wetland to help reduce diffuse pollution from farmland would have to factor in the time for the wetland to develop the necessary biophysical conditions to control the pollution, together with the variability of water flows over time into the design and monitoring of the wetlands.
27. Paragraph (h) requires the taking of actions which can avert significant damage to ecosystems. This provides a preventive approach within the principles of sustainable management of natural resources.
28. Paragraph (i) requires that particular aspects of ecosystem resilience are considered. This list is not an exhaustive definition but identifies for the purpose of this Part, the key aspects of resilient ecosystems.

### **Section 5 – General purpose of Natural Resources Body for Wales**

29. This section substitutes a provision for article 4 of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012 (Establishment Order) so that the sustainable management of natural resources becomes the core purpose of NRW.
30. The Establishment Order established NRW as the environmental and conservation body in Wales and sets out its general functions. Article 4 of the Establishment Order set out the general purpose of NRW, which was to ensure that the environment and natural resources of Wales were sustainably maintained, enhanced and used for the benefit of the people, environment and economy of Wales today and in the future.
31. Article 4(1)(a), as substituted by section 5 of this Act, now places a duty on NRW to pursue the sustainable management of natural resources in relation to Wales when exercising any of its functions. Sustainable management of natural resources has the meaning in section 3 of the Act.
32. Article 4(1)(b) requires that, in carrying out its functions, NRW must also apply the principles of sustainable management which are set out in section 4 of the Act. The duties in article 4 only apply to the extent that they are consistent with the proper exercise of NRW's functions and therefore they do not conflict with or override any provisions in this Act or any other legislation, which confer powers or duties on NRW.

33. Un enghraifft o gymhwyso'r egwyddorion i swyddogaeth fyddai wrth baratoi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (sy'n ofyniad o dan adran 8 o'r Ddeddf). Wrth baratoi'r adroddiad rhaid i CNC gymhwyso'r egwyddorion yn adran 4, a fyddai'n cynnwys ystyried yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth berthnasol a fydd yn angenrheidiol er mwyn paratoi'r adroddiad, yn ogystal â thrafod â'r rhanddeiliaid perthnasol a allai fod ag unrhyw dystiolaeth berthnasol yn eu meddiant. Yn ogystal, byddai gofyn i CNC ystyried amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd o fewn ecosystemau ar hyn o bryd, gallu ecosystemau i ymateb i newidiadau neu alwadau cynyddol arnynt, a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau megis dŵr glân, bwyd, twristiaeth a rheoli llifogydd a chlefydau.
34. Mae adran 5(4) yn diwygio'r Gorchymyn Sefydlu drwy ddiddymu erthyglau 5B a 5E. Mae erthygl 5B yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw i newidiadau ecolegol gwirioneddol neu bosibl wrth gyflawni ei swyddogaethau cadwraeth natur. Bydd y gofyniad hwn bellach yn dod o dan egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel y darperir ar eu cyfer yn adran 4 o'r Ddeddf hon, felly mae erthygl 5B bellach yn ddiangen.
35. Mae erthygl 5E yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw i iechyd a llesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau yn ogystal â'u llesiant economaidd. Mae'r gofynion hyn yn dod yn rhan o'r dyletswyddau a osodir ar CNC gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, felly mae erthygl 5E bellach yn ddiangen.

#### **Adran 6 – Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau**

36. Mae adran 6 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn is-adran (9), i geisio cynnal a gwella amrywiaeth fiolegol (y cyfeirir ati fel bioamrywiaeth). Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus, ymgymerwr statudol, Gweinidog y Goron a deiliaid swyddi cyhoeddus eraill gymhwyso'r ddyletswydd pan fyddant yn cyflawni unrhyw swyddogaethau yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru. Nodir dau eithriad yn is-adran (3): nid yw swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi na swyddogaethau barnwrol llysoedd a thribiwnlysoedd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd.
37. Pan fo'r ddyletswydd yn adran 6 yn gymwys, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd honno yn hytrach na'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.
38. Roedd adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr roi sylw i ddiogelu bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae adran 40 wedi ei diwygio fel ei bod yn parhau i fod yn gymwys pan fo Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyflawni ei swyddogaethau, a phan fo awdurdodau cyhoeddus eraill yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Lloegr (gweler paragraff 9(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf).

33. An example of applying the principles to a function can be illustrated in the preparation of a state of the natural resources report (a requirement under section 8 of the Act). In preparing the report NRW must apply the principles in section 4, which would include considering all relevant evidence and information that will be required to prepare the report, as well as engaging with relevant stakeholders who may have access to any relevant evidence. In addition, NRW would need to take into account the current variability of species and habitats within ecosystems, the ability of ecosystems to respond to changes or increased demands and be able to continue to provide services such as clean water, food, tourism and flood and disease control.
34. Section 5(4) amends the Establishment Order by repealing articles 5B and 5E. Article 5B requires that NRW must have regard to actual or possible ecological changes when carrying out their nature conservation functions. This requirement will now fall under the principles of sustainable management of natural resources as provided in section 4 of this Act and therefore article 5B is no longer necessary.
35. Article 5E requires that NRW must have regard to the health and social well-being of individuals and communities as well as economic well-being. These requirements are subsumed within the duties placed on NRW by the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, so article 5E is no longer required.

#### **Section 6 - Biodiversity and resilience of ecosystems duty**

36. Section 6 places a duty on public authorities, as defined in subsection (9), to seek to maintain and enhance biological diversity (referred to as biodiversity). All public bodies, statutory undertakers, Ministers of the Crown and other public office holders are required to apply the duty when they are carrying on any functions in Wales, or in relation to Wales. Two exceptions are set out in subsection (3): the functions of Her Majesty's Revenue and Customs (HMRC) and the judicial functions of courts and tribunals are not subject to the duty.
37. Where the duty in section 6 applies, public authorities are required to comply with that duty instead of the duty in section 40 of the NERC Act 2006.
38. Section 40 of the NERC Act 2006 required all public authorities in England and Wales to have regard to conserving biodiversity when carrying out their functions. Section 40 is amended so that it continues to apply where HMRC are carrying out their functions, and where other public authorities are carrying out functions in relation to England (see paragraph 9(2) of Schedule 2 to the Act).

39. Mae adran 6(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, wneud hynny mewn ffordd sy'n ceisio gwella bioamrywiaeth, yn hytrach na'i lleihau, ac wrth wneud hynny rhaid iddynt geisio gwneud ecosystemau yn fwy cydnerth. Rhoddir diffiniad o fioamrywiaeth yn adran 26 er mwyn hwyluso dehongliad cyffredinol o'r term, ac mae'n ymwneud ag amrywiaeth yr holl organeddau byw ar y gwahanol lefelau lle maent yn bodoli. Er nad yw cydnerthedd yn cael ei ddiffinio yn adran 6, mae is-adran (2) yn cynnwys amryw o'i brif nodweddion.
40. Mae adran 6(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni'r rhwymedigaeth o dan is-adran (1), ystyried amrywiaeth rhwng ecosystemau ac o fewn iddynt, er enghraifft amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd, ar raddfa, cyflwr a chysylltedd ecosystemau, ac ar eu gallu i ymdopi â digwyddiadau annisgwyl megis effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, ac adfer ohonynt. Ni fwriedir i'r rhestr yn is-adran (2) gynnwys pob mater y mae'n rhaid ei ystyried, gan ei bod yn bosibl na fydd rhai materion yn berthnasol i bob sefyllfa. Gweler y nodiadau ar gyfer adran 4 hefyd.
41. O dan adran 6(4) o'r Ddeddf, mae dyletswydd ychwanegol ar Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, adrannau'r llywodraeth a Gweinidogion y Goron i dalu sylw arbennig i Gonfensiwn Bioamrywiaeth Fiolegol 1992<sup>1</sup>, sef cytundeb rhyngwladol sy'n ymdrin â phob agwedd ar fioamrywiaeth. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys i'r awdurdodau cyhoeddus eraill a ddiffinnir yn is-adran (5), ond mae'n ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus eraill hynny roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 6.
42. Mae is-adran 6(5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, ac eithrio Gweinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth, wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 6(1), roi sylw i'r rhestr o organeddau byw a mathau o gynefinoedd a gyhoeddir o dan adran 7, adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8 ac unrhyw ddatganiadau ardal a gyhoeddir o dan adran 11, sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod cyhoeddus.
43. Rhaid i awdurdod cyhoeddus, ac eithrio Gweinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth, gyhoeddi cynllun sy'n amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1). Rhaid i'r cynllun gael ei adolygu yn sgil adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (7).

---

1

<https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=4&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwiEIJjzLAhUG6xQKHeGGBEcQFghCMAM&url=https%3A%2F%2Fwww.cbd.int%2Fdoc%2Flegal%2Fcbd-en.pdf&usq=AFQjCNHQwS4RPEu3dL617rq7mcuJhVkhfg>

39. Section 6(1) of the Act requires that public authorities when carrying out their functions in relation to Wales do so in a way that aims to improve and not reduce biodiversity and that in doing they must seek to further the resilience of ecosystems. A definition of biodiversity is provided in section 26 to aid in the general interpretation of the term, and relates to the variety of all living organisms at the various levels at which they exist. Whilst resilience is not defined in section 6, a number of key characteristics of resilience are contained in subsection (2).
40. Section 6(2) of the Act requires that in delivering the obligation under subsection (1), public authorities must consider diversity between and within ecosystems for example the diversity of species and habitats, the extent, state, connectivity of ecosystems and their ability to deal with and recover from unexpected events for example the impacts of climate change. The list in subsection (2) is not intended to be an exhaustive list of matters that must be taken into account as some matters may not be relevant to every situation. See also the notes for section 4.
41. Under section 6(4) of the Act, the Welsh Ministers, the Counsel General, government departments and Ministers of the Crown are under an additional duty to have particular regard to the Convention on Biological Diversity 1992<sup>1</sup>, which is a global agreement addressing all aspects of biodiversity. This duty does not apply to the other public authorities as defined in subsection (5) but these other public authorities are required to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers in relation to complying with the duty under section 6.
42. Subsection 6(5) requires that in complying with the duty under section 6(1) public authorities, other than Ministers of the Crown or government departments, must have regard to the list of living organisms and types of habitat published under section 7, a state of natural resources report published under section 8 and any area statement published under section 11, which relates to the area of the public authority.
43. A public authority, other than Ministers of the Crown or government departments, must publish a plan outlining how it will meet its duty under subsection (1). This plan must be reviewed in light of a report published under subsection (7).

---

<sup>1</sup>

<https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=4&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwiEljiJzLAhUG6xQKHeGGBEcQFghCMAM&url=https%3A%2F%2Fwww.cbd.int%2Fdoc%2Flegal%2Fcbd-en.pdf&usg=AFQjCNHqwS4RPEu3dL617rq7mCuJhVkhfg>

44. Mae adran 6(7) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad, bob tair blynedd, sy'n dangos sut y maent wedi bodloni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd bioamrywiaeth. Gallai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r adroddiad hwn mewn unrhyw adroddiadau eraill y mae'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi.
45. Mae adran 6(9) yn rhestru'r awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn adran 6(1) yn gymwys iddynt. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys, er enghraifft, fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.
46. Er mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 6 yn gymwys, nid yw hyn yn golygu ei bod yn ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru yn unig. Mae'n gymwys i fioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang ac yn golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried effaith penderfyniadau a wneir yng Nghymru, neu weithgareddau a gynhelir yng Nghymru, i'r graddau y gallai'r rheini fod â goblygiadau i fioamrywiaeth y tu allan i Gymru. Enghraifft bosibl o hyn fyddai awdurdod cyhoeddus yng Nghymru sy'n ystyried a ddylai brynu nwyddau a wnaed o ddeunyddiau sy'n tarddu o fforest law drofannol. Byddai angen i'r awdurdod cyhoeddus ystyried goblygiadau'r penderfyniad hwnnw i brynu o ran bioamrywiaeth. Mae'r tabl isod yn nodi'r awdurdodau cyhoeddus hynny y gosodir gofynion arnynt o dan bob adran o adran 6.

Adran: Dyletswydd	Llywodraeth Cymru	Gweinidogion y Goron ac Adrannau'r Llywodraeth	Awdurdodau cyhoeddus eraill
Adrannau (6)(1),(2)	Oes	Oes	Oes
Adran (6)(4)(a)	Oes	Oes	Oes
Adran (6)(4)(b)	Oes	Oes	Oes
Adran (6)(5)	Oes	Nac oes	Oes
Adran (6)(6)	Oes	Nac oes	Oes
Adran (6)(7)	Oes	Oes	Oes
Adran (6)(8)	Oes	Nac oes	Oes

### **Adran 7 - Rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**

47. Mae'r adran hon yn debyg i'r ddyletswydd yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, ac yn ei disodli. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o organeddau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru, sy'n arwyddocaol iawn yn eu tyb hwy o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.
48. Cyn cyhoeddi, adolygu a diwygio'r rhestrau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC (is-adrannau (2) a (4)).



44. Section 6(7) requires that every three years, all public authorities must publish a report on how they have met their obligations under the biodiversity duty. Public authorities could include this report in any other reports that they are required to publish.
45. Subsection 6(9) lists the public authorities to which the duty in section 6(1) applies. This includes a wide range of bodies including for example local health boards, national health trusts and national park authorities.
46. Although section 6 only applies in relation to Wales, this does not mean that it is about biodiversity only in Wales. It applies to biodiversity in a global sense and requires public authorities to consider the effect of decisions taken, or activities carried out, within Wales insofar as those decisions or activities may have implications in relation to biodiversity outwith Wales. This might be illustrated by the example of a public authority in Wales which is considering whether to purchase products made from materials sourced from a tropical rainforest. The biodiversity implications of that purchasing decision would need to be considered by the public authority. The table identifies those public authorities with requirements under each section of section 6.

<b>Section: Duty</b>	<b>Welsh Government</b>	<b>Minister of the Crown and Government Departments</b>	<b>Other public authorities</b>
Sections (6)(1),(2)	Yes	Yes	Yes
Section (6)(4)(a)	Yes	Yes	Yes
Section (6)(4)(b)	Yes	Yes	Yes
Section (6)(5)	Yes	No	Yes
Section (6)(6)	Yes	No	Yes
Section (6)(7)	Yes	Yes	Yes
Section (6)(8)	Yes	No	Yes

### **Section 7 – Biodiversity lists and duty to take steps to maintain and enhance biodiversity**

47. This section is similar to the duty in section 42 of the NERC Act 2006 which it replaces. It places a duty on the Welsh Ministers to publish, review and revise lists of living organisms and types of habitat in Wales, which they consider are of key significance to sustain and improve biodiversity in relation to Wales.
48. Before publishing, reviewing and revising the lists, the Welsh Ministers must consult NRW (subsections (2) and (4)).

49. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu mesurau i gynnal a gwella'r organeddau a'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru, ac annog eraill i wneud hynny hefyd (is-adran (3)).
50. Wrth baratoi'r rhestr neu fabwysiadu unrhyw fesurau i gynnal a gwella'r organeddau a'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y'u nodir yn adran 4 o'r Ddeddf). Felly, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw dystiolaeth briodol, fel y'i darperir yn yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 7), er enghraifft, yn ogystal â chysylltu ag unrhyw randdeiliaid perthnasol (is-adran (5)).
51. Mae adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 wedi ei diddymu gan baragraff 9(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

### **Adran 8 - Dyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol**

52. Er mwyn cynorthwyo personau i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru, mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi 'adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol'. Bydd yr adroddiad hwn yn ffynhonnell dystiolaeth a fydd ar gael i unrhyw berson sy'n ymdrin ag adnoddau naturiol yng Nghymru. Bydd o gymorth i unrhyw berson sy'n dilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol; mae ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol yn rhan o'r egwyddor a nodir yn adran 4(e).
53. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad CNC o gyflwr presennol adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, ei asesiad o gyflwr ecosystemau o ran darparu manteision lluosog, ac a fydd eu statws presennol yn gallu addasu i bwysau er mwyn sicrhau bod y manteision lluosog hynny'n cael eu darparu yn y tymor hir.
54. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys asesiad o fioamrywiaeth, yn ogystal â gwybodaeth am y prif dueddiadau sy'n effeithio ar adnoddau naturiol, neu a allai effeithio arnynt, a gwybodaeth am unrhyw feysydd lle gallai fod diffyg gwybodaeth ddigonol i allu cynnal asesiad.
55. Dyletswyddau cyffredinol CNC fydd yn llywio'r gwaith o baratoi adroddiad o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys ei ddiben cyffredinol fel y'i nodir yn erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i disodlir gan adran 5(2) o'r Ddeddf hon), sy'n ei gwneud yn ofynnol i CNC ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth arfer ei swyddogaethau.
56. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi'r adroddiad cyntaf o fewn pedwar mis o'r adeg y daw'r is-adran hon i rym. Daw'r is-adran hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 88(2)(a)).



49. This section also requires the Welsh Ministers to take, and encourage others to also take measures to sustain and improve the listed organisms and habitats (subsection (3)).
50. In producing the list or taking any measures to sustain and improve the listed organisms and habitats, the Welsh Minister must apply the principles of sustainable management of natural resources (as provided in section 4 of the Act). The Welsh Ministers must therefore consider any appropriate evidence, for example as provided in the state of natural resources report (see section 7) and also engage with any relevant stakeholders (subsection (5)).
51. Section 42 of the NERC Act 2006 is repealed by paragraph 9(3) of Schedule 2 to the Act.

### **Section 8 – Duty to prepare and publish state of natural resources report**

52. In order to assist persons in achieving the sustainable management of natural resources in relation to Wales, section 8 requires NRW to publish a ‘state of natural resources report’. This report will provide a source of evidence that will be available for any person concerned with natural resources in relation to Wales. It will be of assistance to any person applying the principles of sustainable management of natural resources; taking account of all relevant evidence is part of the principle set out in section 4(e).
53. The report must contain NRW’s assessment of the current condition of natural resources in relation to Wales. The report must also include NRW’s assessment of the extent to which sustainable management of those natural resources is being achieved. For example, the status of ecosystems to deliver multiple benefits and their assessment on whether their current status will be able to adapt to demands to ensure the long-term delivery of these multiple benefits.
54. The report must also include an assessment of biodiversity, in addition to information on the main trends that are affecting, or may affect natural resources and information on any areas where there may be insufficient information to enable an assessment.
55. When preparing a report under this section, NRW will be guided by its general duties. This includes its general purpose as set out in article 4 of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012 (as replaced by section 5(2) of this Act), which requires NRW to apply the principles of sustainable management of natural resources when exercising its functions.
56. Subsection (3) requires NRW to publish the first report within four months of this subsection coming into force. This subsection comes into force at the end of the period of two months starting with the day the Bill receives Royal Assent (see section 88(2)(a)).

57. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi adroddiad cyn diwedd y flwyddyn cyn y flwyddyn y cynhelir pob etholiad cyffredinol arferol dilynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 1 o Ddeddf Cymru 2014) yn darparu y bydd etholiad cyffredinol arferol yn cael ei gynnal yn ystod y bumed flwyddyn galendr yn dilyn y flwyddyn y cynhaliwyd yr etholiad cyffredinol arferol diwethaf. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar gyflwr adnoddau naturiol, bydd yr etholiad cyffredinol arferol nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2021. Felly, bydd rhaid cyhoeddi'r ail adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol cyn diwedd blwyddyn galendr 2020, a chyhoeddi adroddiad dilynol bob pum mlynedd.
58. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol cyn diwedd y flwyddyn galendr cyn y flwyddyn y mae'n ofynnol cyhoeddi'r adroddiad terfynol o dan is-adran (4). Bydd rhaid cyhoeddi'r fersiwn ddrafft o'r ail adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol, felly, cyn diwedd blwyddyn galendr 2019. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i holl gylchoedd cyhoeddi'r adroddiadau ar gyflwr adnoddau naturiol, ac eithrio cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o dan is-adran (3).
59. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad diweddaraf wrth baratoi polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (adran 9(9)).

### **Adran 9 – Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol**

60. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' sy'n amlinellu eu polisiâu, ac a fydd yn cyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (gweler adran 3).
61. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y polisi yn nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol, yn eu barn hwy, ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth baratoi a diwygio'r polisi, roi sylw i'r 'adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol' diweddaraf. Yn ogystal â hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth baratoi neu wrth ddiwygio'r 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' (is-adran (8)).
62. Rhaid i'r polisi hwn hefyd gynnwys crynodeb o unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd wrth ei lunio, ac unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriadau.
63. Mae is-adran (2) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y polisi yn cynnwys yr hyn y mae angen ei wneud, yn eu barn hwy, mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

57. Subsection (4) requires NRW to publish a report before the end of the year preceding a year in which each subsequent ordinary general election of the National Assembly for Wales is to take place. Section 3 of the Government of Wales Act 2006 (as amended by section 1 of the Wales Act 2014) provides that an ordinary general election will take place in the fifth calendar year following that in which the previous ordinary general election was held. Following publication of the first state of natural resources report, the next ordinary general election will be due to take place in May 2021. The second state of natural resources report will therefore have to be published before the end of the calendar year 2020, with subsequent reports published every five years.
58. Subsection (5) requires NRW to publish a draft version of the state of natural resources report before the end of the calendar year before the year in which the final report must be published under subsection (4). The draft of the second state of natural resources report will therefore have to be published before the end of the calendar year 2019. This requirement applies to each cycle of the publication of the state of natural resources reports, except for the publication of the first report under subsection (3).
59. The Welsh Ministers must have regard to the latest report when they are preparing a national natural resources policy (section 9(9)).

### **Section 9 – Duty to prepare, publish and implement natural resources policy**

60. This section requires the Welsh Ministers to prepare, publish, implement and review a ‘national natural resources policy’ setting out their policies that will contribute to the sustainable management of natural resources (see section 3).
61. Subsection (2) requires the Welsh Ministers to set out in the policy what they consider to be the key priorities, risks and opportunities for the sustainable management of natural resources. Subsection (9) requires that the Welsh Ministers in preparing and revising the policy must have regard to the latest ‘state of natural resources report’. In addition, the Welsh Ministers must apply the principles of sustainable management of natural resources when preparing or revising a ‘national natural resources policy’ (subsection (8)).
62. The policy must also include a summary of any consultations undertaken in its preparation and any representations received as a result of the consultations.
63. Subsection (2) also requires that the Welsh Ministers must include in the policy what they consider needs to be done in relation to climate change and biodiversity.

64. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu pob cam rhesymol er mwyn gweithredu'r polisi, yn ogystal ag annog partion eraill i weithredu'r polisi. Wrth weithredu'r polisi rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (gweler is-adran (8)).
65. Rhaid cyhoeddi ac adolygu'r polisi yn unol â'r amseroedd a nodir yn yr adran hon. Rhaid cyhoeddi'r 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' cyntaf o fewn deg mis o'r adeg y daw'r adran hon i rym. Daw'r adran hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 88(2)(a)).
66. Mae'r polisi yn ddogfen barhaus, oherwydd bydd y polisi a gyhoeddir yn dal i fod yn gymwys oni bai a hyd nes y cyhoeddir polisi diwygiedig yn dilyn adolygiad. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r polisi unrhyw bryd ond rhaid iddynt ei adolygu yn dilyn etholiad cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r gofyniad i adolygu yn dilyn etholiad cyffredinol yn gymwys boed hwnnw'n etholiad cyffredinol arferol (o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) neu'n etholiad eithriadol (o dan adran 5 o'r Ddeddf honno). Yn dilyn adolygiad, caiff Gweinidogion Cymru ddewis parhau â'r polisi presennol, neu gallant ddiwygio'r polisi fel y gwelant yn dda. Os caiff y polisi ei adolygu, rhaid ailgyhoeddi'r adroddiad fel y'i diwygiwyd (gweler is-adran (7)).

#### **Adran 10 – Ystyr corff cyhoeddus yn adrannau 11 i 15**

67. Mae adran 10 yn rhestru personau penodol sy'n 'gorff cyhoeddus' at ddibenion adrannau 11 i 15 o'r Ddeddf.
68. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio ystyr corff cyhoeddus yn adran 10 drwy ychwanegu person at y rhestr, neu ei dynnu ymaith, neu ddiwygio'r disgrifiad o berson o'r fath. Dim ond cyrff sydd â swyddogaethau cyhoeddus y caniateir eu hychwanegu at y rhestr (is-adran (3)). Os yw'r corff yn arfer swyddogaethau cyhoeddus a swyddogaethau eraill, dim ond ei swyddogaethau cyhoeddus gaiff fod yn ddarostyngedig i adrannau 11 i 14 o'r Ddeddf (is-adran (4)). Dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i hynny y caniateir ychwanegu un neu ragor o Weinidogion y Goron at is-adran (1).
69. Cyn arfer y pŵer hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC, y person yr effeithir arno ac unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol (is-adran (5)).

64. Subsection (4) requires the Welsh Ministers must also take all reasonable steps to implement the policy and also to encourage the implementation of the policy by other parties. In implementing the policy the Welsh Ministers must apply the principles of sustainable management of natural resources (see subsection (8)).
65. The policy is to be published and reviewed in accordance with the timings provided in this section. The first 'national natural resources policy' must be published within 10 months of this section coming into force. This section comes into force at the end of the period of two months starting with the day the Act receives Royal Assent (see section 88(2)(a)).
66. The policy is an enduring document, in that the published policy will continue to apply unless and until a revised policy is published following a review. The Welsh Ministers may review the policy at any time but must review it following a general election of the National Assembly for Wales. The requirement to review following a general election applies whether it is an ordinary general election (under section 3 of the Government of Wales Act 2006) or an extraordinary election (under section 5 of that Act). Following a review, the Welsh Ministers may choose to continue with the existing policy, or they can revise the policy as they see fit. If the policy is revised, the policy as revised must then be published (see subsection (7)).

#### **Section 10 - Meaning of public body in sections 11 to 15**

67. Section 10 lists certain persons as being a 'public body' for the purposes of sections 11 to 15 of the Act.
68. Subsection (2) provides that the Welsh Ministers may, by regulations, amend the meaning of public body in section 10 by adding or removing a person from the list, or amending the description of such a person. Only bodies that have public functions may be added to the list (subsection (3)). If the body exercises both public and other functions, only their public functions can be subject to sections 11 to 14 of the Act (subsection (4)). A Minister of the Crown can only be added to subsection (1) if the Secretary of State consents.
69. Prior to exercising this power, the Welsh Ministers must consult NRW, the person to be affected and any other person that they consider appropriate (subsection (5)).

### **Adran 11 - Datganiadau ardal**

70. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC hwyluso'r gwaith o weithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol drwy baratoi, cyhoeddi a gweithredu 'datganiadau ardal'. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC sicrhau bod pob ardal o Gymru yn cael ei chynnwys yn un neu ragor o'r datganiadau ardal, ond mae'n darparu mai CNC sy'n penderfynu ar nifer, lleoliad a graddau daearyddol yr ardaloedd y caiff adroddiadau eu paratoi ar eu cyfer, yn unol â'r hyn sydd fwyaf priodol, yn ei farn, er mwyn hwyluso'r broses o roi'r polisi ar waith.
71. Wrth arfer unrhyw swyddogaethau, caiff CNC ei lywio gan ei ddyletswyddau cyffredinol. Bydd ei ddiben cyffredinol, fel y'i nodir yn erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i disodlir gan adran 5(2) o'r Ddeddf hon) yn arbennig o berthnasol i'r adran hon. Golyga hyn ei bod yn ofynnol i CNC gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â datganiadau ardal. Mae is-adran (2) yn taflu goleuni ar is-adran (1) er mwyn cadarnhau y gall CNC hefyd ddefnyddio'r datganiadau am unrhyw reswm arall i'w gynorthwyo i arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Er enghraifft, caiff CNC ddewis defnyddio datganiad ardal i amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r ardal honno, yn ogystal â'r swyddogaethau hynny sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi cenedlaethol.
72. Nid yw ffurf a chynnwys y datganiadau ardal wedi eu rhagnodi; mater i CNC yw penderfynu ar hynny. Fodd bynnag, mae is-adran (3)(a)-(d) yn cynnwys materion y mae'n rhaid eu cynnwys, mewn termau cyffredinol, ym mhob datganiad ardal y bydd yn ei baratoi.
73. Mae paragraff (a)(i), (ii) a (iii) yn ei gwneud yn ofynnol i bob datganiad ardal egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer ardal, drwy gynnwys gwybodaeth am yr adnoddau naturiol o fewn yr ardal honno a'r manteision y maent yn eu cynnig, a thrwy bennu'r blaenoriaethau, y peryglon a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy yn yr ardal honno.
74. Mae paragraff (b) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gynnwys o fewn datganiad ardal sut y mae wedi cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y darperir ar gyfer hynny yn adran 4) wrth baratoi datganiad ardal. Mae paragraff (c) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gynnig gwybodaeth ar sut y mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn yr ardal honno er mwyn ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodir ym mharagraff (a)(iii) a sut y bydd yn cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy wrth wneud hynny.
75. Mae paragraff (d) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC bennu'r cyrff cyhoeddus hynny y mae'n ystyried y gallant fod o gymorth o ran y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd.



## **Section 11 - Area Statements**

70. Section 11 requires NRW to facilitate the implementation of the national natural resources policy by preparing, publishing and implementing 'area statements'. Subsection (4) requires that NRW must ensure that every area of Wales is covered by one or more area statements but that the number, siting, and geographical extent of the areas in relation to which statements are produced is determined by it, in accordance with what they consider to be most appropriate for facilitating the implementation of the policy.
71. When exercising any functions, NRW will be guided by its general duties. Of particular relevance to this section will be its general purpose as set out in article 4 of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012 (as replaced by section 5(2) of this Act). This requires NRW to apply the principles of sustainable management of natural resources when exercising functions in relation to area statements. Subsection (2) clarifies subsection (1) to confirm that the statements may also be used by NRW for any other reason to assist in the exercise of any of their functions. For example, NRW may choose to use an area statement to outline how they will deliver their other functions relevant to that area, in addition to those functions related to the implementation of the national policy.
72. The form and content of the area statements are not prescribed; this is left to NRW to decide. However, subsection (3)(a)-(d) contains matters in general terms that must be included within each area statement they produce.
73. Paragraph (a)(i), (ii) and (iii) requires each area statement to provide an explanation of why a statement has been prepared for an area by including information on the natural resources within that area and the benefits they provide and by identifying priorities, risks and opportunities for the sustainable management of natural resources, which need to be addressed in that area.
74. Paragraph (b) requires NRW to include within an area statement how it has applied the principles of sustainable management of natural resources (as provided in section 4) in the preparation of an area statement. Paragraph (c) requires NRW to provide information on how it proposes to deliver its functions in that area to address the priorities, risks and opportunities identified in paragraph (a)(iii) and how it will apply the principles of sustainable management in doing so.
75. Paragraph (d) requires NRW to identify the public bodies, which it considers may be able to assist in relation to the identified priorities, risks and opportunities.

76. Mae adran 14 o'r Ddeddf hon yn cynorthwyo CNC i gydymffurfio a'i rwymedigaeth i baratoi a gweithredu datganiadau ardal drwy roi pwerau iddo ei gwneud yn ofynnol i gyrff penodol (a restrir fel 'cyrff cyhoeddus' yn adran 10 o'r Ddeddf hon) ddarparu gwybodaeth a chymorth arall iddo.
77. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC sicrhau bod pob ardal o Gymru yn cael ei chynnwys yn un neu ragor o'r datganiadau ardal.
78. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu datganiad ardal. Rhaid iddo hefyd annog personau eraill i weithredu'r datganiad ardal. Mae dyletswydd ar bersonau a restrir fel 'corff cyhoeddus' yn adran 10 o'r Ddeddf hon i ddarparu unrhyw gymorth i CNC y mae ei angen arno wrth arfer swyddogaethau o dan yr adran hon (gweler adran 14). Mae'r personau hynny hefyd yn ddarostyngedig i bŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo o dan adran 12, a rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir iddynt yn unol ag adran 13.
79. Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth er mwyn sicrhau bod datganiadau ardal a gaiff eu paratoi o dan adran (1) yn parhau i fod yn effeithiol wrth hwyluso a gweithredu'r polisi cenedlaethol. Mae'n ofynnol i CNC adolygu'r datganiadau yn gyson, a chaiff eu diwygio unrhyw bryd.
80. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ystyried rhesymoli nifer y cynlluniau, y strategaethau neu'r dogfennau eraill tebyg sydd ar waith yn yr ardal y mae unrhyw ddatganiad ardal penodol yn ei chwmpasu. Cyn cyhoeddi datganiad, rhaid i CNC ystyried:
- a ddylid cynnwys unrhyw gynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall (gan gynnwys datganiad ardal arall) yn y datganiad. Er enghraifft, caiff CNC geisio rhesymoli'r cynlluniau eraill y mae'n eu paratoi drwy eu hymgorffori mewn datganiad ardal; neu
  - a ddylid cynnwys datganiad ardal mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall.

### **Adran 12 – Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i weithredu datganiadau ardal**

81. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo corff cyhoeddus (fel y'i rhestrir yn adran 10 o'r Ddeddf), i gymryd camau i ymdrin â'r materion a bennir mewn datganiad ardal o dan adran 11(3). Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried ei bod yn rhesymol ymarferol i'r corff gymryd camau o'r fath. Dim ond rhywbeth sydd o fewn cwmpas ei swyddogaethau (is-adran (4)) y gall cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ei wneud.
82. Er enghraifft, pan fo CNC (yn unol ag adran 14) yn gofyn i gorff gymryd camau penodedig i'w gynorthwyo i weithredu datganiad ardal, ac yna bod y corff yn methu â darparu'r cymorth hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd i'r corff. Gallai'r cyfarwyddyd hwn ei gwneud yn ofynnol i'r corff ddarparu'r cymorth hwn, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn rhesymol ymarferol i'r corff wneud hynny.



76. To assist NRW in complying with its obligation to produce and implement area statements, section 14 of this Act provides NRW with power to require certain bodies (listed as ‘public bodies’ in section 10 of this Act) to provide it with information and other assistance.
77. Subsection (4) requires NRW to ensure that every area of Wales is covered by one or more area statements.
78. Subsection (5) requires NRW to take all reasonable steps to implement an area statement. They must also seek to promote implementation of the area statement by other persons. Persons who are listed as being a ‘public body’ in section 10 of this Act are under a duty to provide such assistance to NRW as it requires in exercising functions under this section (see section 14). Those persons are also subject to the Welsh Ministers’ power of direction under section 12, and must have regard to guidance issued to them pursuant to section 13.
79. Subsection (6) makes provision designed to ensure that area statements produced under subsection (1) continue to be effective in facilitating the implementation of the national policy. NRW is required to keep the statements under review, and may revise them at any time.
80. Subsection (7) requires NRW to consider rationalising the number of plans, strategies or other similar documents that operate in relation to the area to be covered by any given area statement. Before publishing a statement, NRW must consider whether:
- any existing plan, strategy or other similar document (including another area statement) should be included within the statement. For example, NRW may seek to rationalise other plans that they prepare by incorporating them within an area statement; or
  - an area statement should be included within another plan, strategy or other similar document.

### **Section 12 - Welsh Ministers’ directions to implement area statements**

81. This section enables the Welsh Ministers to direct a public body (as listed in section 10 of the Act), to take actions to address matters specified in an area statement under section 11(3). The Welsh Ministers must consider such actions to be reasonably practicable for the body to take. A direction may only require a public body to do something that is within the scope of its functions (subsection (4)).
82. For example, where (pursuant to section 14) NRW has requested that a body take specified steps to assist it in the implementation of an area statement, the body subsequently fails to provide that assistance, a direction may be issued by the Welsh Ministers to the body. This could require the body to provide this assistance but only if the Welsh Ministers consider that it is reasonably practicable for the body to do so.

83. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff cyhoeddus yr effeithir arno cyn dyroddi cyfarwyddyd o dan yr adran hon. Rhaid i gyfarwyddyd a wneir o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi a gall unrhyw gyfarwyddyd dilynol ei amrywio neu ei ddirymu (is-adran (5)).
84. Rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â chyfarwyddyd sydd wedi ei ddyroddi o dan yr adran hon (is-adran (3)). Gall Gweinidogion Cymru orfodi cyfarwyddyd o dan yr adran hon drwy wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn gorfodi. Mae methu â chydymffurfio â gorchymyn gorfodi yn achos posibl o ddirmyg llys.

### **Adran 13 – Canllawiau ynghylch gweithredu datganiadau ardal**

85. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus (gweler adran 10) i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar y camau y dylid eu cymryd i ymdrin â'r materion sydd wedi eu pennu mewn datganiad ardal a gynhyrchwyd gan CNC (o dan adran 11) ar flaenoriaethau, peryglon a chyfleoedd penodol ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy yn yr ardal honno.
86. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r canllawiau hyn o ran sut y maent yn arfer eu swyddogaethau mewn modd a all, o ganlyniad, gyfrannu at weithredu datganiad ardal.

### **Adran 14 – Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC**

87. Mae'r adran hon yn gosod gofyniad ar gyrff cyhoeddus (gweler adran 10) i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC, wrth arfer ei swyddogaethau, at ddiben paratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 8) a datganiad ardal (gweler adran 11), pan fo CNC wedi gofyn am wybodaeth neu gymorth o'r fath.
88. Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i CNC o dan yr adran hon yn gymwys os yw'r gyfraith yn gwahardd y corff cyhoeddus rhag gwneud hynny, er enghraifft, os yw gofynion diogelu data neu ddiogelwch cenedlaethol yn berthnasol, neu pe byddai darparu gwybodaeth yn mynd yn groes i hawl sydd wedi'i hamddiffyn o dan gyfraith hawliau dynol.
89. Nid yw'r ddyletswydd i gynorthwyo CNC o dan yr adran hon yn gymwys os yw darparu'r cymorth yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff neu pe byddai'n cael effeithiau andwyol o ran arfer swyddogaethau'r corff (is-adran (2)). Er enghraifft, ni allai CNC ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus, sydd â statws elusennol, weithredu mewn modd a fyddai'n groes i'w statws elusennol.

83. Subsection (2) requires the Welsh Ministers to consult the public body affected before issuing a direction under this section. A direction made under this section must be published and can be varied or revoked by any subsequent direction (subsection (5)).
84. A public body must comply with a direction that has been issued under this section (subsection (3)). A direction under this section is enforceable by the Welsh Ministers applying to the High Court for a mandatory order. Failure to comply with a mandatory order is a potential contempt of court.

### **Section 13 – Guidance about implementing area statements**

85. This section places a duty on public bodies (see section 10) to have regard to any guidance published by the Welsh Ministers in relation to the steps that should be taken to deal with the matters that have been identified in an area statement produced by NRW (under section 11) on specific priorities, risks and opportunities for sustainable management of natural resources that need to be addressed in that area.
86. Public bodies must have regard to this guidance in relation to how they exercise their functions in a way that can therefore contribute to the implementation of an area statement.

### **Section 14 – Duty of public bodies to provide information or other assistance to NRW**

87. This section places a requirement on public bodies (see section 10) to provide NRW with information or other assistance, in the exercise of its functions, for the purpose of preparing and publishing a state of natural resources report (see section 8) and an area statement (see section 11), where NRW has requested this information or assistance.
88. The duty to supply information to NRW under this section does not apply if the public body is prohibited by law to from doing so, for example where access to information is restricted such as where data protection or national security requirements apply or where to provide information would contravene a right protected under human rights law.
89. The duty to assist NRW under this section does not apply if providing the assistance is incompatible with the body's duties or would result in adverse effects on the exercise of the body's functions (subsection (2)). For example, NRW could not require a public body which has charitable status to act in a manner which would be contrary to its charitable status.

90. Mae is-adran (3) yn darparu bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (a sefydlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth a/neu gymorth o dan is-adrannau (1) a (2), ond dim ond ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 8). Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys os yw'r gyfraith yn gwahardd y Comisiynydd rhag darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani, neu os yw'r Comisiynydd o'r farn bod darparu'r cymorth yn anghydnaws â'i ddyletswyddau neu y byddai'n arwain at effeithiau andwyol o ran arfer ei swyddogaethau.

### **Adran 15 - Dyletswydd ar CNC i ddarparu cyngor neu gymorth arall i gyrff cyhoeddus**

91. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, o gael cais gan gorff cyhoeddus (gweler adran 11), ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i'r corff hwnnw at ddibenion gweithredu datganiad ardal.
92. Ni ddylai CNC ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r gyfraith yn ei wahardd rhag ei darparu, fodd bynnag.
93. Nid yw'n ofynnol ychwaith i CNC ddarparu unrhyw gymorth arall y bydd corff cyhoeddus yn gofyn amdano os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â dyletswyddau CNC ei hun, neu y byddai'n cael effaith ar arfer ei swyddogaethau mewn ffordd arall (is-adran (2)). Er enghraifft, byddai hyn yn berthnasol pe byddai darparu cyngor yn anghydnaws â swyddogaeth reoleiddio CNC.

### **Adran 16 - Pŵer i ymrwymo i gytundebau rheoli tir**

94. Mae adran 16 yn galluogi CNC i ymrwymo i gytundebau gydag unrhyw bersonau sydd â buddiant mewn tir (fel y'i diffinnir yn is-adran (3)) ynglŷn â'r ffordd y maent yn rheoli eu tir. Mae'n disodli pwerau amrywiol CNC i ymrwymo i gytundebau rheoli tir a geir yn adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (Deddf 1981), adrannau 15 a 45 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 (Deddf 1968) ac adran 16 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949).
95. Dim ond at ddibenion cadwraeth natur, darparu mynediad i gefn gwlad neu wella harddwch naturiol cefn gwlad (adran 39 o Ddeddf 1981), gwarchod a diogelu safleoedd dynodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (adran 15 o Ddeddf 1968) neu er mwyn sicrhau bod tir yn cael ei reoli fel gwarchodfa natur (adran 16 o Ddeddf 1949) y gellid defnyddio'r pwerau blaenorol.
96. Mae paragraffau 1 i 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon yn cael gwared ar bwerau CNC i ymrwymo i gytundebau o dan Ddeddf 1949, Deddf 1968 a Deddf 1981. Nid yw ei bŵer i ymrwymo i gytundebau rheoli tir o dan reoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 wedi'i ddiddymu, fodd bynnag, ac nid yw darpariaethau'r Ddeddf hon yn effeithio arno.

90. Subsection (3) provides that the Future Generations Commissioner for Wales (established under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015) is also subject to the duty to provide information and/or assistance under subsections (1) and (2), but only for the preparation and publication of the state of natural resources report (see section 8). The duty does not apply if the Commissioner is prohibited by law from providing the requested information, or if the Commissioner considers that providing the assistance is incompatible with the Commissioner's duties or would result in adverse effects on the exercise the Commissioner's functions.

### **Section 15 - Duty of NRW to provide information or other assistance to public bodies**

91. This section requires NRW, on request from a public body (see section 10), to provide that body with information or other assistance, in the exercise of its functions, for the purposes of implementing an area statement.
92. However, NRW must not provide any information that it is prohibited from providing by law.
93. NRW is also not required to provide any other assistance requested by a public body where NRW considers that doing so would be incompatible with NRW's own duties or would otherwise have an adverse effect on the exercise of its functions (subsection (2)). For example this would apply where the provision of assistance would be incompatible with NRW's position as a regulator.

### **Section 16 - Power to enter into land management agreements**

94. Section 16 enables NRW to enter into agreements with any person who has an interest in land (as defined in subsection (3)) about how they manage their land. It replaces NRW's various powers to enter into land management agreements which are in section 39 of Wildlife and Countryside Act 1981 (the 1981 Act), sections 15 and 45 of the Countryside Act 1968 (the 1968 Act) and section 16 of the National Parks and Access to the Countryside Act 1949 (the 1949 Act).
95. The previous powers could only be exercised for the purposes of nature conservation, providing access to the countryside or enhancing the natural beauty of the countryside (section 39 of the 1981 Act), for the conservation and protection of designated sites such as Sites of Special Scientific Interest (SSSIs) (section 15 of the 1968 Act) or for ensuring the management of land as a nature reserve (section 16 of the 1949 Act).
96. NRW's powers to enter into agreements under the 1949 Act, 1968 Act and 1981 Act are removed by paragraphs 1 to 3 of Schedule 2 to this Act. However, its power to enter into land management agreements under regulation 16 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010 has not been repealed and is unaffected by the provisions in this Act.



97. Mae adran 16 o'r Ddeddf hon yn rhoi pŵer ehangach i ymrwymo i gytundebau rheoli tir at unrhyw ddiben o fewn cylch gwaith CNC. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un neu ragor o'r dibenion y gellid defnyddio cytundebau rheoli tir a wnaed o dan y pwerau blaenorol ar eu cyfer, ond nid yw wedi ei gyfyngu i'r dibenion hynny.
98. Mae hefyd yn cynnwys cytundebau sy'n hyrwyddo dyletswydd gyffredinol CNC i ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel sy'n cael ei ddarparu o dan adran 5 o'r Ddeddf hon. Mae effaith adran 5 ar adran 16 yn golygu y bydd angen i CNC hefyd gymhwyso egwyddorion cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel a bennir yn adran 4 o'r Ddeddf hon.
99. Caiff CNC, o dan adran 16, ymrwymo i gytundebau rheoli tir gydag unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir.
100. Diffinnir person sydd â buddiant yn y tir yn is-adran (3) ac mae'n golygu'r sawl sydd ag ystad rydd-ddaliadol neu lesddaliadol mewn tir, pridiant rhent a'r sawl sydd â hawliau megis helwriaeth.
101. Nid yw adran 16 yn gosod gofyniad ar berson i ymrwymo i gytundeb gydag CNC, a threfniant gwirfoddol ydyw.
102. Er enghraifft, gall telerau cytundeb rheoli tir olygu ei bod yn ofynnol i berchennog tir reoli ei dir mewn ffordd arbennig, ac y caiff dderbyn taliadau neu fuddiannau eraill am wneud hynny.
103. Mae adran 16(2) yn darparu rhestr, nad yw'n gyflawn, o'r math o delerau ac amodau y gellir eu cynnwys mewn cytundeb. Ceir rhai enghreifftiau isod o'r ffordd y gellir defnyddio tir a'r cyfyngiadau ar weithgareddau y gellir ymgymryd â hwy:
- Ar dir fferm, gall fod yn ofynnol i berchennog / feddiannwr y tir beidio â thrin rhan benodol o'r tir, o dan delerau cytundeb, neu gellir gofyn iddo beidio â thorri coed penodol.
  - Efallai mai un o delerau cytundeb yw bod rhaid i berchennog / feddiannwr y tir reoli llif y dŵr drwy ei dir at ddibenion rheoli'r perygl o lifogydd. Er enghraifft, gall fod yn ofynnol i berchennog / feddiannwr y tir gadw mawnogydd neu goedwigoedd penodol, o dan y cytundeb, gan gyfyngu ar y defnydd o'r tir heblaw at ddiben atal llifogydd. Dyma enghraifft o fesurau eraill y gellir eu cymryd i reoli'r perygl o lifogydd drwy reoli tir mewn ffordd sy'n cadw dŵr yn ôl ac yn arafu ei lif er mwyn atal llifogydd i lawr yr afon.
  - Caiff CNC gyflawni gweithgareddau rheoli (h.y. torri coetir) ar y tir, neu benodi rhywun arall i wneud hynny.
  - Caiff CNC hefyd ddefnyddio cytundebau rheoli i reoli tir sydd o fewn SoDdGA. Caiff telerau cytundeb adlewyrchu buddiannau unrhyw gynllun rheoli sy'n berthnasol i SoDdGA y gellir ei wneud o dan adran 28J o Ddeddf 1981. Mae cynllun rheoli yn amlinellu mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gwarchod ac adfer SoDdGA.

97. Section 16 of this Act confers a broader power to enter into land management agreements for any purpose within the remit of NRW. This includes any of the purposes for which land management agreements made under the previous powers could be used, but is not limited to those purposes.
98. It also includes agreements that further NRW's general duty to pursue the sustainable management of natural resources as provided under section 5 of this Act. The effect of section 5 on section 16 means that NRW will also need to apply the principles of the sustainable management of natural resources as specified in section 4 of this Act.
99. Under section 16 NRW may enter into land management agreements with any person who has an interest in the land.
100. A person with an interest in the land is defined in subsection (3) and means those with a freehold or leasehold estate in land, a rent charge and those with rights such as the right to hunt or shoot game.
101. Section 16 does not impose a requirement on a person to enter into an agreement with NRW and they are voluntary arrangements.
102. For example the terms of a land management agreement may require a land owner to manage their land in a particular way, for which they may receive payments or other benefits in return.
103. Section 16(2) provides a non-exhaustive list of the type of terms and conditions that may be included in an agreement. Some examples of how the land may be used and restrictions on activities that may be undertaken are below:
  - On farmland, under the terms of an agreement, the land owner/occupier may be required not to cultivate a certain area of the land, or they may be asked not to cut down certain trees.
  - It may be a term of an agreement that a land owner/occupier must manage the flow of water through his or her land for the purposes of managing flood risk. For example the land owner/occupier may be required under the agreement to retain certain peat bogs or forestry coverage, therefore, restricting the use of the land but for the purpose of flood retention. This is an example of alternative measures that may be taken to manage flood risk by managing land in a way that retains water and attenuates flow to prevent flooding downstream.
  - NRW may undertake management activities (i.e. harvesting woodland) on the land, or appoint someone else.
  - NRW may also use management agreements for managing land that falls within a SSSI. The terms of an agreement may reflect the interests of any management scheme relating to a SSSI that may be made under section 28J of the 1981 Act. A management scheme sets out measures to be taken for conserving and restoring a SSSI.

104. Mae angen darllen adran 16 ar y cyd â'r diwygiadau canlyniadol a wneir i Ddeddf 1949, i Ddeddf 1968 ac i Ddeddf 1981 gan Atodlen 2, Rhan 1 o'r Ddeddf hon, sy'n diddymu'r adrannau hynny o ran CNC. Mae darpariaethau trosiannol yn adran 20 yn sicrhau bod unrhyw gytundebau presennol a wnaed gan CNC i'w trin fel cytundebau o dan y Ddeddf hon.

**Adran 17 - Effaith cytundebau rheoli tir penodol ar olynwyr yn y teitl**

105. Mae adran 17 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff telerau cytundeb rheoli tir adran 16 rwymo perchnogion neu denantiaid dilynol y tir. Nid yw'r adran hon ond yn gymwys pan fo gan y person sy'n gwneud y cytundeb rheoli tir "fuddiant cymwys" fel y'i diffinnir yn is-adran (3), h.y. pan fo'r person yn berchen ar y tir fel rhydd-ddeiliad neu'n ei ddal o dan les a roddir am dymor o saith mlynedd o leiaf. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo'r teitl yn y tir naill ai wedi'i gofrestru, neu heb ei gofrestru. Mae'r rhan fwyaf o deitlau yn y tir yng Nghymru a Lloegr wedi'u cofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM ond mae peth tir sy'n dal heb ei gofrestru.
106. Mae adran 17(1) yn gymwys i dir nad yw wedi'i gofrestru. Gellir cofrestru'r buddiant sy'n cael ei greu o dan gytundeb rheoli fel pridiant tir Dosbarth D(ii) yn unol â Deddf Pridiannau Tir 1972 (p.61). Effaith cofrestru'r pridiant tir yw bod telerau cytundeb rheoli tir yn rhwymo unrhyw olynnydd i'r person sydd â buddiant cymwys.
107. Diffinnir olynnydd yn is-adran (4) sef, fel arfer, unrhyw berson sy'n prynu'r buddiant rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol (am dymor o fwy na 7 mlynedd) mewn tir. Ni fydd telerau cytundeb yn rhwymo'r prynwr os nad yw'r buddiant wedi'i gofrestru fel pridiant tir Dosbarth D(ii).
108. Mae adran 17(2) yn gymwys i dir cofrestredig ac mae'n rhaid i'r buddiant sy'n cael ei greu o dan gytundeb rheoli tir adran 16 gael ei gofrestru drwy hysbysiad ar y teitl cofrestredig yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002 (p.9). Os nad yw'r buddiant wedi'i gofrestru fel hysbysiad ni fydd telerau'r cytundeb yn rhwymo'r olynnydd yn y teitl.
109. Ar hyn o bryd, mae cytundeb a wneir o dan adran 39 o Ddeddf 1981 yn rhwymo perchnogion neu feddianwyr olynol / y dyfodol boed y tir wedi'i gofrestru ai peidio.
110. Ar yr amod fod CNC naill ai'n cofrestru'r buddiant o dan gytundeb naill ai fel hysbysiad o deitl ar y gofrestr yn achos tir cofrestredig, neu fel pridiant tir Dosbarth D(ii) yn achos tir heb ei gofrestru, caiff orfodi telerau cytundeb rheoli tir yn erbyn unrhyw berson sy'n caffael buddiant cymwys yn y tir.
111. Mae angen darllen adran 17 ar y cyd â'r diwygiadau canlyniadol y mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn eu gwneud.



104. Section 16 needs to be read in conjunction with the consequential amendments made to the 1949 Act, the 1968 Act and the 1981 Act by Schedule 2, Part 1 of this Act, which repeals those sections in relation to NRW. Transitional provisions in section 20 ensure that any existing agreements made by NRW are to be treated as agreements under this Act.

### **Section 17 - Effect on successors in title of certain land management agreements**

105. Section 17 sets out the circumstances in which the terms of a section 16 land management agreement may bind subsequent owners or tenants of the land. This section only applies where the person making the land management agreement has a “qualifying interest” as defined in subsection (3), i.e. where the person owns the freehold of the land or holds it under a lease granted for a term of at least seven years. It makes provision for circumstances where the title to the land is either registered or not registered. Most titles in land in England and Wales are registered with HM Land Registry but there is some land that remains unregistered.
106. Section 17(1) applies to land that is not registered. The interest created under a management agreement may be registered as a Class D(ii) land charge in accordance with the Land Charges Act 1972 (c.61). The effect of registering the land charge is that the terms of a land management agreement are binding on any successor to the person with a qualifying interest.
107. A successor is defined in subsection (4) and will generally be any person who buys the freehold or leasehold interest (for a term of more than 7 years) in land. The buyer will not be bound by the terms of an agreement if the interest has not been registered as a Class D(ii) land charge.
108. Section 17(2) applies to registered land and the interest created under a section 16 land management agreement must be registered by way of a notice on the registered title in accordance with the Land Registration Act 2002 (c.9). If the interest is not registered as a notice the successor to the title will not be bound by the terms of the agreement.
109. Currently, an agreement made under section 39 of the 1981 Act binds subsequent/future owners or occupiers of the land whether it is registered or not.
110. Providing NRW either registers the interest under an agreement either as a notice on the register of title in the case of registered land or as a Class D(ii) land charge in the case of unregistered land they may enforce the terms of a land management agreement against any person who acquires a qualifying interest in the land.
111. Section 17 needs to be read in conjunction with the consequential amendments made by Part 1 of Schedule 2.

### **Adran 18 – Cymhwyso Atodlen 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i gytundebau rheoli tir**

112. Mae'r adran hon yn galluogi personau penodol na fyddai ganddynt, o bosibl, y pŵer hwnnw fel arall, i ymrwymo i gytundebau rheoli tir adran 16 gydag CNC. Yr un personau yw'r rhain â'r personau sydd â'r pŵer i ymrwymo i gyfamodau neilltuo coedwigaeth o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn rhinwedd Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Dim ond i denantiaid am oes tir settledig, tir sy'n eiddo i brifysgolion a cholegau penodol, a thir eglwysig penodol y mae'r adran hon yn berthnasol.

### **Adran 19 – Effaith cytundebau ar neilltuo priffordd a rhoi hawddfraint**

113. Pan fo'r cyhoedd neu berson penodol wedi defnyddio hawl tramwy ar draws tir yn rhinwedd cytundeb rheoli tir adran 16, effaith yr adran hon yw nad yw'r defnydd o'r tir yn berthnasol wrth benderfynu o dan y gyfraith a yw'r tir i'w drin fel tir sydd wedi ei neilltuo fel priffordd neu a yw hawddfraint i'w drin fel pe bai wedi ei roi.

### **Adran 20 – Darpariaethau trosiannol**

114. Mae'r adran yn darparu y caiff cytundebau rheoli tir a wnaed gan CNC o dan Ddeddf 1981, Deddf 1968 a Deddf 1949, cyn i'w bwerau o dan y Deddfau hynny gael eu disodli gan y pwerau yn adran 16 o'r Ddeddf hon, eu trin fel cytundebau rheoli tir o dan adran 16 o'r Ddeddf hon. Bydd adrannau 17 i 21 yn gymwys iddynt felly.

### **Adran 21 – Tir y Goron**

115. Mae'r adran hon yn dweud pwy gaiff ymrwymo i gytundebau rheoli tir adran 16 ar ran y Goron.
116. Caiff CNC ymrwymo i gytundeb adran 16 mewn perthynas â thir y Goron ond mae adran 21 yn golygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod priodol naill ai wneud y cytundeb neu gymeradwyo'r cytundeb, gan ddibynnu a yw'r Goron yn dal y buddiant perthnasol mewn tir. Pennir yr awdurdod priodol ar sail pwy yw perchennog tir y Goron, a chaiff ei ddiffinio yn is-adran (4). Diffinnir "tir y Goron" yn is-adran (3).
117. Mae is-adran (5) yn darparu bod unrhyw gwestiwn ynghylch pwy yw'r awdurdod priodol yn cael ei gyfeirio at y Trysorlys.

### **Adran 22 – Pŵer i atal dros dro ofynion statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol**

118. Mae adran 22 yn galluogi Gweinidogion Cymru, o gael cais gan CNC, i wneud rheoliadau sy'n gallu atal dros dro ddarpariaeth statudol benodol y mae CNC yn gyfrifol amdani, er mwyn galluogi cynnal cynllun arbrofol fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 23. Bydd y cynlluniau hyn yn galluogi CNC i dreialu dulliau newydd i'w helpu i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, a gall gynnwys datblygu neu gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd, neu gymhwyso neu ddatblygu ymhellach ddulliau, gysyniadau neu dechnegau cyfredol.

### **Section 18 - Application of Schedule 2 of the Forestry Act 1967 to land management agreements**

112. This section enables certain persons, who might not otherwise have the power to do so, to enter into section 16 land management agreements with NRW. These are the same persons who have the power to enter into forestry dedication covenants under the Forestry Act 1967 by virtue of Part 1 of Schedule 2 to that Act. This section is only relevant to tenants for life of settled land, land belonging to certain universities and colleges, and certain ecclesiastical land.

### **Section 19 - Effect of agreements on dedication of highway and grant of easement**

113. The effect of this section is that where the public or a particular person has used a right of way across land by virtue of a section 16 land management agreement, that use of the land is not relevant when determining under law whether the land is treated as having been dedicated as a highway or whether an easement is treated as having been granted.

### **Section 20 - Transitional provisions**

114. The section provides that land management agreements made by NRW under the 1981 Act, the 1968 Act and the 1949 Act, before its powers under those Acts are replaced by the powers in section 16 of this Act, will be treated as land management agreements under section 16 of this Act. Sections 17 to 21 will therefore apply to them.

### **Section 21 - Crown land**

115. This section provides for who may enter into section 16 land management agreements on behalf of the Crown.

116. NRW may enter into a section 16 agreement in relation to Crown land but section 21 means that the agreement must be either made or approved by the appropriate authority, depending on whether the Crown holds the relevant interest in land. The appropriate authority depends on who the Crown land belongs to and is defined in subsection (4). "Crown land" is defined in subsection (3).

117. Subsection (5) provides that any question about who is the appropriate authority is referred to the Treasury.

### **Section 22 - Power to suspend statutory requirements for experimental schemes**

118. Section 22 enables the Welsh Ministers, on the application of NRW, to make regulations, which can temporarily suspend a specified statutory provision for which NRW is responsible for the purpose of enabling an experimental scheme as provided under section 23. These schemes will enable NRW to trial new approaches to help it achieve the sustainable management of natural resources and may include the development of or application of new methods, concepts or techniques, or the application or further development of existing methods, concepts or techniques.

119. Caiff rheoliadau o dan adran 22(1) roi eithriad rhag gofyniad, llacio gofyniad a'i gwneud yn ofynnol i'r person y mae'r eithriad neu'r llacio yn gymwys iddo gydymffurfio ag amodau a bennir mewn rheoliadau. Mae'r atal dros dro neu'r llacio wedi ei gyfyngu i gyfnod nad yw'n fwy na thair blynedd (ac y caniateir ei ymestyn unwaith am gyfnod pellach nad yw'n fwy na thair blynedd). Gweler adran 22(4) a (5).
120. Caiff y rheoliadau hefyd addasu deddfiad mewn modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er mwyn gorfodi eithriad, llacio neu amodau, neu o ganlyniad i hynny. Mae paragraffau (c) a (d) yn darparu, pan fo gofyniad statudol yn cael ei atal dros dro neu'n cael ei lacio gan reoliadau o dan is-adran (1), y caniateir gosod amodau y mae'n rhaid i barti gydymffurfio â hwy, ac hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i drosglwyddo mesurau gorfodi cyfredol o'r deddfiad cyfredol.
121. Dim ond mewn perthynas â gofynion statudol y mae CNC yn gyfrifol amdanynt y caniateir gwneud rheoliadau. Diffinnir y gofynion hyn yn adran 22(9). Rhaid i'r gofyniad gael ei osod drwy ddeddfiad. CNC sy'n gyfrifol am y gofyniad statudol os yw'n ofyniad:
- i gydymffurfio â safon neu ofyniad a osodir gan CNC;
  - i gael trwydded neu awdurdodiad arall gan CNC cyn gwneud rhywbeth;
  - y caiff CNC ei orfodi; neu
  - sy'n gymwys i CNC ac sy'n ymwneud â'r modd y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli a'u defnyddio, (neu at ba ddibenion y gwneir hynny).
122. Mae adran 22(2) yn darparu na chaiff y rheoliadau dynnu ymaith neu addasu swyddogaeth un o Weinidogion y Goron a oedd yn arferadwy cyn 5 Mai 2011, heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.
123. Mae adran 22(3) yn darparu hefyd na chaniateir gwneud y rheoliadau onid yw Gweinidogion Cymru:
- wedi eu bodloni bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol er mwyn galluogi cynnal cynllun arbrofol (gweler adrannau 22(9) a 23) sy'n debygol o gyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y'i diffinnir yn adran 3);
  - wedi eu bodloni nad yw'r rheoliadau yn cael yr effaith gyffredinol o gynyddu'r baich rheoliadol ar unrhyw berson;
  - wedi ymgynghori â'r rhai hynny y maent yn barnu bod darpariaethau'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt a'r personau y credant fod y cynllun arbrofol yn debygol o effeithio arnynt fel arall.

119. Regulations under section 22(1) may confer an exemption from a requirement, relax a requirement, and require the person to whom the exemption or relaxation applies to comply with conditions stated in regulations. The suspension or relaxation is limited to a period not exceeding three years (and which may be extended once by a further period not exceeding three years). See section 22(4) and (5).
120. The regulations may also modify an enactment in a way the Welsh Ministers consider necessary for the enforcement of, or in consequence of the exemption, relaxation or conditions. Paragraphs (c) and (d) provide that when a statutory requirement is suspended or relaxed by regulations under subsection (1), conditions may be put in place which a party is required to comply with, in addition to enabling the Welsh Ministers to transfer existing enforcement measures from the existing enactment.
121. Regulations may only be made in relation to statutory requirements for which NRW is responsible. These requirements are defined in section 22(9). The requirement must be imposed by an enactment. NRW is responsible for the statutory requirement if it is a requirement:
- to comply with a standard set or requirement imposed by NRW;
  - to obtain a licence or other authorisation from NRW before doing something;
  - that may be enforced by NRW; or
  - that applies to NRW and is concerned with the way in which (or the purposes for which) natural resources are managed or used.
122. Section 22(2) provides that regulations may not remove or modify a function of a Minister of the Crown which was exercisable before 5 May 2011, without the consent of the Secretary of State.
123. Section 22(3) provides that regulations may also only be made where the Welsh Ministers:
- Are satisfied that the provision is necessary to enable an experimental scheme (see sections 22(9) and 23) that is likely to contribute to the sustainable management of natural resources (as defined in section 3);
  - Are satisfied that the regulations do not have the overall effect of increasing regulatory burdens for any person;
  - Have consulted those they think are likely to be affected by the provisions of the regulations and those persons that they think are likely to be otherwise affected by the experimental scheme.

124. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (gweler adran 25(3)) oni bai mai'r unig effaith sylweddol yw dirymu rheoliadau blaenorol o dan adran 22(1) - mewn achosion felly yr unig beth y mae angen ei wneud yw eu gosod yn y Cynulliad ar ôl iddynt gael eu gwneud, ac nid oes unrhyw ofyniad i gynnal ymgynghoriad. Gellid dirymu rheoliadau os yw cynllun arbrofol wedi dod i ben cyn y cyfnod tair blynedd cychwynol neu cyn diwedd cyfnod unrhyw estyniad, sy'n golygu nad oes angen y rheoliadau mwyach.
125. Dim ond mewn perthynas â Chymru y caiff y rheoliadau fod yn gymwys.
126. Gallai cais oddi wrth CNC i reoliadau gael eu gwneud fod ar y sail, er enghraifft, y byddai angen, ar gyfer cynllun arbrofol arfaethedig penodol, cael eithriad rhag yr angen i gael cydsyniad penodol er mwyn gallu cyflawni gweithgaredd penodol. Efallai mai diben atal hynny dros dro fyddai treialu safonau cyffredin gofynnol, y gellid eu cymhwyso yn lle'r cydsyniad mewn amgylchiadau penodol neu ar gyfer gweithgareddau penodol.
127. Mae adran 22(8) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC werthuso cynllun arbrofol y cafodd gofynion statudol eu hatal dros dro neu eu llacio mewn perthynas ag ef, a chyhoeddi gwerthusiad o'r cynllun.
128. Mae adran 22(9) yn diffinio cynllun arbrofol fel cynllun a gynhelir o dan drefniadau a wneir gan CNC o dan erthygl 10C o'r Gorchymyn Sefydlu, sy'n gynllun sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd neu addasedig, neu i ddatblygu neu brofi cynigion ar gyfer newid rheoliadol.

### **Adran 23 - Pŵer CNC i gynnal cynlluniau arbrofol etc**

129. Mae'r adran hon yn rhoi darpariaeth yn lle erthygl 10C o'r Gorchymyn Sefydlu.
130. Effaith erthygl 10C (y mae adran 23 yn ei rhoi yn lle erthygl 10C), yw ymestyn swyddogaethau ymchwil cyffredinol CNC i gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer cynnal cynlluniau arbrofol.
131. Mae erthygl 10C(1) yn rhoi pŵer i CNC (y cyfeirir ato fel "y Corff" yn y Gorchymyn Sefydlu) wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ymchwil a chynlluniau arbrofol sy'n berthnasol i arfer ei swyddogaethau. Caiff CNC neu bersonau eraill gyflawni ymchwil neu gynlluniau.
132. Mae erthygl 10C(3) yn darparu bod rhaid i CNC, pan fo'n arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â chadwraeth natur, roi sylw i'r safonau cyffredin ar gyfer monitro cadwraeth natur, ymchwil i gadwraeth natur a gwaith dadansoddi'r wybodaeth sy'n deillio o hynny y gallai'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (fel y darperir o dan adran 34(2) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006) fod wedi'i sefydlu.



124. Regulations are subject to the affirmative resolution procedure (see section 25(3)) unless their only substantive effect is to revoke previous regulations under section 22(1) – in which case they need only be laid in the Assembly after being made and there is no obligation to undertake any consultation. Regulations might be revoked where an experimental scheme has ended prior to the initial three year period or before the end of any extension period and as such the regulations are no longer necessary.
125. The regulations may apply only in relation to Wales.
126. An application made by NRW for regulations to be made may, for example, be on the basis that a particular proposed experimental scheme would require an exemption from the need to obtain a particular consent to be able to undertake a particular activity. The purpose of the suspension could be to trial minimum common standards, which could be applied in place of the consent for particular circumstances or activities.
127. Section 22(8) requires NRW to evaluate an experimental scheme for which statutory requirements have been suspended or relaxed, and publish the evaluation of the scheme.
128. Section 22(9) defines an experimental scheme as a scheme carried out under arrangements made by NRW under article 10C of the Establishment Order, which is a scheme designed to develop or to apply new or modified methods, concepts or techniques, or to develop or test proposals for regulatory change.

### **Section 23 – Power of NRW to conduct experimental schemes etc.**

129. This section substitutes a provision for article 10C of the Establishment Order.
130. Article 10C, (as substituted by section 23) has the effect of extending the general research functions of NRW to include the making of arrangements for the carrying out of experimental schemes.
131. Article 10C(1) gives NRW (referred to in the Establishment Order as “the Body”) power to make arrangements for the carrying out of research and experimental schemes that are relevant to the exercise of its functions. Research or schemes may be carried out by NRW or other persons.
132. Article 10C(3) provides that when NRW exercises these functions in relation to nature conservation, it must have regard to the common standards for the monitoring of nature conservation, research into nature conservation and analysis of resulting information that have been established by the Joint Nature Conservation Committee (as provided under section 34(2) of the NERC Act 2006).

133. Diben erthygl 10C yw galluogi CNC i gynnal, cefnogi neu gomisiynu gwaith ymchwil yn ogystal â chynlluniau arbrofol neu arloesol, os yw'r cynlluniau hyn yn ffordd o dreialu dulliau newydd o gyflawni ei bwerau a'i rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth mewn ffordd a all ei helpu i gyflawni ei ddiben cyffredinol o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
134. Ar hyn o bryd mae gan CNC bwerau o dan adran 4 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 ("Deddf 1968") i wneud a chynnal cynlluniau arbrofol a gynlluniwyd i hwyluso mwynhau cefn gwlad, neu i warchod neu wella ei harddwch neu ei amwynder naturiol. Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu, felly, i agwedd benodol ar gylch gwaith CNC. Mae erthygl 10C yn ymestyn cwmpas pŵer CNC i gynnal cynlluniau arbrofol. Caiff adran 4 o Ddeddf 1968 ei diddymu (gweler paragraff 2(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf).
135. At ddibenion erthygl 10C, cynllun sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu neu i gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd neu addasedig, neu i ddatblygu neu brofi cynigion ar gyfer newid rheoliadol, yw cynllun arbrofol.
136. Caiff CNC dreialu datblygu neu gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd er mwyn gweithredu mewn modd sy'n helpu i gyflawni'r amcan o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Gallai hyn gynnwys dulliau gweinyddol, technegol neu wyddonol o gyflawni'r amcan hwn. Un enghraifft o hyn fyddai treialu safonau neu amodau newydd, a allai arwain at ddatblygu deddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer rheol gyfrwymol gyffredinol, hynny, yw treialu dulliau eraill o reoleiddio gweithgareddau.
137. Enghraifft o hyn fyddai pan fo CNC yn ceisio datblygu codau ymarfer statudol a all nodi safonau gofynnol ar gyfer gweithgareddau penodol, heb fod angen caniatâd na thrwydded, ac sy'n gallu sicrhau perfformiad o'r un safon, neu well. Efallai y bydd CNC yn awyddus i gynnal treial mewn maes penodol y mae datganiad ardal yn ei gwmpasu (fel y darperir yn adran 11 o'r Ddeddf) er mwyn nodi swyddogaeth adnoddau naturiol o ran helpu i leihau llifogydd (yn sgil swyddogaeth mawngogydd, er enghraifft).
138. Nid yw'r pŵer i gefnogi cynlluniau arbrofol yn erthygl 10C(2) wedi'i gyfyngu i gymorth ariannol ac felly gallai gynnwys darparu offer ac arbenigedd. Os yw CNC yn darparu cymorth ariannol, gall fod ar ffurf grant neu fenthyciad neu gyfuniad o'r ddau, a gall fod yn gysylltiedig ag amodau sy'n golygu bod angen ad-dalu'r grant i gyd neu ran ohono (erthyglau 10B(2) a (3) o'r Gorchymyn Sefydlu).

#### **Adran 24 - Pŵer i ddiwygio cyfnodau ar gyfer paratoi a chyhoeddi dogfennau**

139. Mae adrannau 8(3) i (5) a 9(5) yn nodi'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad terfynol a'r adroddiad drafft ar gyflwr adnoddau naturiol a'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, newid yr amserlenni hynny. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC cyn gwneud y rheoliadau.

133. The purpose of article 10C is to enable NRW to undertake, support or commission research and also experimental or innovative schemes, whereby these schemes are a means to trial new approaches to the delivery of their powers and obligations under legislation in a way that can help them to meet their overarching purpose of achieving the sustainable management of natural resources.
134. NRW currently has powers under section 4 of the Countryside Act 1968 (“the 1968 Act”) to make and carry out experimental schemes designed to facilitate the enjoyment of the countryside, or to conserve or enhance its natural beauty or amenity. This power is therefore restricted to a limited area of NRW’s remit. Article 10C extends the scope of NRW’s power to conduct experimental schemes. Section 4 of the 1968 Act is repealed (see paragraph 2(2) of Schedule 2 to the Act).
135. For the purposes of article 10C an experimental scheme is a scheme designed to develop or apply new or modified methods, concepts or techniques, or to develop or test proposals for regulatory change.
136. NRW may trial the development or application of new methods, concepts or techniques to deliver their actions in a way that helps to achieve the outcome of sustainable management of natural resources. This may include new administrative, technical, or scientific approaches to achieving this outcome. An example of this could include the trialling of new standards or conditions, which may lead to the development of legislation providing for a general binding rule (GBR) i.e. the trialling of alternative methods of regulating activities.
137. An illustrative example of this could be where NRW seeks to develop statutory codes of practice that can identify minimum standards for certain activities, without the need for permitting or licensing and which can deliver the same or improved standard of performance. NRW may wish to undertake a trial in a particular area covered by an area statement (as provided in section 11 of the Act) to identify the role of natural resources to assist in flood alleviation (for example through the role of peatlands).
138. The power to support experimental schemes in article 10C(2) is not limited to financial support and so could include the provision of equipment and expertise. Where NRW do provide financial support, this may be either as a grant or as a loan or a combination of both and may attach conditions requiring repayment or the whole or part of any grant (articles 10B(2) and (3) of the Establishment Order).

#### **Section 24 – Power to amend periods for the preparation and publication of documents**

139. Sections 8 (3) to (5) and 9(5) set out the timescales for publishing the final and draft state of natural resources report and the national natural resources policy. This section provides that the Welsh Ministers may, by regulations, change those timescales. Subsection (3) provides that before making the regulations, the Welsh Ministers must consult NRW.

### **Adran 25 – Rheoliadau o dan y Rhan hon**

140. Mae'r adran hon yn pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Cynulliad wrth wneud rheoliadau o dan Ran 1 o'r Ddeddf. Mae'r holl reoliadau yn Rhan 1 yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw rheoliadau a wneir o dan adran 22(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os mai'r pwrpas yw dirymu rheoliadau presennol a wneir o dan yr adran honno. Yn hytrach, rhaid eu gosod gerbron y Cynulliad yn unig (is-adran (4)).
141. Defnyddir y term y "weithdrefn gadarnhaol" i gyfeirio at offerynnau statudol y mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymeradwyo cyn iddynt ddod yn gyfraith.
142. Mae is-adran (2) yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rheoliadau yn Rhan 1 gael eu cymhwyso'n wahanol o dan wahanol amgylchiadau a gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

### **Adran 27 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

143. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n nodi'r mân ddiwygiadau, y diwygiadau canlyniadol a'r diddymiadau mewn perthynas â deddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â darpariaethau Rhan 1 o'r Ddeddf.

### **Rhan 2 – Newid yn yr hinsawdd**

144. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod 'cyfrif allyriadau net Cymru' ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru.
145. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau dargedau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Rhaid i'r targedau interim hyn fod yn gyson â tharged 2050. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau gyfres o gyllidebau carbon ar gyfer pob cyfnod o bum mlynedd rhwng 2016 a 2050 a sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob un o'r cyfnodau hynny yn fwy na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Rhaid i'r cyllidebau carbon hyn fod yn gyson â'r targedau interim a'r targed ar gyfer 2050.
146. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynhyrchu adroddiad sy'n manylu ar y polisiau a'r cynigion a fydd yn cyflawni'r gostyngiadau y mae'r cyllidebau carbon yn gofyn amdanynt yng Nghymru drwy gyfeirio at feysydd cyfrifoldeb holl Weinidogion Cymru. Wrth osod neu ddiwygio targedau interim neu gyllidebau carbon, rhaid i Weinidogion Cymru gael cyngor gan y 'corff cynghori', a allai fod y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (a sefydlwyd yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008), yn berson a ddynodir gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth, neu'n gorff newydd a sefydlir gan Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau'r corff cynghori.

### **Section 25 – Regulations under this Part**

140. This section establishes the Assembly procedure to be followed when making regulations under Part 1 of the Act. All regulations in Part 1 are subject to the Assembly's affirmative procedure. However, regulations made under section 22(1) where the purpose is to revoke existing regulations made under that section are not subject to the affirmative procedure but only need to be laid before the Assembly (subsection (4)).
141. To go through the 'affirmative procedure' refers to statutory instruments which must be approved by the National Assembly for Wales to become law.
142. Subsection (2) gives flexibility for the regulations in Part 1 to apply differently in different circumstances and make transitional or saving provision.

### **Section 27 – Minor and consequential amendments and repeals**

143. This section introduces Part 1 of Schedule 2 to the Act which sets out the minor and consequential amendments and repeals of other legislation which are related to the provisions in Part 1 of the Act.

### **Part 2 – Climate change**

144. Part 2 of the Act places a duty on the Welsh Ministers to ensure that the 'net Welsh emissions account' for the year 2050 is at least 80% lower than the baseline. The Act makes provisions for a net Welsh emissions account.
145. The Welsh Ministers must in regulations specify interim emissions targets for 2020, 2030 and 2040. These interim targets must be consistent with the 2050 target. The Act also requires the Welsh Ministers to set in regulations a series of carbon budgets for each five-year period between 2016 and 2050 and ensure that the net Welsh emissions account for each of these periods does not exceed the carbon budget for that period. These carbon budgets must be consistent with the interim and 2050 targets.
146. The Act places a duty on the Welsh Ministers to produce a report detailing the policies and proposals that will deliver the reductions demanded by the carbon budgets in Wales by reference to the areas of responsibility of each of the Welsh Ministers. In setting or amending interim targets or carbon budgets, the Welsh Ministers must receive advice from the 'advisory body', which can be the UK Committee on Climate Change (as established in the Climate Change Act 2008), a person designated by the Welsh Ministers in subordinate legislation, or a new body established by the Welsh Ministers to exercise functions of the advisory body.



### **Adran 28 – Diben y Rhan hon**

147. Mae'r adran hon yn nodi diben y Rhan hon, sef ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru.

### **Adran 29 – Targed allyriadau 2050**

148. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin. Diffinnir y waelodlin yn adran 38 fel swm cyfanredol allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr penodol a restrir ar gyfer blynyddoedd gwaelodlin y nwyon hynny (naill ai 1990 neu 1995 ar gyfer pob nwy). Pennir y targed ar gyfer 2050 drwy gyfeirio at flynyddoedd gwaelodlin yn hytrach na swm penodol o allyriadau gan y gallai'r blynyddoedd gwaelodlin gael eu hadolygu wrth i'r ddealltwriaeth o allyriadau hanesyddol wella. Mae defnyddio gwaelodlin ar gyfer y cyfrifiad hwn yn gyson â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer Protocol Kyoto i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd 1998, sef cytundeb rhyngwladol i gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, y mae'r DU yn barti iddo.
149. Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy osod targed 2050 fel canran sy'n fwy nag 80%. Ni chaniateir defnyddio'r pŵer oni fodlonir un o'r amodau a ddarperir yn adran 32(2) a rhaid iddo roi sylw i'r materion y darperir ar eu cyfer yn adran 32(3). Cyn i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft i ddiwygio targed 2050, rhaid iddynt ofyn am gyngor gan y corff cynghori (adran 49(1)). Rhaid i gyngor y corff cynghori i Weinidogion Cymru gynnwys yn ogystal farn y corff ar y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 50(1), gan gynnwys a yw'r targed a gynigir y targed uchaf y gellir ei gyflawni ac, os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.
150. Diffinnir y term "cyfrif allyriadau net Cymru" yn adran 34. Gweler y nodiadau esboniadol ar adrannau 33 a 38 i gael eglurhad manylach o gyllidebu carbon a chyfrif allyriadau net Cymru.

### **Adran 30 – Targedau allyriadau interim**

151. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau allyriadau interim, sef uchafsymiau cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob blwyddyn darged interim. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau nad eir uwchlaw'r targedau hynny. Mynegir y targedau interim hyn fel gostyngiad canrannol a byddant yn gweithio yn yr un ffordd â tharged 2050.



### **Section 28 - Purpose of this Part**

147. This section sets out the purpose of this Part, which is to require the Welsh Ministers to meet targets for reducing emissions of greenhouse gases from Wales.

### **Section 29 - The 2050 emissions target**

148. Subsection (1) of this section imposes a duty on the Welsh Ministers to ensure that the net Welsh emissions account for 2050 is at least 80% lower than the baseline. The baseline is defined in section 38 as the aggregate amount of net Welsh emissions of certain listed greenhouse gases for the baseline years of those gases (either 1990 or 1995 for each gas). The target for 2050 is set by reference to baseline years rather than a particular quantum of emissions because the baseline years are subject to revision as understanding of historic emissions improves. Using baseline for this calculation is consistent with the methodology employed for the purposes of the Kyoto Protocol to the United Nations Framework Convention on Climate Change 1998, an international agreement to limit emissions of greenhouse gases, to which the UK is party.
149. Subsection (3) provides the Welsh Ministers with a power to amend subsection (1) by setting the 2050 target as a percentage greater than 80%. The power may only be used if one of the conditions provided in section 32(2) is met and must have regard to the matters provided in section 32(3). Before the Welsh Ministers lay draft regulations to amend the 2050 target, they must seek advice from the advisory body (section 49(1)). The advice provided to the Welsh Ministers by the advisory body must also include the body's opinion on the matters provided in section 50(1), which includes whether the proposed target is the highest achievable target and if not, what is the highest achievable target.
150. The term "the net Welsh emissions account" is defined in section 34. See explanatory notes on sections 33 and 38 for a more detailed explanation of carbon accounting and the net Welsh emissions account.

### **Section 30 - Interim emissions targets**

151. This section places a duty on the Welsh Ministers to set interim emissions targets, which are maximum amounts for the net Welsh emissions account for each interim target year. It also places a duty on the Welsh Ministers to ensure that those targets are not exceeded. These interim targets will be expressed as a percentage reduction and work in the same way as the 2050 target.

152. Mae is-adran (3) yn pennu mai'r blynyddoedd targed interim yw 2020, 2030 a 2040, ac mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn diwedd 2018, osod targedau allyriadau interim ar gyfer y blynyddoedd hynny. Wrth wneud y rheoliadau sy'n gosod y targedau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r materion y darperir ar eu cyfer yn adran 32(3). Rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y corff cynghori (adran 49(1)) cyn gosod rheoliadau drafft i osod y targedau ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Rhaid i gyngor y corff cynghori i Weinidogion Cymru gynnwys yn ogystal farn y corff ar y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 50(1), gan gynnwys a yw'r targedau a gynigir y targedau uchaf y gellir eu cyflawni ac, os nad ydynt, beth yw'r targedau uchaf y gellir eu cyflawni.

### **Adran 31 - Cyllidebau carbon**

153. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod, ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o bum mlynedd, gyfanswm uchaf ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a elwir yn gyllideb garbon. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob cyfnod yn uwch na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Y cyfnod cyllidebol cyntaf yw 2016 i 2020, a'r cyfnodau cyllidebol sy'n weddill yw pob cyfnod dilynol o bum mlynedd, gan ddod i ben â 2046-2050.
154. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod 2 gyllideb garbon olynol ar gyfer y cyfnodau 2016-2020 a 2021-2025 cyn diwedd 2018. Mae hefyd yn creu dyletswydd i osod cyllidebau carbon dilynol o leiaf 5 mlynedd cyn y cyfnod cyllidebol o dan sylw. Wrth wneud y rheoliadau sy'n gosod cyllidebau carbon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r materion y darperir ar eu cyfer yn adran 32(3). Rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y corff cynghori (adran 49(1)) cyn gosod y rheoliadau drafft i osod cyllideb garbon. Rhaid i gyngor y corff cynghori i Weinidogion Cymru gynnwys yn ogystal farn y corff ar y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 50(2), gan gynnwys lefel briodol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod.

### **Adran 32 - Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: egwyddorion**

155. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau allyriadau interim ar lefel sy'n gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon ar lefel sy'n gyson â chyrraedd y targedau interim a tharged 2050.

152. Subsection (3) specifies that the interim target years are 2020, 2030 and 2040 and subsection (4) requires that before the end of 2018, the Welsh Ministers must set interim emissions targets for those years. When making the regulations to set these targets, the Welsh Ministers must regard to the matters provided in section 32(3). Before the Welsh Ministers lay draft regulations to set the targets for 2020, 2030 and 2040, they must seek advice from the advisory body (section 49(1)). The advice provided to the Welsh Ministers by the advisory body must also include the body's opinion on the matters provided in section 50(1), which includes whether the proposed targets are the highest achievable targets and if not, what are the highest achievable targets.

### **Section 31 - Carbon budgets**

153. This section places a duty on the Welsh Ministers to set, for each five year budgetary period, a maximum total amount for the net Welsh emissions account, which is known as a carbon budget. The Welsh Ministers are required to ensure that net Welsh emissions account for each period does not exceed the carbon budget for that period. The first budgetary period is 2016-2020, and the remaining budgetary periods are each succeeding period of five years, ending with 2046-2050.
154. The section requires the Welsh Ministers to set 2 consecutive carbon budgets for the periods 2016-2020 and 2021-2025 before the end of 2018. It also creates a duty to set subsequent carbon budgets at least 5 years in advance of the budgetary period to which they relate. When making the regulations to set carbon budgets the Welsh Ministers must regard to the matters provided in section 32(3). Before the Welsh Ministers lay draft regulations to set a carbon budget they must seek advice from the advisory body (section 49(1)). The advice provided to the Welsh Ministers by the advisory body must also include the body's opinion on the matters provided in section 50(2), which includes the appropriate level of the carbon budget for the period.

### **Section 32 - Emissions targets and carbon budgets: principles**

155. This section requires the Welsh Ministers to set interim emissions targets at a level that is consistent with meeting the 2050 emissions target. It requires the Welsh Ministers to set carbon budgets at a level that is consistent with meeting the interim targets and the 2050 target.

156. O dan is-adran (2), ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, targed allyriadau interim na chyllideb garbon oni bai bod o leiaf un o'r amodau a ganlyn yn gymwys:
- Maent wedi eu bodloni ei bod yn briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiad sylweddol naill ai mewn gwybodaeth wyddonol neu yng nghyfreithiau neu bolisiau'r UE neu gyfreithiau neu bolisiau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd;
  - Mae'r corff cynghori wedi argymhell y newid; neu
  - Mae rheoliadau wedi eu gwneud o dan adran 35 neu 37 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrif allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol fel rhan o allyriadau Cymru o'r nwy, neu sy'n diwygio'r rhestr o nwyon tŷ gwydr sy'n gymwys at ddibenion Rhan 2.
157. Mae is-adran (4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i gyfres o feini prawf wrth wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu wrth osod neu newid targed allyriadau interim, neu gyllideb garbon. Dyma'r meini prawf:
- Yr adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddwyd gan CNC o dan adran 8 o Ran 1 o'r Ddeddf hon;
  - Yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol diweddaraf o dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
  - Adroddiad diweddaraf Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (os oes un ar gael ar adeg gosod neu newid unrhyw dargedau neu gyllideb);
  - Gwybodaeth wyddonol am newid yn yr hinsawdd neu dechnoleg sy'n berthnasol iddo; a
  - Cyfreithiau a pholisiau'r UE a chyfreithiau a pholisiau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol sy'n cynnwys mesurau i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang.

### **Adran 33 – Cyfrif allyriadau net Cymru**

158. Mae is-adran (1) yn diffinio cyfrif allyriadau net Cymru fel swm cyfanredol allyriadau net Cymru ar ôl tynnu unrhyw unedau carbon a gredydir i'r cyfrif am y cyfnod ac ychwanegu unrhyw unedau carbon a ddidynnir o'r cyfrif am y cyfnod.
159. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio mewn rheoliadau pa unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru a'u didynnu ohono, a sut y gellir gwneud hynny.
160. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan is-adran (2) sicrhau, pan ddefnyddir unedau carbon i leihau cyfrif allyriadau net Cymru, nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ogystal i'w gosod yn erbyn allyriadau eraill o le arall. Fel arall, gallai hyn arwain at "gyfrif dwbl".
161. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i reoliadau gyfyngu ar y graddau y gellir defnyddio unedau carbon i leihau cyfrif allyriadau net Cymru.

156. Under subsection (2), the Welsh Ministers may not make regulations which change the 2050 emission target, an interim emissions target or a carbon budget unless at least one of the following conditions is met:
- They are satisfied that it is appropriate to do so as a result of significant development in either scientific knowledge about climate change or in EU or international law or policy that relates to climate change;
  - The advisory body has recommended the change; or
  - Regulations have been made under section 35 or 37 providing for emissions of a greenhouse gas from international aviation or international shipping to count as part of the Welsh emissions of the gas, or amending the list of greenhouse gases that are relevant for the purposes of Part 2.
157. Subsection (3) places a duty on the Welsh Ministers to have regard to a set of criteria when making regulations changing the 2050 emissions target, or setting or changing an interim emissions target or a carbon budget. The criteria are:
- The most recent state of natural resources report published by NRW under section 8 of Part 1 of this Act;
  - The most recent future trends report under section 11 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015;
  - The most recent report (if any is available at the time of setting or changing any of the targets or budget) of the Future Generations Commissioner under section 23 of that Act;
  - Scientific knowledge about or technology relevant to climate change; and
  - EU and international law and policy relating to climate change, including international agreements which include measures to limit increases in global average temperatures.

### **Section 33 – The net Welsh emissions account**

158. Subsection (1) defines the net Welsh emissions account as the aggregate of net Welsh emissions, minus any carbon units credited to the account for the period plus any carbon units debited from the account for the period.
159. Subsection (2) enables the Welsh Ministers to define in regulations which carbon units can be credited to and debited from the net Welsh emissions account, and how this can be done.
160. Subsection (3) provides that regulations made under subsection (2) must ensure that, where carbon units are used to reduce the net Welsh emissions account, they are not also used to offset other emissions elsewhere. This could otherwise lead to “double-counting”.
161. Subsection (4) provides that regulations must limit the extent to which carbon units can be used to reduce the net Welsh emissions account.

#### **Adran 34 – Allyriadau net Cymru**

162. Mae'r adran hon yn diffinio allyriadau Cymru ac echdyniadau Cymru o nwyon tŷ gwydr, ac yn darparu mai allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod yw allyriadau Cymru minws echdyniadau Cymru.

#### **Adran 35 – Allyriadau Cymru o hedfan a morgludiant rhyngwladol**

163. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu bod allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol yn cyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy.

#### **Adran 36 – Unedau carbon**

164. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio "unedau carbon" mewn rheoliadau. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu cynllun neu ddefnyddio cynllun cyfredol ar gyfer cofrestru a chadw cyfrif o unedau carbon ac ar gyfer sefydlu a chynnal cyfrifon y caniateir cadw unedau carbon ynddynt.

#### **Adran 37 – Nwyon tŷ gwydr**

165. Mae'r adran hon yn rhestru "nwyon tŷ gwydr" at ddiben Rhan 2 o'r Ddeddf ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn ychwanegu nwy neu ddiwygio disgrifiad o nwy.

#### **Adran 38 – Y waelodlin**

166. Mae'r adran hon yn diffinio'r "waelodlin" at ddibenion y Rhan hon o'r Ddeddf ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn diwygio'r waelodlin honno. Byddai hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr sydd wedi ei ychwanegu gan reoliadau o dan is-adran 37(2) neu addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr sydd eisoes wedi ei restru. Ni chaiff Gweinidogion Cymru addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr onid ydynt wedi eu bodloni y byddai'n briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol yng nghyfreithiau neu bolisiau'r UE neu gyfreithiau neu bolisiau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

#### **Adran 39 – Cynigion a pholisïau ar gyfer cyrraedd cyllidebau carbon**

167. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, sy'n amlinellu eu cynigion a'u polisiau ynghylch sut y cyrhaeddir y cyllidebau a bennwyd ganddynt. Rhaid i'r adroddiad gynnwys cynigion a pholisïau drwy gyfeirio at feysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Rhaid cynhyrchu'r adroddiad ar y cyfnod cyllidebol cyntaf cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw (fel a ddarperir yn adran 31). Ar gyfer cyfnodau cyllidebol dilynol rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd blwyddyn gyntaf y cyfnod o dan sylw. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad.

#### **Adran 40 – Cario symiau o un cyfnod cyllidebol i un arall**

168. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru "gronni" a "benthyca" allyriadau rhwng cyfnodau cyllidebol.



### **Section 34 – Net Welsh emissions**

162. This section defines Welsh emissions and Welsh removals of greenhouse gases, and provides that Welsh emissions minus Welsh removals are net Welsh emissions for a period.

### **Section 35 – Welsh emissions from international aviation and shipping**

163. This section enables the Welsh Ministers to make regulations providing for emissions of a greenhouse gas from international aviation and international shipping to count as Welsh emissions of the gas.

### **Section 36 – Carbon units**

164. This section enables the Welsh Ministers to define “carbon units” in regulations. It provides the Welsh Ministers with the power by regulations, to establish a scheme or use an existing scheme, for the registering and tracking of carbon units and for establishing and maintaining accounts in which carbon units may be held.

### **Section 37 – Greenhouse gases**

165. This section lists “greenhouse gases” for the purpose of Part 2 of the Act and enables the Welsh Ministers to make regulations to add a gas or modify a description of a gas.

### **Section 38 – The baseline**

166. This section defines the “baseline” for the purposes of this Part of the Act and enables the Welsh Ministers to make regulations to amend that baseline. This would enable the Welsh Ministers to specify the baseline year for a greenhouse gas which has been added by regulations under subsection 37(2) or modify the baseline year for a greenhouse gas that is already listed. The Welsh Ministers can only modify the baseline year for a greenhouse gas if they are satisfied that it would be appropriate to do so as a result of significant developments in EU or international law or policy relating to climate change.

### **Section 39 - Proposals and policies for meeting carbon budgets**

167. This section places a duty on the Welsh Ministers to prepare a report for each budgetary period which sets out their proposals and policies on how the budget they have set will be met. The report must include proposals and policies by reference to the areas of responsibilities of each of the Welsh Ministers. For the first budgetary period the report is to be produced as soon as reasonably practicable after setting the carbon budget for that period (as provided in section 31). For subsequent budgetary periods the report must be published before the end of the first year of the period in question. The Welsh Ministers are required to publish the report.

### **Section 40 - Carrying amounts from one budgetary period to another**

168. This section provides a power for the Welsh Ministers to “bank” and “borrow” emissions between budgetary periods.

169. O dan is-adrannau (1) a (3), caiff Gweinidogion Cymru "fenthyca" hyd at 1% o'r gyllideb nesaf. Caiff swm o'r gyllideb nesaf ei "gario yn ôl" i'r gyllideb flaenorol. Pan ddefnyddir y pŵer hwn, caiff y gyllideb nesaf (a fydd eisoes wedi ei gosod drwy orchymyn) ei gostwng yn ôl y swm a fenthycwyd.
170. O dan is-adran (4) caiff Gweinidogion Cymru gario ymlaen unrhyw ran o'r gyllideb garbon sydd uwchlaw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod hwnnw (hynny yw "cronni" y swm sydd dros ben, ond nid y swm cyfan o anghenraid). Ychwanegir y swm sydd wedi ei gronni at y gyllideb nesaf (is-adran (5)).
171. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r 'corff cynghori' cyn arfer pŵer o dan yr adran hon (hynny yw cyn cronni neu fenthyca).

#### **Adran 41 – Datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol**

172. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y ffigurau terfynol ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru yn ystod cyfnod cyllidebol; defnyddir y ffigurau hyn i benderfynu a gyrhaeddwyd cyllideb garbon.
173. Mae is-adrannau (2) i (6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwybodaeth ynghylch:
- o dan is-adran (2), gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer pob nwy tŷ gwydr (pob un o'r nwyon a gynhwysir yn y targed – gweler adran 36);
  - o dan is-adran (3), gyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau Cymru, neu a ddidynnwyd ohono, yn y cyfnod cyllidebol hwnnw, a manylion am nifer yr unedau hynny a'r mathau o unedau;
  - o dan is-adran (4), swm terfynol cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol;
  - o dan is-adran (5), a yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cronni swm sydd dros ben o'r gyllideb flaenorol neu fenthyca o'r gyllideb nesaf (gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 40) ac, os ydynt, y swm a gronnyd neu a fenthycwyd;
  - o dan is-adran (6), swm terfynol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod.
174. Mae is-adran (7) yn darparu bod rhaid i'r cwestiwn o ba un a gyrhaeddwyd y gyllideb i'w benderfynu drwy gyfeirio at y ffigurau yn y datganiad.
175. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu eglurhad ynghylch pam y maent yn ystyried bod y gyllideb garbon wedi ei chyrraedd, neu nad yw wedi ei chyrraedd.
176. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gynnwys asesiad Gweinidogion Cymru o'r graddau y mae eu cynigion a'u polisiau (gan gynnwys y rhai a nodir yn yr adroddiad o dan adran 39) wedi cyfrannu at y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw a sut y maent wedi eu gweithredu.

169. Under subsections (1) and (3), the Welsh Ministers may “borrow” up to 1% of the next budget. An amount from the next budget is “carried back” to the budget preceding it. Where this power is used, the next budget (which will already have been set by order) is reduced by the amount that has been borrowed.
170. Under subsection (4) the Welsh Ministers may carry forward any part of the carbon budget that exceeds the net Welsh emissions account for that period (i.e. to “bank” a budget surplus, but not necessarily all of it). The banked amount is added to the next budget (subsection (5)).
171. The Welsh Ministers must consult with the ‘advisory body’ before exercising powers under this section (that is, before banking or borrowing).

#### **Section 41 - Final statement for budgetary period**

172. This section places a duty on the Welsh Ministers to lay a statement before the National Assembly for Wales on the final figures for the net Welsh emissions account during a budgetary period these figures are used to determine whether a budget has been met.
173. Subsections (2) to (6) place a duty on the Welsh Ministers to provide information on:
  - under subsection (2), the total amounts of Welsh emissions, Welsh removals and net Welsh emissions for each greenhouse gas (each of the gases included in the target – see section 36);
  - under subsection (3), the total amount of carbon units that have been credited to or debited from the Welsh emissions account in that budgetary period, and details of the number and type of those units;
  - under subsection (4), the final amount of the net Welsh emissions account for the budgetary period;
  - under subsection (5), whether the Welsh Ministers have decided to bank a surplus from the previous budget or to borrow from the next budget (using the power in section 40) and, if so, the amount banked or borrowed;
  - under subsection (6), the final amount of the carbon budget for the period.
174. Subsection (7) provides that the question of whether the budget has been met is to be determined by reference to the figures in the statement.
175. Subsection (8) requires the Welsh Ministers to provide an explanation of why they consider that the carbon budget has been met or not met.
176. Subsection (9) requires that the statement must include the Welsh Ministers’ assessment of the extent that their proposals and policies (including those set out in the report under section 39) have contributed to the carbon budget for that period and how these have been carried out.

177. O dan is-adran (10) rhaid i asesiad ymdrin â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cyfateb i'r gofynion o dan adran 39(2) i gynnwys cynigion a pholisïau sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.
178. Mae is-adrannau (11) a (12) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol carbon gynnwys amcangyfrif o gyfanswm yr allyriadau, boed hwy yng Nghymru neu yn rhywle arall, sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.

#### **Adran 42 – Cynigion a pholisïau pan nad yw cyllideb garbon wedi ei chyrraedd**

179. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo datganiad terfynol wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â chyfnod cyllidebol, a bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod yn fwy na'r gyllideb garbon. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi cynigion a pholisïau i wneud iawn am yr allyriadau sy'n fwy na'r gyllideb garbon. Rhaid iddynt wneud hynny yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl gosod y datganiad terfynol ar gyfer y cyfnod cyllidebol.

#### **Adran 43 – Datganiadau ar gyfer blynyddoedd targed interim a 2050**

180. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad ar gyfer pob blwyddyn darged interim ac ar gyfer 2050.
181. Mae is-adrannau (2) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys yr wybodaeth a ganlyn yn y datganiadau ar gyfer pob un o'r blynyddoedd targed priodol:
- o dan is-adran (2), mewn perthynas â phob un o'r nwyon tŷ gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn;
  - o dan is-adran (3), gyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru ac a ddidynnwyd ohono, a manylion am nifer yr unedau a'r math o unedau;
  - o dan is-adran (4), swm cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn.
182. Mae is-adran (5) yn darparu bod y penderfyniad ynghylch a yw'r targedau interim neu darged 2050 wedi eu cyrraedd i'w wneud drwy gyfeirio at yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad ar gyfer y flwyddyn darged y mae'n ymwneud â hi.
183. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys eglurhad o'r rhesymau pam eu bod yn ystyried bod y targedau wedi eu cyrraedd, neu nad ydynt wedi eu cyrraedd.
184. Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi; er enghraifft, rhaid i'r datganiad ar gyfer 2020 gael ei osod cyn diwedd 2022 (is-adran (1)(b)).

177. Under subsection (10) an assessment must cover the areas of responsibility for each Welsh Minister, which corresponds to the requirements under section 39(2) to include proposals and policies covering the areas of responsibility of each of the Welsh Ministers.
178. Subsections (11) and (12) require that the statement for each carbon budget period to include an estimate of the total amount of emissions, whether in Wales or elsewhere, which are attributable to the consumption and use of goods and services in Wales.

#### **Section 42 - Proposals and policies where carbon budgets not met**

179. This section applies where a final statement has been laid before the National Assembly for Wales in respect of a budgetary period, and the net Welsh emissions account for the period exceeds the carbon budget. It requires the Welsh Ministers to lay a report before the National Assembly setting out proposals and policies to compensate for the excess emissions. They must do so no later than three months after laying the final statement for the budgetary period.

#### **Section 43 - Statements for interim target years and 2050**

180. This section places a duty on the Welsh Ministers to prepare and lay before the National Assembly for Wales a statement for each interim target year and for 2050.
181. Subsections (2) to (4) requires the following information to be included in the statements for each of the appropriate target years:
- under subsection (2), in respect of each greenhouse gas the total amount of Welsh emissions, Welsh removals and net Welsh emissions for the year;
  - under subsection (3), the total amount of carbon units that have been credited to and debited from the net Welsh emissions account, and details of the number and type of units;
  - under subsection (4), the amount of the net Welsh emissions account for the year.
182. Subsection (5) provides that the question of whether the interim targets or 2050 target has been met is to be determined by referring to the information provided in the statement for the target year to which it relates.
183. Subsection (6) provides that the Welsh Ministers must include an explanation of the reasons why they consider that the targets have or have not been met.
184. A statement under this section must be laid before the National Assembly for Wales before the end of the second year after the year to which it relates; for example, the statement for 2020 must be laid before the end of 2022 (subsection (1)(b)).

185. Mae is-adran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfuno datganiad o dan yr adran hon â'r datganiad ar gyfer cyfnod cyllidebol carbon (o dan adran 41) sy'n ymwneud â blwyddyn y targed perthnasol.

#### **Adran 44 – Corff cynghori**

186. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu corff newydd i arfer swyddogaethau'r corff cynghori neu i ddynodi person i fod yn gorff cynghori at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf. Dim ond person sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus y caiff Gweinidogion Cymru ei ddynodi.
187. Mae is-adran (3) yn darparu, os nad yw Gweinidogion Cymru yn sefydlu corff newydd nac yn dynodi person drwy reoliadau o dan is-adran (1), mai'r corff cynghori fydd Pwyllgor ar Newid Hinsawdd y DU (a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008).
188. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a) gynnwys darpariaethau ynghylch: statws ac aelodaeth y corff; cyflogi staff; tâl, lwfansau a phensiynau aelodau a staff; trefniadaeth a gweithdrefn y corff; ac adroddiadau a chyfrifon.
189. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff rheoliadau i sefydlu corff newydd fel y corff cynghori gynnwys darpariaeth a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r corff cynghori mewn perthynas â'r materion a restrir yn is-adran (4).

#### **Adran 45 – Adroddiadau cynnydd**

190. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y corff cynghori i gyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru yn nodi ei safbwyntiau ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r targedau interim a tharged 2050 ac ar y cyllidebau carbon. Rhaid i'r corff cynghori ddarparu safbwyntiau ynghylch a yw'r targedau a'r cyllidebau yn debygol o gael eu cyrraedd ac a yw'n ystyried bod unrhyw gamau pellach yn angenrheidiol er mwyn eu cyrraedd.
191. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod cyllidebol cyntaf (sy'n ymwneud â'r blynyddoedd 2016-20) sy'n rhoi ei safbwyntiau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y cyllidebau carbon a osodwyd o dan Ran 2, y targedau allyriadau interim a tharged allyriadau 2050.
192. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl iddynt osod datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 41. Rhaid i'r adroddiad hwn roi safbwyntiau'r corff cynghori ynghylch y modd y cyrhaeddwyd neu nas cyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod, y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i leihau cyfrif allyriadau net Cymru ac hefyd y materion a nodir yn is-adran (1) (h.y. y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y cyllidebau a'r targedau sy'n weddill).



185. Subsection (7) enables the Welsh Ministers to combine a statement under this section with the statement for a carbon budgetary period (under section 41) that covers the year of the relevant target.

#### **Section 44 - Advisory body**

186. This section enables the Welsh Ministers, by regulations, to establish a new body to exercise functions of the advisory body or to designate a person to be the advisory body for the purposes of Part 2 of the Act. The Welsh Ministers may only designate a person that exercises functions of a public nature.
187. Subsection (3) provides that if the Welsh Ministers do not establish a new body or designate a person by regulations under subsection (1), the advisory body will be the UK Committee on Climate Change (established under section 32 of the Climate Change Act 2008).
188. Subsection (4) provides that regulations under subsection (1)(a) may include provisions about: the status and membership of the body; employment of staff, remuneration, allowances and pensions for members and staff; the organisation and procedure of the body; and reports and accounts.
189. Subsection (5) provides that regulations to establish a new body as the advisory body may include a provision which would enable the Welsh Ministers to give directions to the advisory body in relation to the matters listed in subsection (4).

#### **Section 45 - Progress reports**

190. This section places a duty on the advisory body to submit reports to the Welsh Ministers setting out its view on progress that has been made in relation to the interim and 2050 targets and on the carbon budgets. The advisory body must provide views on whether the targets and budgets are likely to be achieved and views on any further action considered necessary to achieve them.
191. Subsection (1) requires the advisory body to submit a report to the Welsh Ministers before the end of the first budgetary period (which covers the years 2016-20) providing its views on progress towards meeting the carbon budgets that have been set under Part 2, the interim emissions targets and the 2050 emission target.
192. Subsection (2) requires the advisory body to send a report to the Welsh Ministers no later than six months after they have laid a final statement for a budgetary period before the National Assembly for Wales under section 41. This report must provide the advisory body's views on the way in which the carbon budget for the period has been met or not, actions taken by the Welsh Ministers to reduce the net Welsh emission account and also the matters that are set out in subsection (1) (i.e. progress towards meeting the remaining budgets and targets).

193. Mae is-adrannau (3) a (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n cynnwys ei safbwyntiau ynghylch a yw'r targed interim nesaf (os yw hynny'n berthnasol) a tharged 2050 y targed uchaf y gellir ei gyflawni ac, os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni. Rhaid i'r adroddiad gael ei anfon at Weinidogion Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl iddynt osod y datganiadau ar gyfer y blynyddoedd targed interim gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 43.
194. Mae is-adran (5) yn darparu y caniateir cyfuno adroddiad o dan is-adran (3) neu (4) ag adroddiad o dan is-adran (2) ar gyllideb garbon.
195. Mae is-adran (6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod copi o bob un o'r adroddiadau a dderbynnir ganddynt o dan is-adrannau (1) a (2) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
196. Mae is-adran (7) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod ymateb i unrhyw adroddiad a dderbynnir ganddynt gan y corff cynghori o dan yr adran hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl derbyn yr adroddiad.

#### **Adran 46 – Dyletswydd ar y corff cynghori i ddarparu cyngor a chymorth**

197. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y corff cynghori i ymateb i geisiadau am gyngor, dadansoddiad, gwybodaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Gweinidogion o dan y Ddeddf neu â newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol.

#### **Adran 47 – Canllawiau i'r corff cynghori**

198. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r corff cynghori roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r corff cynghori ynghylch cynnwys unrhyw gyngor neu adroddiad.

#### **Adran 48 – Rheoliadau: gweithdrefn**

199. Mae'r adran hon yn sefydlu'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Cynulliad wrth wneud rheoliadau o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Pan fo'r rheoliadau yn dynodi person i fod yn gorff cynghori (adran 44(1)(b)) ac nad ydynt yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, neu pan fo rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch arferion rhyngwladol adrodd ar garbon (adran 52), maent yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Cynulliad. Mae'r holl reoliadau eraill yn Rhan 2 yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad.

#### **Adran 49 – Gofyniad i gael cyngor ynghylch cynigion i wneud rheoliadau**

200. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn i unrhyw reoliadau cadarnhaol drafft gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 48, ofyn am gyngor gan y corff cynghori (gweler adran 44) ynghylch y cynnig i wneud y rheoliadau, ac ystyried y cyngor hwnnw hefyd.

193. Subsections (3) and (4) require the advisory body to send a report to the Welsh Ministers containing its views on whether the next interim target (where relevant) and the 2050 target is the highest target that is achievable and, if not, what is the highest achievable target. The report must be sent to the Welsh Ministers no later than six months after they have laid the statements for the interim target years before the National Assembly for Wales under section 43.
194. Subsection (5) provides that a report under subsection (3) or (4) can be combined with a report under subsection (2) on a carbon budget.
195. Subsection (6) places a duty on the Welsh Ministers to lay a copy of each of the reports they receive under subsections (1) and (2) before the National Assembly for Wales.
196. Subsection (7) places a duty on the Welsh Ministers to lay a response to any report they receive under this section from the advisory body before the National Assembly for Wales no later than six months after receiving the report.

#### **Section 46 - Duty of advisory body to provide advice and assistance**

197. This section places a duty on the advisory body to respond to requests for advice, analysis, information and assistance by the Welsh Ministers in connection with Ministers' functions under the Act or in relation to climate change in general.

#### **Section 47 - Guidance to advisory body**

198. This section provides that the advisory body must have regard to any guidance given by the Welsh Ministers in respect of carrying out its functions under the Act. Subsection (2) provides that the Welsh Ministers may not give the advisory body guidance on the content of any advice or report.

#### **Section 48 - Regulations: procedure**

199. This section establishes the Assembly procedure to be followed when making regulations under Part 2 of the Act. Where the regulations designate a person to be the advisory body (section 44(1)(b)) and do not amend primary legislation, or where regulations make provision about international carbon reporting (section 52), they are subject to the Assembly's negative procedure. All other regulations in Part 2 are subject to the Assembly's affirmative procedure.

#### **Section 49 - Requirement to obtain advice about proposals to make regulations**

200. This section provides that before any draft affirmative regulations are laid before the National Assembly for Wales under section 48, the Welsh Ministers must request advice from the advisory body (see section 44) about the proposal to make the regulations and also take that advice into account.

201. Mae is-adrannau (2) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan y corff cynghori, iddynt bennu cyfnod rhesymol ar gyfer darparu'r cyngor. Rhaid i'r corff cynghori ddarparu'r cyngor o fewn y cyfnod hwnnw a nodi'r rhesymau dros y cyngor.
202. Mae is-adran (5) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyngor a gânt gan y corff cynghori cyn cynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.
203. Mae is-adran (6) yn darparu, os yw'r rheoliadau cadarnhaol drafft a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 48(3) yn wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan y corff cynghori, bod rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn egluro paham y mae'r rheoliadau'n wahanol.
204. Mae is-adran (7) yn darparu nad oes angen i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y corff cynghori cyn gosod rheoliadau drafft sydd naill ai'n sefydlu corff newydd fel y corff cynghori neu'n dynodi person i fod yn gorff cynghori.

#### **Adran 50 - Cyngor ynghylch rheoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â thargedau a chyllidebau**

205. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae'n rhaid i'r corff cynghori ymateb i geisiadau o dan adran 49 am gyngor ar reoliadau arfaethedig.
206. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol, mewn perthynas â rheoliadau arfaethedig sy'n newid targed allyriadau 2050 neu'n gosod neu'n newid targedau allyriadau interim, fod rhaid i gyngor y corff cynghori gynnwys ei farn ynghylch a yw'r targed a gynigir gan Weinidogion Cymru y targed uchaf y gellir ei gyflawni, ac os nad ydyw, beth, ym marn y corff, yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.
207. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol, mewn perthynas â rheoliadau arfaethedig sy'n gosod neu'n newid cyllidebau carbon, i'r corff cynghori gynghori ar y lefelau y dylid eu pennu ar gyfer cyllidebau carbon ac i ba raddau y dylid cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy ostwng swm allyriadau net Cymru neu drwy ddefnyddio unedau carbon a gredydir i gyfrif allyriadau net Cymru. Rhaid i'r corff cynghori gynghori ar y cyfraniad at gyrraedd cyllidebau carbon y dylai sectorau o economi Cymru y mae cynlluniau masnachu yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd) ei wneud, ac yn yr un modd sectorau eraill nad yw cynlluniau o'r fath yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd). Mae'n ofynnol hefyd i'r corff cynghori gynghori ar sectorau o economi Cymru sy'n cynnig cyfleoedd penodol i wneud cyfraniad at gyrraedd cyllidebau carbon drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

201. Subsections (2) to (4) require that when the Welsh Ministers request advice from the advisory body, they must specify a reasonable time period in which to provide the advice. The advisory body must provide the advice within that time period and must set out the reasons for the advice.
202. Subsection (5) places a duty on the Welsh Ministers to publish any advice they receive from the advisory body as soon as reasonably practicable after they have received it.
203. Subsection (6) provides that if the draft affirmative regulations laid before the National Assembly under section 48(3) are different from what was recommended by the advisory body, the Welsh Ministers must lay before the National Assembly a statement explaining the reasons why the regulations are different.
204. Subsection (7) provides that the Welsh Ministers do not need to seek the advice of the advisory body before laying draft regulations which either establish a new body as the advisory body or designate a person as the advisory body.

**Section 50 –Advice about proposed regulations relating to targets and budgets**

205. This section makes provision about how the advisory body must respond to requests under section 49 for advice on proposed regulations.
206. Subsection (1) requires that in relation to proposed regulations changing the 2050 emissions target or setting or changing interim emissions targets, the advisory body's advice must include its opinion on whether the Welsh Minister's proposed target is the highest achievable target and if not, what the body considers is the highest achievable target.
207. Subsection (2) requires that in relation to proposed regulations setting or changing carbon budgets, the advisory body must advise on the levels at which carbon budgets should be set and on the extent to which budgets should be met by reducing the amount of net Welsh emissions or by the use of carbon units credited to the net Wales emissions account. The advisory body must advise on the respective contributions towards meeting carbon budgets that should be made by sectors of the Welsh economy covered by trading schemes (taken as a whole) and by other sectors not covered (taken as a whole). The advisory body is also required to advise on sectors of the Welsh economy in which there are particular opportunities for contributions to be made towards meeting carbon budgets through reductions in emissions of greenhouse gases.



208. Mae i 'cynllun masnachu' at ddibenion yr adran hon yr ystyr a roddir gan adran 44 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae adran 44 o'r Ddeddf honno yn diffinio cynlluniau masnachu fel cynlluniau sydd naill ai:
- yn cyfyngu ar weithgareddau sy'n allyrru nwyon tŷ gwydr neu sy'n arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar allyriadau o'r fath (cynlluniau "capió a masnachu", er enghraifft, sy'n capio allyriadau o fath penodol o weithgareddau ac yn caniatáu masnachu allyriadau o fewn y cap), neu
  - yn annog gweithgareddau sy'n lleihau, neu sy'n arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at leihau, allyriadau nwyon tŷ gwydr neu sy'n echdynnu nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer.
209. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori, wrth gynghori Gweinidogion Cymru ar wneud rheoliadau a fydd yn newid targed allyriadau 2050 neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, roi sylw i'r materion a restrir yn adran 32(3) o'r Ddeddf.

### **Adran 51 – Mesur allyriadau**

210. Mae adran 51 yn darparu bod allyriadau, gostyngiadau mewn allyriadau ac echdyniadau i'w mesur mewn symiau cyfwerth â thunelli o garbon deuocsid, ac yn diffinio'r term hwnnw.

### **Adran 52 – Arferion rhyngwladol ar adrodd ar garbon**

211. Mae adran 52 yn diffinio arferion rhyngwladol adrodd ar garbon yn nhermau protocolau Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, neu drefniadau neu gytundebau Ewropeaidd neu ryngwladol eraill a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r diffiniad gael ei ddiweddarau er mwyn ystyried trefniadau a chytundebau rhyngwladol newydd.

### **Rhan 3 – Codi Taliadau am Fagiau Siopa**

212. Mae'r Rhan hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch codi taliadau am fagiau siopa.
213. Mae'n diddymu, mewn perthynas â Chymru, adran 77 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27), ac Atodlen 6 iddi, a oedd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch codi taliadau am fagiau siopa a fwriedir i'w defnyddio unwaith yn unig. Diwygiwyd y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd gan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8), a oedd yn rhoi pwerau pellach i wneud rheoliadau ynghylch sut y mae'n rhaid cymhwyso'r enillion net o werthu bagiau siopa. Ni chafodd y pwerau hyn eu harfer bryd hynny gan mai'r polisi a oedd yn cael ei ffafrio oedd sicrhau cydweithrediad y gwerthwyr drwy eu hannog i gymhwyso'r enillion net at achosion da drwy gytundeb gwirfoddol.
214. Y rheoliadau a wnaed o dan y darpariaethau hyn sydd mewn grym ar yr adeg y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2011 ("Rheoliadau 2010").



208. A 'trading scheme' for the purposes of this section is the meaning given by section 44 of the Climate Change Act 2008. Section 44 of that Act defines trading schemes as schemes which either:
- limit activities that consist of the emission of greenhouse gases or that directly or indirectly lead to such emissions (for example, "cap and trade schemes" which cap emissions from a particular set of activities and allow trading of emissions within the cap), or
  - encourage activities that consist of, or that directly or indirectly lead to, reductions in emissions of greenhouse gases or the removal of greenhouse gases from the atmosphere.
209. Subsection (3) requires the advisory body when advising the Welsh Ministers on making regulations that will change the 2050 emissions target or set or change an interim emissions target or a carbon budget to have regard to the matters listed in section 32(3) of the Act.

### **Section 51 – Measurement of emissions**

210. Section 51 provides that emissions, emissions reductions and removals are to be measured in tonnes of carbon dioxide equivalent, and defines that term.

### **Section 52 – International carbon reporting practice**

211. Section 52 defines international carbon reporting practice in terms of the protocols to the United Nations Framework Convention on Climate Change, or other European or international arrangements or agreements which the Welsh Ministers specify by regulations. This power allows the definition to be updated to take account of new international arrangements and agreements.

### **Part 3 – Charges for Carrier Bags**

212. This Part gives the Welsh Ministers powers to make regulations about charges for carrier bags.
213. It repeals in relation to Wales section 77 of, and Schedule 6 to, the Climate Change Act 2008 (c.27) which conferred powers on the Welsh Ministers to make regulations about charges for carrier bags intended for single use. The Climate Change Act was amended by the Waste (Wales) Measure 2010 (nawm 8) which conferred further powers to make regulations about how the net proceeds from the sale of carrier bags must be applied. These powers were not exercised at that time as the preferred policy was to enlist the co-operation of the sellers by encouraging them to apply the net proceeds to good causes through a voluntary agreement.
214. The regulations made under these provisions that are in force at the time this Act receives Royal Assent are the Single Use Carrier Bags Charge (Wales) Regulations 2010 (as amended by the Single Use Carrier Bags Charge (Wales) (Amendment) Regulations 2011) ("the 2010 Regulations").

215. Yn gyffredinol, mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn rhoi'r un pwerau i wneud rheoliadau â Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Dyma'r prif newidiadau:
- mae'r diffiniadau o'r termau allweddol "bag siopa" a "gwerthwr nwyddau" yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na chael eu gadael i'w nodi mewn rheoliadau;
  - mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod isafswm tâl;
  - caniateir cymhwyso'r tâl i unrhyw fath o fag siopa a bennir yn y rheoliadau ac nid yn unig ar gyfer y rhai hynny a fwriedir i'w defnyddio unwaith;
  - bydd yn ofynnol i werthwyr gymhwyso'r enillion net o werthu bagiau siopa at ddibenion elusennol sy'n ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd ac sydd o fudd i Gymru; ceir eithriad ar gyfer y gwerthwyr hynny sy'n dymuno parhau â'u trefniadau presennol ag achosion da nad ydynt yn rhai amgylcheddol;
  - mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ym mhob achos.

#### **Adran 54 - Ystyr "bag siopa"**

216. Mae adran 54 yn diffinio "bagiau siopa" fel y bagiau hynny y gellir eu darparu yn y man y gwerthir y nwyddau, neu'r rheini a ddarperir at ddiben danfon nwyddau. Yn gyffredinol y bagiau siopau y byddai isafswm tâl yn gymwys iddynt fyddai'r rheini a ddarperir gan fanwerthwyr i'w cwsmeriaid pan fônt yn prynu nwyddau mewn siop, neu'r rheini a ddarperir gan gwmnïau sy'n danfon nwyddau, megis archfarchnadoedd sy'n darparu gwasanaeth danfon bwydydd ar-lein.

#### **Adran 55 - Gofyniad i godi tâl**

217. Mae adran 55(1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau bagiau siopa. Rheoliadau yw'r rhain sy'n ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau godi tâl am fagiau siopa, fel a bennir yn y rheoliadau, a gyflenwir o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (3). Yr amgylchiadau hynny yw bod y nwyddau naill ai'n cael eu gwerthu o le yng Nghymru, neu y bwriedir iddynt gael eu danfon i berson sy'n byw yng Nghymru.
218. Mae is-adran (4) yn darparu y gellir disgrifio bagiau siopa y mae'r gofyniad yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at eu manylion technegol megis maint, trwch, gwneuthuriad a phris y bag a/neu'r defnydd y bwriedir ei wneud ohono, neu gyfuniad o unrhyw rai o blith y ffactorau hynny. Ni chafodd y pris ei nodi fel ffactor yn Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

215. Provisions in this Part generally confer the same regulation-making powers as the Climate Change Act 2008. The main changes are that:
- definitions of the key terms “carrier bag” and “seller of goods” are set out in the primary legislation rather than being left to regulations;
  - the Welsh Ministers are under a duty to make regulations which impose a minimum charge;
  - the charge may apply to any type of carrier bag specified in the regulations and not just to those intended for single use;
  - sellers must be required to apply the net proceeds of sales of carrier bags to charitable purposes relating to environmental protection and improvement and which benefit Wales; an exception is provided for those sellers who wish to maintain their existing arrangements with non-environmental good causes;
  - the regulations are in all cases subject to affirmative procedure.

#### **Section 54 – Meaning of “carrier bag”**

216. Section 54 defines “carrier bags” as those bags which may be supplied either at the place where the goods are sold, or those supplied for the purpose of delivering goods. Generally carrier bags to which a minimum charge may apply would be those which are supplied by retailers to their customers when they buy goods in store or those supplied by companies who are delivering goods such as a supermarket providing an online grocery delivery service.

#### **Section 55 – Requirement to charge**

217. Section 55(1) provides that the Welsh Ministers must make carrier bag regulations. Carrier bag regulations are regulations which require sellers of goods to charge for carrier bags as specified in the regulations that are supplied in circumstances mentioned in subsection (3). These circumstances are either where the goods are sold from a place in Wales, or where they are intended to be delivered to a person living in Wales.
218. Subsection (4) provides that the carrier bags to which the requirement applies may be described by reference to their technical specifications such as a bag’s size, thickness, composition, price and/or its intended use or a combination of any of these factors. Price was not specified as a factor in Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

### **Adran 56 - Gwerthwyr nwyddau**

219. Mae adran 56 yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa fod yn gymwys naill ai i bob gwerthwr nwyddau neu i fathau penodol o werthwr (gweler is-adran (3)). Mae'n caniatáu i'r rheoliadau gymhwyso darpariaethau i werthwyr a enwir ac i werthwyr a ddynodir drwy gyfeirio at ffactorau penodedig (a rhoddir enghreifftiau o'r ffactorau y caniateir eu pennu yn is-adran (4)).
220. Mae is-adran (1) yn diffinio "gwerthwyr nwyddau", at ddiben y rheoliadau, fel person sy'n gwerthu nwyddau yng nghwrs busnes. Gall gwerthwr gynnwys, er enghraifft, fanwerthwyr y stryd fawr, archfarchnadoedd, masnachwyr stryd neu farchnad neu unrhyw berson sy'n rhedeg busnes sy'n gwerthu nwyddau ar y rhyngwyd. Nid yw'r term yn cynnwys unrhyw bersonau sy'n gwerthu eu nwyddau eu hunain yn breifat yn achlysuero, mewn sêl cist car neu ar safle gwerthu neu ocsiwn ar y rhyngwyd er enghraifft, ac ni chaniateir i'r rheoliadau fod yn gymwys iddynt.
221. Mae is-adran (2) yn egluro nad yw'n angenrheidiol bod y busnes a weithredir gan werthwr nwyddau yn fenter fasnachol er mwyn gwneud elw (felly gallai gwerthwr nwyddau fod yn elusen) a bod corff sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yn gweithredu yng nghwrs busnes.

### **Adran 57 - Cymhwyso'r enillion**

222. O dan adran 57(1), rhaid i reoliadau bagiau siopa ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gymhwyso'r enillion net o'r tâl at ddibenion elusennol sy'n ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd ac sydd o fudd i Gymru. Mae hyn yn ddarostyngedig i is-adran (2), sy'n darparu bod rhaid i reoliadau gynnwys eithriad ar gyfer gwerthwyr sydd â threfniadau presennol i gymhwyso'r arian a enillir ganddynt drwy werthu bagiau siopa at ddibenion elusennol eraill.
223. Diffinnir "enillion net o'r tâl" yn adran 63, sef yr enillion gros ar ôl tynnu unrhyw swm y caiff y rheoliadau eu pennu megis, er enghraifft, costau gweinyddol. Ystyr "enillion gros o'r tâl" yw'r swm y mae'r gwerthwr yn ei dderbyn o ganlyniad i'r isafswm tâl. Nid yw'n cynnwys arian sy'n dod i law sydd uwchlaw'r isafswm tâl; pe bai'r gwerthwr yn codi 8c am fag a 5c fyddai'r isafswm tâl yna'r enillion net o'r tâl fyddai 5c.
224. Rhaid i'r enillion net gael eu cymhwyso at "dibenion elusennol", a diffinnir yn is-adran (8) bod i "ddiben elusennol" yr ystyr a roddir i "charitable purpose" yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 (p.25). Disgrifir y dibenion hynny yn adran 3 o'r Ddeddf honno ac maent yn cynnwys hybu'r gwaith o ddiogelu neu wella'r amgylchedd.
225. O dan is-adran (8) caiff rheoliadau addasu'r diffiniad o "diben elusennol" pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus gwneud hynny er mwyn sicrhau bod yr enillion net o'r tâl yn cael eu defnyddio'n briodol. Gallai'r pŵer hwn gael ei arfer, er enghraifft, pe bai'r diffiniad yn adran 2 o'r Ddeddf Elusennau wedi ei ddiwygio ac nad ystyrir bod y diffiniad newydd yn briodol bellach at ddiben y rheoliadau.

### **Section 56 – Sellers of goods**

219. Section 56 provides for the carrier bag regulations to apply to either all sellers of goods or to certain types of seller (see subsection (3)). It allows the regulations to apply provisions to both named sellers and to sellers identified by reference to specified factors (and examples of the factors that may be specified are given in subsection (4)).
220. Subsection (1) defines a “seller of goods” for the purpose of the regulations as a person who sells goods in the course of a business. Sellers may, for example, include high street retailers, supermarkets, street or market traders or any person running an internet business selling goods. The term does not include, and the regulations may not apply to, any person who occasionally sells their own possessions privately, for example, at a car boot sale or on an internet sale or auction site.
221. Subsection (2) makes clear that the business carried on by a seller of goods need not be a commercial enterprise undertaken for profit (so that a seller of goods could be a charity) and that a body exercising public functions will be acting in the course of a business.

### **Section 57 – Application of proceeds**

222. Under section 57(1), carrier bag regulations must require sellers to apply the net proceeds of the charge to charitable purposes which relate to environmental protection or improvement and which benefit Wales. This is subject to subsection (2) which provides that regulations must include an exception for sellers who have existing arrangements where they apply money earned by selling carrier bags to other charitable purposes.
223. “Net proceeds of the charge” is defined in section 63 to mean the gross proceeds of charge less any amount that the regulations may specify such as, for example, administration costs. The “gross proceeds of the charge” means the amount that the seller receives as a result of the minimum charge. It does not include money received which is over and above the minimum charge so if the seller charges 8p for a bag and the minimum charge is 5p the gross proceeds of the charge will be 5p.
224. The net proceeds must be applied to “charitable purposes”, which are defined in subsection (8) as having the same meaning as in section 2 of the Charities Act 2011 (c.25). The purposes are described in section 3 of that Act and include the advancement of environmental protection or improvement.
225. Under subsection (8) regulations may modify the definition of “charitable purpose” where the Welsh Ministers consider it necessary or expedient for securing an appropriate application of the net proceeds of the charge. This power might be exercised, for example, where the definition in section 2 of the Charities Act has been amended and the new definition is considered no longer appropriate for the purpose of the regulations.

226. Pan fo gan werthwyr drefniadau presennol cyn i'r rheoliadau ddod i rym a'u bod yn rhoi arian y maent yn ei gael am fagiau siopa yn wirfoddol at ddibenion elusennol nad ydynt yn dod o fewn is-adran (1), mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau gynnwys eithriad sy'n eu galluogi i roi'r enillion net o'r tâl at y dibenion hynny. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau o dan is-adrannau (2) a (3).
227. O dan is-adran (2)(a), rhaid i'r rheoliadau bennu o fewn pa gyfnod y mae'n ofynnol bod y gwerthwr wedi rhoi taliadau at ddibenion elusennol eraill. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ddarparu nad yw'r eithriad yn gymwys onid yw'r gwerthwr wedi gwneud taliad yn ystod y flwyddyn cyn i'r rheoliadau ddod i rym.
228. O dan is-adran (2)(b), rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i werthwyr roi hysbysiad eu bod yn dymuno parhau â'r trefniadau hyn er mwyn dibynnu ar yr eithriad. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff rheoliadau gynnwys manylion ynghylch sut y cymhwysir yr eithriad, fel sut y mae'n rhaid rhoi hysbysiad, yr wybodaeth sydd i'w chynnwys ynddo, ac unrhyw amodau.
229. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau o dan is-adran (1) roi disgrisiwn i'r gwerthwr i ddewis y diben elusennol, neu bennu un diben elusennol neu ragor (ond rhaid iddo fod yn ddiben elusennol sy'n dod o fewn is-adran (1)).
230. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer cymhwyso'r enillion net a'r person a gaiff dderbyn yr enillion hynny ar ran yr elusen. O dan is-adran (6), caiff y rheoliadau roi'r pwerau i Weinidogion Cymru orfodi'r rheoliadau os yw'r gwerthwr yn methu â chymhwyso'r enillion net yn ôl y gofyn.

### **Adran 58 - Gweinyddu**

231. Mae adran 58 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy a gaiff fod yn gyfrifol am weinyddu'r drefn o godi tâl am fagiau siopa. Mae'r adran hon yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa benodi unrhyw berson i fod yn weinyddwr ac y caiff roi pwerau i'r person hwnnw, a gosod dyletswyddau arno, at ddiben gweinyddu'r drefn. O dan Reoliadau 2010, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yw'r gweinyddwyr ar gyfer eu hardaloedd.
232. Er mwyn rhoi pwerau i'r gweinyddwr, a gosod dyletswyddau arno, o dan is-adran (3), mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau ddiwygio deddfiadau sy'n gymwys i'r gweinyddwr (megis deddfiadau ynghylch pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol). Diffinnir "deddfiad" yn adran 87. Caniateir rhoi swyddogaethau gorfodi i'r gweinyddwr o dan adran 60.



226. Where sellers have existing arrangements before the regulations come into force and are voluntarily donating money they receive for carrier bags to charitable purposes that do not fall within subsection (1), subsection (2) provides that the regulations must include an exception enabling them to donate the net proceeds of the charge to those purposes. This is subject to provision made by the regulations under subsections (2) and (3).
227. Under subsection (2)(a), the regulations must specify a period during which the seller must have made payments to other charitable purposes. For example, the regulations might provide that the exception only applies if a seller has made a payment during the year before the regulations come into force.
228. Under subsection (2)(b), the regulations must require sellers to give notice that they wish to continue with these arrangements in order to rely on the exception. Subsection (3) provides that regulations may include details about how the exception applies such as how notice must be given, the information contained in it and any conditions.
229. Subsection (4) provides that regulations under subsection (1) may give the seller discretion to choose the charitable purpose or may specify one or more charitable purpose (but it must still be a charitable purpose falling within subsection (1))
230. Subsections (5) provides for the regulations to make provision about the arrangements for applying the net proceeds and the persons who may accept those proceeds on behalf of the charity. Under subsection (6), the regulations may give the Welsh Ministers powers to enforce the regulations if the seller fails to apply the net proceeds as required.

### **Section 58 - Administration**

231. Section 58 makes provision about who may be responsible for administering the carrier bag charging regime. This section provides that the carrier bag regulations may appoint any person to be an administrator and may confer powers and duties on that person for the purpose of administering the regime. Under the 2010 Regulations, county and county borough councils are the administrators for their area.
232. In order to confer powers and duties on the administrator under subsection (3), subsection (4) provides that the regulations may modify enactments that apply to the administrator (such as enactments about the powers and duties of local authorities). "Enactment" is defined in section 87. The administrator may be given enforcement functions under section 60.

### **Adran 59 – Cadw a chyhoeddi cofnodion**

233. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y cofnodion y mae'n rhaid eu cadw a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu mewn perthynas â'r drefn o godi tâl am fagiau siopa. Caniateir i'r adran hon fod yn gymwys i unrhyw berson ond mae'r rheoliadau'n fwyaf tebygol o osod dyletswyddau ar y gwerthwyr ac unrhyw berson sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl at ddibenion elusennol.
234. Ar hyn o bryd mae rheoliad 8(3) o Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gadw gwybodaeth am nifer y bagiau siopau untro a gyflenwyd, y swm a gafwyd ar ffurf y tâl ac at ba ddibenion y defnyddiwyd yr enillion net o'r tâl.
235. Mae is-adran (2)(b) yn darparu y caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am daliadau bagiau siopa gael ei chyhoeddi neu ei darparu i unrhyw un neu ragor o'r personau a nodir ym mharagraffau (i) i (iii). Y personau hynny yw Gweinidogion Cymru, unrhyw weinyddwr a benodir o dan adran 58 neu aelodau o'r cyhoedd.
236. Mae is-adran (3) yn darparu enghreifftiau o gofnodion neu wybodaeth a gaiff fod yn ofynnol o dan y rheoliadau. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i werthwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch faint o fagiau y maent wedi eu gwerthu o fewn cyfnod penodol a swm y taliadau a ddaeth i law. Gallent hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwyr roi dadansoddiad o sut y maent wedi cyfrifo'r enillion net o'r tâl fel y'i diffinnir yn adran 63 a sut y defnyddiwyd yr enillion hynny.
237. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl bagiau siopa gan werthwr nwyddau gyhoeddi neu ddarparu cofnodion neu wybodaeth am yr arian y maent wedi ei dderbyn.

### **Adran 60 - Gorfodi**

238. Mae adran 60 yn galluogi rheoliadau bagiau siopa i wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r drefn bagiau siopa i gael ei gorfodi. Caiff y rheoliadau roi swyddogaethau amrywiol i weinyddwyr a benodir o dan adran 58. Caiff y rheoliadau roi'r pŵer i'r gweinyddwr ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwr ddarparu gwybodaeth a dogfennau a holi'r gwerthwyr neu eu cyflogeion, ond dim ond os yw'r gweinyddwr yn credu'n rhesymol bod methiant wedi bod i gydymffurfio â'r rheoliadau.

### **Adran 61 – Sancsiynau sifil**

239. Mae adran 61 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y sancsiynau sifil y gellir eu gosod ar unrhyw berson nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau bagiau siopa.

### **Section 59 – Record-keeping and publication of records**

233. This section makes provision about records that must be kept and information that must be provided in relation to the carrier bag charging regime. This section may apply to any person but the regulations are most likely to impose duties on the sellers and any person who receives any net proceeds of charge for charitable purposes.
234. Currently regulation 8(3) of the Single Use Carrier Bags (Wales) Regulations 2010 requires sellers to keep information on the number of single use carrier bags supplied, the amount received by way of the charge and the uses to which the net proceeds have been put.
235. Subsection (2)(b) provides that the regulations may require information about carrier bag charges to be published or supplied to any of the persons identified in paragraphs (i) to (iii). These are Welsh Ministers, any administrator appointed under section 58 or members of the public.
236. Subsection (3) provides examples of records or information that may be required under the regulations. Regulations could, for example, require sellers to provide information about how many bags they have sold in any given period and the amount they have received in charges. They might also require the sellers to give a breakdown of how they have calculated the net proceeds of the charge as defined in section 63 and how those proceeds have been used.
237. Subsection (4) provides that the regulations may require any person who receives any net proceeds of the carrier bag charge from a seller of goods to publish or supply records or information about the money they have received.

### **Section 60 – Enforcement**

238. Section 60 enables carrier bag regulations to make provision about how the carrier bag regime is to be enforced. The regulations may confer various functions on administrators appointed under section 58. The regulations may give the administrator the power to require the seller to provide information and documentation and to question the sellers or their employees, but only if the administrator reasonably believes that there has been a failure to comply with the regulations.

### **Section 61 – Civil sanctions**

239. Section 61 introduces Schedule 2 which makes provision about civil sanctions that may be imposed on any person who does not comply with the carrier bag regulations.

#### **Adran 62 – Rheoliadau o dan y Rhan hon**

240. Mae adran 62 yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau bagiau siopa gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac na chaniateir eu gwneud hyd nes y bydd drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.
241. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaethau yn y rheoliadau bagiau siopa sy'n ymwneud ag unrhyw faterion cysylltiedig, ac i gymhwyso'r rheoliadau mewn gwahanol ffyrdd, drwy gymhwyso isafswm tâl gwahanol i wahanol fathau o fagiau er enghraifft.

#### **Adran 64 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

242. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n gwneud mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

#### **Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff**

243. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn ymwneud â chasglu a gwaredu gwastraff, ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer ei gwneud yn ofynnol gwahanu gwastraff yn y tarddle a'i gasglu ar wahân, gwahardd llosgi gwastraff a gwahardd gwaredu gwastraff bwyd o fangreoedd annomestig i garthffosydd. Diben y darpariaethau yw hybu rhagor o wahanu ar wahanol fathau o wastraff, a gwahardd dulliau penodol o waredu mathau adferadwy o wastraff.

#### **Adran 65 – Gofynion sy'n ymwneud â chasglu ar wahân etc. wastraff**

244. Mae adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru drefnu i gasglu gwastraff aelwydydd sy'n cael ei gynhyrchu yn eu hardaloedd, yn ogystal â gwastraff masnachol, pan wneir cais am hynny. Mae'r awdurdod lleol naill ai'n cyflawni'r swyddogaeth hon gan ddefnyddio'i adnoddau ei hun, neu'n trefnu bod contractwr preifat yn cyflawni'r swyddogaeth ar ei ran. Caiff gwastraff masnachol a diwydiannol nad yw'n dod o fewn dyletswyddau'r awdurdod lleol yn adran 45 ei gasglu gan gontractwyr preifat drwy gontract unigol â'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff. Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at wastraff aelwydydd, masnachol a diwydiannol, gyda'i gilydd, fel "gwastraff a reolir"<sup>2</sup>.
245. Yn ychwanegol at ofynion adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhaid i gasglwyr gwastraff gydymffurfio â gofynion rheoliadau 13 a 14 o Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 [O.S. 2011/988], sy'n trosi'n rhannol Gyfarwyddeb yr UE 2008/98/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff). Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gasglwyr gwastraff, o 1 Ionawr 2015 ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau penodol, gasglu papur, metel, plastig a gwydr ar wahân, o leiaf, a chadw'r deunyddiau hynny ar wahân ar ôl eu casglu.

---

<sup>2</sup> *Diffinnir y termau gwastraff aelwydydd, masnachol a diwydiannol a gwastraff a reolir ("household, commercial, industrial and controlled") yn adran 75 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.*

### **Section 62 – Regulations under this Part**

240. Section 62 provides that the carrier bag regulations must be made by statutory instrument and cannot be made until a draft has been laid before and approved by resolution of the National Assembly for Wales. .
241. This section also gives the Welsh Ministers power to include provisions in the carrier bag regulations dealing with any ancillary matters, and to apply the regulations in different ways for example, by applying different minimum charges to different types of bag.

### **Section 64 – Minor and consequential amendments and repeals**

242. This section introduces Part 2 of Schedule 2 to the Act, which makes minor and consequential amendments and repeals in the Climate Change Act 2008 and the Waste (Wales) Measure 2010.

### **Part 4 – Collection and Disposal of Waste**

243. Part 4 of the Act is concerned with the collection and disposal of waste, and makes provision for requiring source segregation and separate collection of waste, banning the incineration of waste and banning the disposal of food waste to sewer from non-domestic premises. The purpose of the provisions is to promote increased separation of different types of waste, and prohibit certain forms of disposal of recoverable types of waste.

### **Section 65 - Requirements relating to separate collection etc. of waste**

244. Section 45 of the Environmental Protection Act 1990 (c 43) requires local authorities in Wales to arrange to collect household waste and, on request, commercial waste produced in their area. The local authority either fulfils this function using its own resources, or arranges with a private contractor to carry out the function on its behalf. Commercial and industrial waste not falling within the local authority duties in section 45 is collected by private contractors by way of individual contract with the waste producer. Collectively, household, commercial and industrial waste is referred to in that Act, as “controlled waste”<sup>2</sup>.
245. In addition to the requirements of section 45 of the Environmental Protection Act 1990, waste collectors must comply with the requirements of regulations 13 and 14 of the Waste (England and Wales) Regulations 2011 [S.I. 2011/988], which transpose in part, EU Directive 2008/98/EC (the Waste Framework Directive). The regulations require that from 1 January 2015, subject to certain provisions, waste collectors must separately collect at least paper, metal, plastic and glass, and keep those materials separate after collection.

---

<sup>2</sup> “The terms “household, commercial, industrial and controlled” waste are defined in section 75 of the Environmental Protection Act 1990

246. A hyn yn y cefndir, mae adran 65 yn mewnosod adran 45AA newydd ("Wales: separate collection etc. of waste") yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Diben y darpariaethau yn yr adran newydd yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gwahanol fathau o wastraff sydd i'w casglu ar wahân, a phennu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau bod rhagor o wahanol fathau o wastraff yn cael eu gwahanu.
247. Yn adran 45AA, mae is-adrannau (1) a (2) yn ymwneud â chasglu gwahanol ddeunyddiau gwastraff ar wahân. Mae is-adran (1) yn gymwys i awdurdodau lleol sy'n arfer eu swyddogaethau o dan adran 45, i wneud trefniadau ar gyfer casglu gwastraff a reolir yn eu hardal, er enghraifft, gyda chontractwr preifat. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwastraff yn cael ei gasglu o dan y trefniant mewn modd sy'n gyson â'r gofynion gwahanu perthnasol.
248. Mae is-adran (6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu gofynion o ran gwahanu mewn rheoliadau, ac mae is-adran (7) yn rhoi pŵer cysylltiedig i bennu'r amgylchiadau pan fo gofynion o'r fath yn gymwys. Diffinnir natur y gofynion o ran gwahanu yn is-adran (6). Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau pa ddeunyddiau y dylid eu cyflwyno a'u casglu ar wahân, a sut y dylid cadw'r gwahanol fathau o wastraff ar wahân i'w gilydd ar ôl eu casglu. Gallai hyn gynnwys pennu lefel wahanu ar gyfer gwahanol ddeunyddiau gwastraff a all fod yn ofynnol o dan wahanol amgylchiadau.
249. Mae is-adran (2) yn cymhwyso dyletswydd gyfatebol i'r rheini sy'n casglu, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff a reolir mewn gwirionedd. Bwriedir i'r ddyletswydd i ymddwyn yn unol â gofynion gwahanu perthnasol fod yn gymwys yn ystod pob cam o'r gadwyn wastraff, o gynhyrchu'r gwastraff, i'w drin neu ei waredu'n derfynol. Bydd yn effeithio ar y rheini sy'n casglu, yn derbyn neu'n storio gwastraff, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn ogystal â'r cludwyr hynny sy'n cludo gwastraff, ac ailbroswyr, fel ailgylchwyr, sy'n trin gwastraff. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i unigolion nad ydynt yn gweithredu yng nghwrs busnes. Diffinnir "acting in the course of a business" ("gweithredu yng nghwrs busnes") yn is-adran (3).
250. Mae is-adran (10)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud y ddyletswydd yn is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i eithriadau. Bydd y pŵer hwn, ar y cyd â'r pŵer cyffredinol yn is-adran (11) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ddibenion, achosion neu ardaloedd, yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau pan fydd y darpariaethau hyn yn gymwys.



246. Against this background, section 65 inserts a new section 45AA (“Wales: separate collection etc. of waste”) into the Environmental Protection Act 1990. The purpose of the provisions in the new section, is to provide the Welsh Ministers with powers to extend the range of types of waste to be separately collected, and to specify the steps that must be taken to achieve increased separation of waste types.
247. In section 45AA, subsections (1) and (2) are concerned with separate collection of different waste materials. Subsection (1) applies to local authorities exercising their functions under section 45, to make arrangements for collection of controlled waste in their area, for example, with a private contractor. It requires the local authority to ensure that the collection of waste under the arrangements is consistent with applicable separation requirements.
248. Subsection (6) confers a power on the Welsh Ministers to specify separation requirements in regulations, and subsection (7) confers a related power, to specify the circumstances in which such requirements apply. The nature of separation requirements is defined in subsection (6). For example, the Welsh Ministers may specify in regulations which materials should be presented and collected separately and how the wastes should be kept separate from each other once collected. This could include specifying the level of segregation of different waste materials that may be required under different circumstances.
249. Subsection (2) applies an equivalent duty to those who actually collect, keep, treat or transport controlled waste. The duty to act in accordance with applicable separation requirements is intended to apply at all stages in the waste chain, from production of the waste, to final treatment or disposal. It will affect those, including local authorities, who collect, receive or store waste, those carriers who transport waste, and reprocessors, for example, recyclers, who treat waste. The duty does not apply to individuals who are not acting in the course of a business. “Acting in the course of a business” is defined in subsection (3).
250. Subsection (10)(a) confers a power on the Welsh Ministers in regulations, to make the duty in subsections (1) and (2) subject to exceptions. This power, in conjunction with the general power in subsection (11) to make different provision different purposes, cases or areas, will allow the Welsh Ministers to take account of the wide range of circumstances in which these provisions will apply.

251. Mae is-adran (4) yn ategu'r gofynion yn is-adrannau (1) a (2), drwy osod dyletswydd i weithredu'n unol â gofynion gwahanu cymwys ar categorïau penodol o gynhyrchwyr gwastraff, wrth gyflwyno gwastraff ar gyfer ei gasglu. Golyga'r ddarpariaeth hon ei bod yn ofynnol i feddianwyr mangreoedd, ac eithrio aelwydydd, gyflwyno gwastraff a reolir ar gyfer ei gasglu yn unol â gofynion gwahanu cymwys. Caiff gofynion o'r fath gynnwys, er enghraifft, bennu'r mathau o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu y mae'n rhaid eu cyflwyno ar wahân ar gyfer eu casglu.
252. Mae is-adran (5) yn cynnwys eithriadau i'r ddyletswydd yn is-adran (4). Ni fydd y ddyletswydd yn gymwys i feddianwyr aelwydydd domestig na charafanau. Mae is-adran (10)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-adran (4) yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau sy'n ychwanegol at y rheini yn is-adran (5). Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r modd y cymhwysir y ddyletswydd yn is-adran (4) i newidiadau i'r polisi casglu gwastraff sy'n digwydd yn y dyfodol.
253. Mae is-adran (8) yn golygu bod methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (2) neu (4), heb esgus rhesymol, yn drosedd. Yn ôl is-adran (9), mae troseddau o'r fath yn droseddau neillffordd y gellir eu gwrando yn ddiannod yn Llys yr Ynadon neu ar ddiad yn Llys y Goron. Dirwy yw'r gosb yn dilyn collfarn. Nid oes terfyn ar swm y ddirwy y gellir ei gosod.
254. Mae is-adran (11) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau eraill i wneud rheoliadau o dan yr adran hon, wneud gofynion gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol, neu gymhwyso gofynion yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Oherwydd ei natur caiff y pŵer hwn ei arfer ar y cyd ag arfer pwerau eraill o dan yr adran hon.
255. Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 45AB (Code of practice) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, diwygio neu ddirymu cod ymarfer sy'n rhoi canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn adran 45AA. Mae is-adran (3) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, cyn dyroddi cod. Gallai hyn gynnwys CNC ac awdurdodau lleol Cymru, er enghraifft, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r cod, neu unrhyw ddiwygiad i god presennol, a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
256. Ni fyddai cod ymarfer o'r fath yn rhwymo person sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn adran 45AA yn uniongyrchol. Ond mae is-adran (5) yn golygu bod y cod ymarfer yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achos llys, megis pan fo llys yn ystyried a gyflawnwyd trosedd o dan adran 45AA(8) ai peidio. Rhaid i'r llys ystyried y cod o ran unrhyw gwestiynau y mae'n berthnasol iddynt.

251. Subsection (4) complements the requirements in subsections (1) and (2), by imposing a duty to act in accordance with applicable separation requirements on certain categories of waste producers, when presenting waste for collection. This provision requires occupiers of premises, other than householders, to present controlled waste for collection in accordance with applicable separation requirements. Such requirements may for example, include specifying types of recyclable waste materials that must be presented separately for collection.
252. Subsection (5) contains exceptions to the duty in subsection (4). The duty will not apply to occupiers of domestic households or caravans. Subsection (10)(b) provides a power for the Welsh Ministers to make subsection (4) apply subject to exceptions in addition to those in subsection (5). This will permit the Welsh Ministers to adapt the application of the duty in subsection (4) to future changes in waste collection policy.
253. Subsection (8) makes it an offence to fail to comply without a reasonable excuse, with the duty in subsection (2) or (4). By subsection (9), such offences are either-way offences; triable summarily in the Magistrates Court or on indictment in the Crown Court. The penalty on conviction is a fine. There is no limit on the amount of fine that may be imposed.
254. Subsection (11) allows the Welsh Ministers, when exercising their other powers to make regulations under this section, to make different requirements for different circumstances, or to apply requirements differently in different geographical areas. This power by its nature will be exercised in conjunction with the exercise of other powers under this section.
255. Section 45AB (Code of practice), subsections (1) and (2), provide the Welsh Ministers with a power to issue, revise or revoke a code of practice providing guidance on how to comply with the duties in section 45AA. Subsection (3) places the Welsh Ministers under a duty to consult persons that they consider appropriate before issuing a code. This might include, for example, NRW and Welsh local authorities, in addition to other stakeholders. Subsection (4) requires that once issued, the code, or any revision to an existing code, must be published and laid before the National Assembly for Wales.
256. Such a code of practice would not be directly binding on a person subject to the duties in section 45AA. However, subsection (5) makes the code of practice admissible in evidence in court proceedings, for example where a court is considering whether or not an offence under section 45AA(8) has been committed, and the court must take account of the code on questions to which it is relevant.

## **Adran 66 – Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos**

257. Mae adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod dyletswydd gofal eang ar unrhyw berson sy'n mewnforio, yn cynhyrchu, yn cario, yn cadw, yn trin neu'n gwaredu gwastraff a reolir, neu sydd â rheolaeth dros wastraff o'r fath, fel deliwr neu frocer, i fabwysiadu pob mesur rhesymol i atal, ymysg pethau eraill, unrhyw achos anghyfreithlon o waredu gwastraff gan berson arall, neu unrhyw achos o fynd yn groes i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.
258. Mae adran 66 yn mewnosod adran 34D yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos gyhoeddus o fangreoedd annomestig yng Nghymru, yn is-adran (1). O dan y gwaharddiad, ni ddylai'r sawl sy'n meddiannu unrhyw fangre annomestig waredu gwastraff bwyd i garthffos gyhoeddus nac i unrhyw ddraen sy'n gollwng i garthffos gyhoeddus. Mae mangreoedd annomestig yn cynnwys mangreoedd busnes a'r sector cyhoeddus, ond nid ydynt yn cynnwys tai preifat, er enghraifft. Mae gweithredu is-adran (1) yn ddarostyngedig i bŵer Gweinidogion Cymru, yn is-adran (6)(a), i bennu'r amgylchiadau pan fo is-adran (1) yn gymwys mewn rheoliadau. Mae'r pŵer hwn, ar y cyd â'r pŵer cyffredinol i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol yn is-adran (7), yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried yr amrywiaeth eang o fangreoedd ac amgylchiadau pan fydd y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd yn gymwys.
259. Mae is-adran (2) yn amlinellu eithriadau i'r gwaharddiad yn is-adran (1). Mae meddianwyr mangreoedd domestig a charafanau wedi'u heithrio. Mae is-adran (2) yn ddarostyngedig i bŵer Gweinidogion Cymru yn is-adran (6)(b), ar y cyd â'r pŵer yn is-adran (7), i wneud rheoliadau sy'n darparu bod is-adran (1) yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau sy'n ychwanegol at y rheini yn is-adran (2). Fel yn achos y pŵer yn is-adran (6)(a), bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried y modd y mae amgylchiadau a pholisï'r llywodraeth yn newid.
260. Diffinnir gwastraff bwyd yn is-adran (5). Mae is-adran (6)(c) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniad o wastraff bwyd.
261. Mae is-adran (3) o adran 34D yn darparu y bydd methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad yn is-adran (1) heb esgus rhesymol yn drosedd, ac yn rhinwedd is-adran (4), gellir gwrando trosedd o'r fath yn ddiannod yn Llys yr Ynadon neu ar ddiad yn Llys y Goron. Os bydd y person sy'n cyflawni'r drosedd yn cael ei gollfarnu, bydd yn atebol i dalu dirwy ddiderfyn.
262. Mae adran 66(2) o'r Ddeddf yn gwneud diwygiad canlyniadol sy'n egluro nad yw cydsyniad elifion masnach a ddyroddir i feddiannydd gan yr ymgymerwyr carthffosiaeth o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn drech na'r gwaharddiad yn adran 34D ar waredu gwastraff bwyd i garthffos. Mae'n sicrhau y gall unrhyw beth sydd wedi ei eithrio o'r gwaharddiad yn adran 34D gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gael ei reoleiddio gan y drefn elifion masnach.

**Section 66 - Prohibition on disposal of food waste to sewer**

257. Section 34 of the Environmental Protection Act 1990 places a broad duty of care on any person who imports, produces, carries, keeps, treats or disposes of controlled waste or, as a dealer or broker, has control of such waste, to take all reasonable measures to prevent, amongst other things, any unlawful deposit of waste by another person, or any contravention of the Environmental Permitting Regulations 2010.
258. Section 66 inserts section 34D into the Environmental Protection Act 1990, which in subsection (1) bans the disposal of food waste to public sewer from non-domestic premises in Wales. Under the prohibition, the occupier of any non-domestic premises must not dispose of food waste to a public sewer or to any drain that discharges to a public sewer. Non-domestic premises include business and public sector premises but do not include, for example, private houses. The operation of subsection (1) is subject to a power of the Welsh Ministers, in subsection (6)(a), to specify in regulations the circumstances in which subsection (1) is to apply. This power, in conjunction with the general power to make different provision for different purposes in subsection (7), permits the Welsh Ministers to take account of the wide range of premises and circumstances in which the prohibition on disposal of food waste will apply.
259. Subsection (2) sets out exceptions to the prohibition in subsection (1). Occupiers of domestic property and caravans are excepted. Subsection (2) is subject to a power of the Welsh Ministers in subsection (6)(b), in conjunction with the power in subsection (7), to make regulations providing for subsection (1) to apply subject to exceptions in addition to those in subsection (2). Like the power in subsection (6)(a), this will enable the Welsh Ministers to take account of changing circumstances and government policy.
260. Food waste is defined in subsection (5). Subsection (6)(c) provides a power for the Welsh Ministers by regulations, to amend the definition of food waste.
261. Subsection (3) of section 34D provides that failure to comply with the prohibition in subsection (1) without a reasonable excuse will be an offence, and by virtue of subsection (4) such an offence is triable summarily in the Magistrates Court or on indictment in the Crown Court. On conviction, the person committing the offence will be liable to an unlimited fine.
262. Section 66(2) of the Act makes a consequential amendment which clarifies that a trade effluent consent issued to an occupier by the sewerage undertaker under the Water Industry Act 1991 does not override the prohibition in section 34D against disposing of food waste to sewer. It ensures that anything exempted from the prohibition in section 34D by regulations made by the Welsh Ministers is capable of being regulated by the trade effluent regime.



### **Adran 67 – Pŵer i wahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi**

263. Mae adran 9 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu'n rheoleiddio mewn ffordd arall, waredu mathau penodol o wastraff drwy dirlenwi. Dargyfeirio gwastraff adferadwy rhag cael ei waredu yw'r diben, a chynyddu ailgylchu yng Nghymru. Mae adran 67 o'r Ddeddf yn mewnosod adran 9A newydd yn y Mesur, sy'n cynnwys darpariaethau tebyg i'r rheini ar gyfer tirlenwi, ond sy'n ymwneud â gwahardd neu reoleiddio llosgi mathau penodol o wastraff.
264. Mae is-adran (1) o'r adran 9A newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu fel arall yn rheoleiddio llosgi mathau penodedig o wastraff yng Nghymru. Gellid defnyddio pŵer o'r fath i bennu mathau penodol o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu, ac na ddylid eu llosgi, er enghraifft.
265. Mae is-adran (2) yn disgrifio mathau penodol o ddarpariaeth y gellir eu cynnwys mewn rheoliadau o dan is-adran (1). Mae hyn yn cynnwys pŵer i greu troseddau, i ragnodi cosbau ac i ddarparu ar gyfer awdurdodau gorfodi. Mae is-adran (2) hefyd yn cynnwys pŵer i ddiwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, a fyddai'n cynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, sy'n rheoleiddio trwyddedu a gweithredu cyfleusterau llosgi, ymysg pethau eraill.
266. Mae is-adran (3) yn diffinio llosgi at ddibenion adran 9A, ynghyd â "peiriant llosgi gwastraff", a "peiriant cydlosgi gwastraff". Felly mae'r pŵer yn is-adran (1) yn gymwys i beiriannau gan gynnwys y rheini sydd â'r prif ddiben o losgi gwastraff (llosgyddion gwastraff, er enghraifft) a'r rheini sy'n llosgi gwastraff i ddarparu ynni i bweru proses.

### **Adran 68 – Sancsiynau sifil**

267. Mae is-adran (1) o adran 68 yn darparu bod y drefn o sancsiynau sifil a rheolaethau o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ar gael mewn perthynas â throseddau a gyflawnir o dan adrannau 34D a 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a fewnosodir gan adrannau 65 a 66. Gellir defnyddio'r sancsiynau hynny fel dull arall yn hytrach nag erlyn troseddau, os yw'r rheoleiddiwr yn fodlon bod trosedd wedi'i chyflawni.
268. Mae is-adrannau (2) i (8) yn diwygio adran 10 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, er mwyn dod â throseddau a gyflawnir o dan ddarpariaethau'r adran 9A newydd, yn ymwneud â llosgi, o dan y drefn sancsiynau sifil sydd eisoes yn ei lle yn y Mesur.



**Section 67 - Power to prohibit or regulate disposal of waste by incineration**

263. Section 9 of the Waste (Wales) Measure 2010 contains provisions which confer powers on the Welsh Ministers to make regulations prohibiting or otherwise regulating the disposal by landfilling of specified types of waste. The purpose is to divert recoverable waste from disposal, and increase recycling in Wales. Section 67 of the Act inserts a new section 9A into the Measure, which contains provisions similar to those for landfill, but which relate to prohibition or regulation of incineration of specified types of waste.
264. Subsection (1) of the new section 9A provides the Welsh Ministers with a power to make regulations which prohibit or otherwise regulate incineration in Wales of specified types of waste. Such a power may, for example, be used to specify certain types of otherwise recyclable waste material which are not to be incinerated.
265. Subsection (2) describes certain particular types of provision which may be included in regulations under subsection (1). This includes a power to create offences, prescribe penalties and provide for enforcement authorities. Subsection (2) also includes a power to amend regulations made under section 2 of the Pollution Prevention and Control Act 1999, which would include the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010, which regulate, amongst other things, the permitting and operation of incineration facilities.
266. Subsection (3) defines incineration for the purposes of section 9A, along with “waste incineration plant”, and “waste co-incineration plant”. The power in subsection (1) therefore applies to plants including those whose main purpose is to burn waste (for example waste incinerators) and those who burn waste to provide energy to power a process.

**Section 68 - Civil sanctions**

267. Subsection (1) of section 68 provides that the regime of civil sanctions and controls under the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 is available in relation to offences committed under sections 34D and 45AA of the Environmental Protection Act 1990 inserted by sections 65 and 66. Those sanctions may be used as an alternative to prosecution for offences, if the regulator is satisfied that an offence has been committed.
268. Subsections (2) to (8) amend section 10 of the Waste (Wales) Measure 2010, to bring offences committed under the provisions of the new section 9A concerning incineration, under the civil sanctions regime that is already in place in the Measure.

### **Adran 69 - Rheoliadau**

269. Mae adran 69 yn diwygio adran 161 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn perthynas â rheoliadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru o dan yr adrannau 45AA a 34D newydd o'r Ddeddf honno. Yn benodol, mae is-adran (4) yn mewnosod is-adran (2AA) newydd yn adran 161, sy'n darparu bod rheoliadau o dan yr adrannau newydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r diwygiadau i adran 161 hefyd yn diweddarau'r derminoleg drwy roi cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn lle'r cyfeiriadau at is-ddeddfwriaeth a oedd yn cael ei gwneud gan yr hen Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
270. Mae adran 69 hefyd yn diwygio adran 20 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 er mwyn darparu bod rheoliadau o dan yr adran 9A newydd o'r Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

### **Adran 70 - Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

271. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i ddarpariaethau'r Rhan hon o'r Ddeddf. Ceir manylion y diwygiadau yn Rhan 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

### **Rhan 5 - Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn**

272. Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i adrannau 1 a 3 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ("Deddf 1967") ac yn cyflwyno adrannau 5A i 5F newydd iddi. Prif bwrpas y newidiadau hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y ddarpariaeth angenrheidiol a chymryd y camau angenrheidiol mewn perthynas â gorchmynion pysgodfeydd cregyn, a roddir o dan adran 1 o Ddeddf 1967, at ddibenion gwarchod safleoedd morol Ewropeaidd ac atal niwed iddynt. Diffinnir safleoedd morol Ewropeaidd ("European marine sites") gan yr adran 5F(2) newydd o Ddeddf 1967 (fel y'i mewnosodir gan adran 50 o'r Ddeddf hon) drwy gyfeirio at reoliad 8 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (a ddynodir yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodir yn unol â Chyfarwyddeb Adar Gwyllt 79/409/EEC).

### **Adran 71 - Ceisiadau am orchmynion sy'n ymwneud â pysgodfeydd**

273. Mae adran 1 o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmyn sy'n rhoi hawl pysgodfa unigol neu hawl i reoleiddio pysgodfa. Mae gorchmyn pysgodfa unigol yn rhoi perchnogaeth o bysgod cregyn penodedig i'r person (a elwir yn grantî) y rhoddir y bysgodfa iddo. Mae gorchmyn rheoleiddio yn galluogi person i reoli gweithgarwch pysgota (ar gyfer pysgod cregyn penodedig) o fewn ardal benodedig, yn aml drwy roi trwyddedau pysgota i eraill.

### **Section 69 - Regulations**

269. Section 69 amends section 161 of the Environmental Protection Act 1990, to make provision for the procedure to be followed in relation to regulations brought forward by the Welsh Ministers under the new sections 45AA and 34D of that Act. In particular, subsection (4) inserts a new subsection (2AA) into section 161, which provides that regulations under the new sections are subject to affirmative procedure in the National Assembly for Wales. The amendments to section 161 also update terminology by replacing references to subordinate legislation made by the old National Assembly for Wales with references to the Welsh Ministers.
270. Section 69 also amends section 20 of the Waste (Wales) Measure 2010 to provide that regulations under the new section 9A of the Measure are subject to affirmative procedure in the National Assembly.

### **Section 70 - Minor and consequential amendments and repeals**

271. This section provides for further amendments to be made to existing legislation as a result of the provisions in this Part of the Act. The amendments are detailed within Part 3 of Schedule 2 to the Act.

### **Part 5 - Fisheries for Shellfish**

272. This Part of the Act makes amendments to sections 1 and 3 of the Sea Fisheries (Shellfish) Act 1967 ("the 1967 Act") and introduces new sections 5A to 5F into it. The main purpose of these changes is to enable the Welsh Ministers to make the necessary provision and take the necessary action in relation to shellfishery orders, granted under section 1 of the 1967 Act, for the purposes of the protection and the prevention of harm to European Marine Sites (EMS). "European marine sites" is defined by new section 5F(1) of the 1967 Act (as inserted by section 50 of this Act) by reference to regulation 8 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010 which includes Special Areas of Conservation (designated pursuant to the Habitats Directive 92/43/EEC) and Special Protection Areas (designated pursuant to the Wild Birds Directive 79/409/EEC).

### **Section 71 - Applications for orders relating to fisheries**

273. Section 1 of the 1967 Act enables the Welsh Ministers to make an order conferring a right of several fishery or a right of regulating a fishery. A several order transfers ownership of the specified shellfish to the person (known as the grantee) upon whom that fishery is conferred. A regulating order enables a person to manage fishing activity (for the specified shellfish) within a specified area, often by issuing permits to others to fish.

274. Mae adran 1(2) o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn offeryn statudol, ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am orchymyn pysgodfa gregyn unigol neu orchymyn rheoleiddio. Mae adran 71 o'r Ddeddf yn diwygio adran 1 o Ddeddf 1967 fel na fydd yn angenrheidiol mwyach gwneud offeryn statudol at y dibenion hyn. Bydd is-adran 1(2A) o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am orchymyn pysgodfa gregyn, heb fod angen gwneud is-ddeddfwriaeth at y diben hwnnw.
275. Mae adran 71 o'r Ddeddf hefyd yn mewnosod adran 1(2B) newydd i Ddeddf 1967 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n gwneud cais am orchymyn o dan adran 1 o Ddeddf 1967 ddarparu unrhyw wybodaeth (a allai gynnwys gwybodaeth amgylcheddol) sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn ystyried cais o'r fath.
276. Bydd y diwygiadau hyn i adran 1 o Ddeddf 1967 yn gymwys i unrhyw gais a wneir ar ôl i adran 71 o'r Ddeddf hon ddod i rym. Bydd unrhyw geisiadau o'r fath a dderbynnir cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu prosesu yn unol â geiriad blaenorol adran 1(2) o Ddeddf 1967.

#### **Adran 72 - Gofyniad i gynnwys darpariaethau amgylcheddol mewn gorchymynion sy'n ymwneud â physgodfeydd**

277. Mae adran 72 o'r Ddeddf yn mewnosod adran 5A newydd i Ddeddf 1967 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gorchymyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau yr ystyrir eu bod yn briodol er mwyn atal niwed i unrhyw safle morol Ewropeaidd neu i warchod yr amgylchedd morol fel arall. Diffinnir amgylchedd morol ("marine environment") gan yr adran 5A(2) newydd. Darperir diffiniadau o safle morol Ewropeaidd ("European marine site") a niwed ("harm") at y dibenion hyn yn adran 5F(1) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf.
278. Ni fydd darpariaethau'r adran 5A newydd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw orchymyn pysgodfa gregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 5 o'r Ddeddf ddod i rym (gweler adran 5F(3) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf).

#### **Adran 73 - Pŵer i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer diogelu safleoedd morol Ewropeaidd**

279. Mae adran 73 o'r Ddeddf yn mewnosod adrannau 5B, 5C a 5D newydd i Ddeddf 1967. Mae'r adrannau newydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi hysbysiad gwarchod safle ac ymdrin â materion cysylltiedig.
280. Er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau priodol i atal niwed ("harm") (fel y'i diffinnir gan adran 5F(2) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf) i safle morol Ewropeaidd o ganlyniad i weithredu pysgodfa gregyn unigol neu un wedi ei rheoleiddio, mae adran 5B(1) yn darparu pŵer newydd i Weinidogion Cymru roi hysbysiad gwarchod safle i granti y pysgodfa gregyn berthnasol o dan yr amgylchiadau a bennir.

274. Section 1(2) of the 1967 Act enables the Welsh Ministers to specify, in a statutory instrument, the form and manner in which an application for a several or regulating shellfishery order must be made. Section 71 of the Act amends section 1 of the 1967 Act so that it is no longer necessary to make a statutory instrument for these purposes. Section 1(2A) of the 1967 Act will enable the Welsh Ministers to specify the form and manner in which an application for a shellfishery order must be made, without the need to make subordinate legislation for that purpose.
275. Section 71 of the Act further inserts a new section 1(2B) into the 1967 Act which enables the Welsh Ministers to require any person that applies for an order under section 1 of the 1967 Act to provide any information that the Welsh Ministers consider necessary (which could include environmental information) in order to consider such an application.
276. These amendments to section 1 of the 1967 Act will apply in relation to any application made after section 71 of this Act comes into force. Any such applications received before that date will be processed pursuant to the previous wording of section 1(2) of the 1967 Act.

### **Section 72 – Requirement to include environmental provisions in orders relating to fisheries**

277. Section 72 of the Act inserts a new section 5A into the 1967 Act which requires the Welsh Ministers to ensure that an order made under section 1 of the 1967 Act includes any provisions considered appropriate to prevent harm to any EMS or to otherwise protect the marine environment. “Marine environment” is defined by the new section 5A(2). Definitions of “European marine site” and “harm” for these purposes are provided at section 5F(1) of the 1967 Act, inserted by section 75 of the Act.
278. The provisions of the new section 5A will not apply in relation to any shellfishery order made under section 1 of the 1967 Act before Part 5 of the Act comes into force (see section 5F(3) of the 1967 Act, inserted by section 75 of the Act).

### **Section 73 – Power to serve notices for protection of European marine sites**

279. Section 73 of the Act inserts new sections 5B, 5C and 5D into the 1967 Act. These new sections enable the Welsh Ministers to issue a site protection notice (“SPN”) and deal with related matters.
280. In order to ensure that the Welsh Ministers have appropriate powers to prevent “harm” (as defined by section 5F(1) of the 1967 Act, inserted by section 75 of the Act) to an EMS as a result of the operation of a several or regulated shellfishery, section 5B(1) provides a new power for the Welsh Ministers to serve a SPN on the grantee of the relevant shellfishery in the specified circumstances.



281. Mae adran 5B(2) a (3) yn pennu'r gofynion y caniateir eu cynnwys mewn hysbysiad gwarchod safle. Mewn rhai achosion gallai hysbysiad gwarchod safle nodi'r gweithgareddau a gyflawnir fel rhan o'r gwaith o reoli'r bysgodfa a allai niweidio safle morol Ewropeaidd (neu ddod yn niweidiol iddo), a phennu wedi hynny pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd neu pa gamau y mae'n rhaid eu hosgoi er mwyn rhwystro'r niwed hwnnw rhag digwydd. Gall hysbysiad gwarchod safle gynnwys gofyniad i gymryd camau yn ogystal â gofyniad i ymatal rhag cymryd camau penodol.
282. Mae adran 5B(4) yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr hysbysiad gwarchod safle (a gaiff gynnwys darpariaeth y mae'n ofynnol i'r granti gydymffurfio â hi y tu hwnt i gyfnod y bysgodfa unigol neu'r bysgodfa reoleiddio, gweler adran 5B(8) o Ddeddf 1967).
283. Mae adran 5B(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r granti perthnasol cyn rhoi hysbysiad gwarchod safle oni bai eu bod o'r farn bod angen cymryd camau brys er mwyn atal niwed, ac mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob hysbysiad yn y fath fodd fel ei fod yn cael ei ddwyn i sylw pawb y mae'r hysbysiad yn debygol o effeithio arno.
284. Mae adran 5B(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu neu ddileu Hysbysiad Gwarchod Safle.
285. Mae adran 5B(9) yn darparu bod y pwerau gorfodi a nodir yn adran 5(2) i (7) o Ddeddf 1967 (sy'n cynnwys pwerau i wneud ymholiadau ac arolygu ac i gael mynediad i dir penodol at y dibenion hynny etc.) ar gael at ddibenion yr adran 5B newydd (hynny yw y pŵer i roi hysbysiad gwarchod safle).
286. Mae is-adran 5C (a fewnosodir i Ddeddf 1967 gan adran 73 o'r Ddeddf) yn darparu dull apelio mewn perthynas â hysbysiadau gwarchod safle. Gellir cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae'r adran hon yn pennu'r penderfyniadau hynny y caniateir apelio yn eu herbyn a'r personau hynny a gaiff wneud apêl o'r fath neu fod yn barti i apêl o'r fath.
287. Mae adran 5C(4) yn galluogi'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i atal neu addasu hysbysiad gwarchod safle tra bo'r apêl yn mynd rhagddo ac mae is-adran (5) yn galluogi'r Tribiwnlys i gadarnhau, i amrywio neu i ddileu'r hysbysiad perthnasol. Mae is-adran (6) yn galluogi'r Tribiwnlys i orchymyn Gweinidogion Cymru, pan fo'r Tribiwnlys yn amrywio neu'n dileu hysbysiad, i ddiogolledu unrhyw barti i'r apêl sydd wedi dioddef colled neu niwed o ganlyniad i'r hysbysiad perthnasol.
288. Os yw granti y cyflwynwyd hysbysiad iddo yn methu â chydymffurfio â'i delerau, mae adran 5D (a fewnosodir i Ddeddf 1967 gan adran 73 o'r Ddeddf) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd y camau angenrheidiol eu hunain ac adennill unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r camau hynny gan y granti.



281. Section 5B(2) and (3) specify the requirements that may be included in a SPN. In some cases a SPN might identify the activities being undertaken as part of the management of the fishery that may harm (or become harmful to) an EMS, and then specify what steps must be taken or what actions must be avoided in order to prevent that harm from happening. A SPN can include a requirement to take action as well as a requirement to abstain from taking certain actions.
282. Section 5B(4) makes provision regarding the form and content of the SPN (which can include provision that the grantees are required to comply with beyond the period of the several or regulating fishery, see section 5B(8) of the 1967 Act).
283. Section 5B(5) requires the Welsh Ministers to consult with the relevant grantee before issuing a SPN unless they are of the view that urgent action to prevent harm is needed and subsection (7) requires the Welsh Ministers to publish every SPN in such a way as to bring the SPN to the attention of anyone likely to be affected by it.
284. Section 5B(6) enables the Welsh Ministers to adjust or cancel a SPN.
285. Section 5B(9) provides that the enforcement powers set out at section 5(2) to (7) of the 1967 Act (which include powers to make inquiries and examinations and to enter onto certain land for those purposes etc.) are available for the purposes of the new section 5B (i.e. the power to serve a SPN).
286. Section 5C (inserted into the 1967 Act by section 73 of the Act) provides an appeal mechanism in relation to SPNs. An appeal may be made to the First-tier Tribunal. This section specifies the decisions which can be appealed and the persons that may bring or be party to such an appeal.
287. Section 5C(4) enables the First-tier Tribunal to suspend or adjust a SPN while the appeal is ongoing and subsection (5) enables the Tribunal to confirm, amend or cancel the relevant SPN. Subsection (6) enables the Tribunal to order the Welsh Ministers, where the Tribunal varies or cancels a SPN, to pay compensation to any party to the appeal who has suffered loss or damage as a result of the relevant SPN.
288. If a grantee who has been served with a SPN fails to comply with its terms, section 5D (inserted into the 1967 Act by section 73 of the Act) enables the Welsh Ministers to take the necessary steps themselves and recover any costs associated with those actions from the Grantee.

289. Ni fydd darpariaethau'r adrannau 5B, 5C a 5D newydd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw orchymyn pysgod cregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 5 o'r Ddeddf ddod i rym (gweler adran 5F(3) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf).

#### **Adran 74 - Pŵer i amrywio neu ddirymu gorchmynion i ddiogelu safleoedd morol Ewropeaidd**

290. Mae adran 74 o'r Ddeddf yn cyflwyno adran 5E newydd i Ddeddf 1967. Mae adran 5E(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu gorchymyn pysgodfa unigol neu orchymyn rheoleiddio, o dan amgylchiadau penodol. Mae adran 5E(1) yn darparu nad yw'r pŵer yn is-adran (2) ar gael oni fo Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno hysbysiad gwarchod safle, nad yw wedi cael ei ddileu (gan Weinidogion Cymru neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf) ac nad oes apêl yn yr arfaeth mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw (ceir disgrifiad pellach o ystyr apêl sydd yn yr arfaeth ("pending appeal") yn adran 5E(4)). Unwaith y bo'r amodau hynny wedi eu bodloni, mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu'r gorchymyn pysgodfa unigol neu'r gorchymyn rheoleiddio perthnasol er mwyn adlewyrchu effaith yr hysbysiad gwarchod safle. Mae is-adran (3) yn nodi'r gofynion ymgynghori perthnasol.

291. Ni fydd darpariaethau adran 5E yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw orchymyn pysgodfa gregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 5 o'r Ddeddf ddod i rym (gweler adran 5F(3) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 75 o'r Ddeddf).

#### **Adran 75 - Darpariaeth atodol**

292. Mae adran 75 o'r Ddeddf yn mewnosod adran 5F yn Neddf 1967 sy'n diffinio termau amrywiol sy'n berthnasol i adrannau 5A i 5E a fewnosodir yn Neddf 1967 gan y Ddeddf hon, ac yn nodi i ba orchmynion pysgodfeydd y mae'r adrannau hynny yn gymwys.

#### **Rhan 6 - Trwyddedu morol**

293. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf 2009). Mae Rhan 4 o Ddeddf 2009 yn sefydlu trefn trwyddedu morol. Mae adran 65 o Ddeddf 2009 yn darparu na ellir cyflawni gweithgareddau morol y mae angen trwydded ar eu cyfer, ac eithrio yn unol â thrwydded forol a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae adran 113(4) o'r Ddeddf honno'n diffinio'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru. Gweler adran 322 o Ddeddf 2009 i gael y diffiniad o ranbarth glannau Cymru. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru, ac eithrio fel y darperir gan adran 113(4)(a) o Ddeddf 2009. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau sy'n gymwys os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol.

289. The provisions of the new sections 5B, 5C and 5D will not apply in relation to any shellfishery order made under section 1 of the 1967 Act before Part 5 of the Act comes into force (see section 5F(3) of the 1967 Act, inserted by section 75 of the Act).

#### **Section 74 – Power to vary or revoke orders to protect European marine sites**

290. Section 74 of the Act introduces a new section 5E into the 1967 Act. Section 5E(2) enables the Welsh Ministers to vary or revoke a several or regulating order in certain circumstances. Section 5E(1) provides that the power in subsection (2) is only available where the Welsh Ministers have served a SPN, which has not been cancelled (by the Welsh Minister or the First-tier Tribunal) and no appeal is pending in relation to that SPN (the meaning of a pending appeal is further described at section 5E(4)). Once those conditions have been met, subsection (2) then enables the Welsh Ministers to vary or revoke the relevant several or regulating shellfishery order in order to reflect the effect of the SPN. Subsection (3) sets out the relevant consultation requirements.
291. The provisions of section 5E will not apply in relation to any shellfishery Order made under section 1 of the 1967 Act before Part 5 of the Act comes into force (see section 5F(3) of the 1967 Act, inserted by section 75 of the Act).

#### **Section 75 – Supplementary provision**

292. Section 75 of the Act inserts section 5F into the 1967 Act which defines various terms that are relevant to sections 5A to 5E inserted into the 1967 Act by this Act and identifies the fishery orders to which those new sections apply.

#### **Part 6 – Marine licensing**

293. Part 6 of the Act amends Part 4 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (the 2009 Act). Part 4 of the 2009 Act establishes a marine licensing regime. Section 65 of the 2009 Act provides that licensable marine activities cannot be carried out except in accordance with a marine licence granted by the appropriate licensing authority. Section 113(4) of that Act defines the appropriate licensing authority in relation to Wales and the Welsh inshore region. For the definition of Welsh inshore region see section 322 of the 2009 Act. Except as provided by section 113(4)(a) of the 2009 Act the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority in relation to Wales and the Welsh inshore region. Part 6 of the Act makes amendments which apply where the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority.

294. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2009 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru fel yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys y pŵer i roi, i amrywio, i atal dros dro neu i ddirymu trwydded forol yn unol ag adrannau 71 a 72 o Ddeddf 2009. Bydd Rhan 6 o'r Ddeddf yn ategu'r pwerau codi tâl presennol sydd yn adran 67 o Ddeddf 2009 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru, os mai hwy yw'r awdurdod trwyddedu priodol, i godi ffioedd am amrywiaeth eang o geisiadau a gweithgareddau a gyflawnir ganddynt.

#### **Adran 76 – Cyngor a chymorth mewn perthynas â thrwyddedu morol**

295. Mae adran 76 yn mewnosod adran 67A yn Neddf 2009, sy'n galluogi'r awdurdod trwyddedu i ddarparu cyngor neu gymorth arall ac i adennill costau rhesymol am wneud hynny. Un enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer hwn yw darparu ac adennill costau yn ymwneud â rhoi cyngor a chymorth cyn gwneud cais.

#### **Adran 77 – Ffioedd am fonitro, amrywio etc. drwyddedau morol**

296. Mae adran 77 yn mewnosod adran 72A yn Neddf 2009. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, i godi ffioedd am fonitro gweithgareddau a awdurdodir gan drwydded forol ac i godi ffioedd am geisiadau i amrywio, i drosglwyddo, i atal dros dro neu i ddirymu trwydded forol. Caiff Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol, godi ffioedd hefyd at gostau rhesymol yr ymchwiliadau, yr arolygiadau neu'r profion sy'n angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn penderfynu ar geisiadau penodol. Caiff Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu, wrthod bwrw ymlaen â chais os na chaiff ffioedd eu talu neu, ar gyfer ffioedd penodol, amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol drwy hysbysiad.

#### **Adran 78 – Darpariaeth bellach ynghylch talu ffioedd**

297. Mae adran 78 yn mewnosod adrannau 107A a 107B yn Neddf 2009, sy'n darparu ar gyfer trefniadau ymarferol penodol sy'n ymwneud â thalu ffioedd. Mae hyn yn cynnwys galluogi Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, i godi blaendaliadau, i'w gwneud yn ofynnol talu ymlaen llaw ac i hepgor neu ostwng ffioedd. Mae gan Weinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, bwerau tebyg o ran peidio â thalu blaendaliadau ag ar gyfer peidio â thalu ffioedd o dan adran 77.

#### **Adran 79 – Apelio yn erbyn amrywio etc drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal**

298. Mae adran 79 yn diwygio adran 108 o Ddeddf 2009 (Apelau yn erbyn hysbysiadau) i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, fel y gall personau apelio yn erbyn hysbysiad a roddwyd am beidio â thalu ffi neu flaendal.

294. Part 4 of the 2009 Act confers functions on the Welsh Ministers as the appropriate licensing authority. These functions include the power to grant, vary, suspend or revoke a marine licence pursuant to sections 71 and 72 of the 2009 Act. Part 6 of the Act will supplement existing charging powers at section 67 of the 2009 Act so as to enable the Welsh Ministers where they are the appropriate licensing authority, to charge fees for a broad range of applications and activities that they undertake.

#### **Section 76 - Advice and assistance in relation to marine licensing**

295. Section 76 inserts section 67A into the 2009 Act which enables the licensing authority, to provide advice or other assistance and to recover the reasonable costs of doing so. An example of where this power might be used is the provision and recovery of costs relating to pre-application advice and assistance.

#### **Section 77 - Fees for monitoring, variation etc. of marine licences**

296. Section 77 inserts section 72A into the 2009 Act. This enables the Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority, to charge fees for monitoring activities authorised by a marine licence and to charge fees for applications for the variation, transfer, suspension and revocation of a marine licence. The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority, may also charge fees towards the reasonable expenses of investigations, examinations or tests necessary or expedient to determine certain applications. The Welsh Ministers, as licensing authority, may refuse to proceed with applications if fees are not paid or, for certain fees, by notice vary, suspend or revoke a marine licence.

#### **Section 78 - Further provision about payment of fees**

297. Section 78 inserts sections 107A and 107B into the 2009 Act which provide for certain practical arrangements relating to the payment of fees. This includes, enabling the Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority, to charge deposits, require payment in advance and waive or reduce fees. The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority, have similar powers for non payment of deposits as for non payment of fees under section 77.

#### **Section 79 - Appeal against variation etc. of marine licence for non-payment of fee or deposit**

298. Section 79 amends section 108 of the 2009 Act (Appeals against notices) to provide that the Welsh Ministers must by regulations make provision for persons to be able to appeal against a notice issued as a result of a non-payment of a fee or a deposit.

## **Adran 80 - Eithriadau rhag pŵer i ddirprwyo swyddogaethau awdurdod trwyddedu**

299. Mae adran 80 yn diwygio adran 98(6) o Ddeddf 2009. Mae adran 98(1) o Ddeddf 2009 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirprwyo swyddogaethau penodol awdurdod trwyddedu i berson arall. Mae adran 98(6) o Ddeddf 2009 yn rhestru'r swyddogaethau sydd wedi'u heithrio ac na ellir eu dirprwyo. Mae adran 80 o'r Ddeddf yn diwygio'r rhestr honno drwy ychwanegu'r swyddogaethau o wneud rheoliadau sy'n ymwneud â ffioedd a blaendaliadau, a roddwyd gan adrannau 77 a 78 o'r Ddeddf. O ganlyniad, ni ellir dirprwyo'r swyddogaethau hynny o wneud rheoliadau yn unol ag adran 98(1) o Ddeddf 2009.

## **Rhan 7 - Amrywiol**

### **Adran 81- Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

300. Mae adran 81 o'r Ddeddf yn mewnosod adrannau 26B - 26D i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd yr adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu pwyllgor i ddarparu cyngor iddynt ar faterion yn ymwneud â rheoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu'r Flood and Coastal Erosion Committee fydd enw'r pwyllgor.
301. Corff cynghori fydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'i gylch gwaith fydd darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â rheoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru e.e. llifogydd o ddŵr wyneb, prif afonydd, cyrsiau dŵr arferol, llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol.
302. Mae adrannau 26C a 26D yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau, drwy reoliadau, ynglŷn ag aelodaeth a thrafodion y pwyllgor a thaliadau i aelodau a'r cadeirydd.
303. Mae'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn disodli Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, sef y pwyllgor llifogydd ac arfordirol rhanbarthol yng Nghymru a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae adran 81(2) yn diddymu Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn ffurfiol.

### **Adrannau 82 i 85 - Draenio tir**

304. Mae adrannau 82 i 85 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion amrywiol sy'n ymwneud â draenio tir. Mae adrannau 82-84 yn ymwneud â byrddau draenio mewnol a'r modd y cânt eu cyllido. Sefydlir y byrddau hyn er mwyn arfer swyddogaethau sy'n gysylltiedig â draenio tir yn eu hardaloedd. Yn sgil newidiadau diweddar trosglwyddwyd holl swyddogaethau'r byrddau draenio mewnol yng Nghymru i CNC.



## **Section 80 - Exceptions from power to delegate marine licensing authority functions**

299. Section 80 amends section 98(6) of the 2009 Act. Section 98(1) of the 2009 Act enables the Welsh Ministers to delegate certain appropriate licensing authority functions to another person. Section 98(6) of the 2009 Act lists excepted functions that cannot be delegated. Section 80 of the Act amends that list by adding the functions of making regulations relating to fees and deposits which have been conferred by sections 77 and 78 of the Act. As a result, those regulation-making functions cannot be delegated pursuant to section 98(1) of the 2009 Act.

## **Part 7 - Miscellaneous**

### **Section 81 - Establishment of Flood and Coastal Erosion Committee for Wales**

300. Section 81 of the Act inserts sections 26B – 26D into the Flood and Water Management Act 2010. These sections will require the Welsh Ministers to establish a committee to provide advice to the Welsh Ministers on matters relating to flood and coastal erosion risk management in Wales. The committee will be known as the Flood and Coastal Erosion Committee or Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol.
301. The Flood and Coastal Erosion Committee will be an advisory body with a remit to provide advice to the Welsh Ministers on matters relating to flood and coastal erosion risk management in Wales e.g. flooding from surface water, main rivers, ordinary watercourse, coastal flooding and coastal erosion.
302. Sections 26C and 26D give the Welsh Ministers powers to make provisions, through regulations, about the membership and proceedings of the committee and payments to members and the chair.
303. The Flood and Coastal Erosion Committee replaces Flood Risk Management Wales, the regional flood and coastal committee in Wales established under section 22 of the Flood and Water Management Act 2010. Section 81(2) formally abolishes Flood Risk Management Wales.

### **Sections 82 to 85 - Land drainage**

304. Sections 82 to 85 make provision in relation to various matters which concern land drainage. Sections 82-84 concern Internal Drainage Boards (IDBs) and their funding. IDBs are established to exercise functions relating to the drainage of land in their districts. Recent changes have transferred all IDB functions in Wales to NRW.

305. Mae adran 82 yn ymwneud â chyhoeddi hysbysiadau mewn perthynas â byrddau draenio mewnol. Mae adran 83 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r ffordd y caiff tir anamaethyddol ei brisio er mwyn dosrannau costau draenio yng nghyd-destun ardrethi draenio. Mae adran 84 yn ymwneud ag apelau yn erbyn ardollau arbennig.
306. Mae adran 85 yn ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru i sicrhau y cydymffurfir â gorchmynion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol mewn perthynas â glanhau ffosydd.

#### **Adran 82 - Diddymu gofynion i gyhoeddi mewn papurau newydd lleol etc.**

307. Mae'r adran hon yn diddymu darpariaethau Deddf Draenio Tir 1991 sy'n pennu ar ba ffurf y mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau sy'n ymwneud â byrddau draenio mewnol.
308. Mae'r darpariaethau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau gael eu cyhoeddi mewn un papur newydd lleol neu ragor. Mae'r hysbysiadau y mae'r gofynion yn gymwys iddynt yn ymdrin â materion megis addasu ardaloedd draenio mewnol a gwneud is-ddeddfau.
309. Ni fydd y newidiadau yn cael gwared ar y rhwymedigaeth i gyhoeddi hysbysiadau, ond byddant yn golygu na fydd yn ofynnol cyhoeddi mewn papur newydd lleol mwyach. Bydd hynny'n darparu ar gyfer trefniadau hysbysebu mwy hyblyg ac yn caniatáu i'r byrddau draenio mewnol ac CNC ddewis y dull mwyaf priodol o ddsbarthu hysbysiadau, gan gynnwys dulliau electronig.

#### **Adran 83 - Prasio tir anamaethyddol er mwyn dosrannu costau draenio**

310. Caiff costau bwrdd draenio mewnol nad ydynt yn cael eu diwallu gan gyllid grant eu diwallu yn rhannol gan ardrethi draenio y mae meddianwyr tir amaethyddol yn yr ardal yn eu talu, ac yn rhannol gan ardollau arbennig a godir ar yr awdurdodau lleol perthnasol (a rhaid iddynt hwy gynnwys yr ardollau yn eu cyllidebau Treth Gyngor). Pennir y gyfran o wariant bwrdd draenio mewnol a ddiwellir o'r ardrethi draenio a'r ardollau arbennig drwy gymharu cyfanswm gwerth y tir amaethyddol yn ei ardal â chyfanswm gwerth y tir anamaethyddol.
311. O ran tir amaethyddol, mae Pennod 2 o Ran 4 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn nodi'r dull prasio y mae'n rhaid ei ddefnyddio at y dibenion hyn. O ran tir anamaethyddol, mae adran 37(5) yn darparu, os cafodd y tir ei gynnwys ar restr ardrethu neu restr brisio ym 1990, bod ei werth i'w gyfrifo drwy gyfeirio at y gwerth a nodir ar y rhestr honno.
312. Nid yw adran 37(5) yn gyfredol bellach, ac nid yw rhai o'r rhestrau y mae'n cyfeirio atynt ar gael erbyn hyn. Mae adran 83 o'r Ddeddf yn diwygio adran 37 er mwyn rhoi darpariaethau newydd ar gyfer Cymru mewn perthynas â phrisio tir anamaethyddol yn lle is-adran (5).

305. Section 82 concerns the publication of notices in relation to internal drainage boards (IDBs). Section 83 makes provision in relation to the way in which non-agricultural land is valued for the purposes of the apportionment of drainage expenses in the context of drainage rates. Section 84 concerns appeals against special levies.
306. Section 85 concerns the Welsh Ministers' powers to act to ensure compliance with orders of the Agricultural Land Tribunal (ALT) in relation to cleansing ditches.

**Section 82 – Repeal of requirements to publish in local newspapers etc.**

307. This section repeals provisions of the Land Drainage Act 1991 (LDA 1991) which specify the way in which notices relating to Internal Drainage Boards (IDBs) must be published.
308. The current provisions require notices to be published in one or more local newspapers. The notices to which the requirements apply deal with matters such as alterations to internal drainage districts and the making of byelaws.
309. The changes will not remove the obligation to publish notices, but will mean that publication in a local newspaper is no longer required. This will provide for more flexible advertising arrangements and allow the IDBs and NRW to choose the most appropriate mechanism for distribution of notices, including electronic methods.

**Section 83 - Valuation of non-agricultural land for apportionment of drainage expenses**

310. The expenses of an IDB that are not covered by grant funding are met partly by drainage rates payable by occupiers of agricultural land in its district, and partly by special levies issued to relevant local authorities (who must include the levies in their Council Tax budgets). The proportions of an IDB's expenditure that are met from drainage rates and special levies are determined by comparing the total value of the agricultural land in its district with the total value of the non-agricultural land.
311. For agricultural land, Chapter 2 of Part 4 of the LDA 1991 sets out the valuation methodology that must be used for these purposes. For non-agricultural land, section 37(5) provides that if the land was included on a rating or valuation list in 1990 its value is to be calculated by reference to the value shown on that list.
312. Section 37(5) is out of date and some of the lists to which it refers are no longer available. Section 83 of the Act amends section 37 to replace subsection (5) with new provisions for Wales about the valuation of non-agricultural land.

313. Maent yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n nodi trefniadau newydd ar gyfer pennu gwerth tir anamaethyddol a ddefnyddir i gyfrifo ardrethi draenio ac ardollau arbennig.

**Adran 84 - Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn ardollau arbennig**

314. O ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau'r byrddau draenio mewnol yng Nghymru i CNC (ym mis Ebrill 2015), bydd CNC yn codi ardollau arbennig ar awdurdodau lleol er mwyn talu am ran o'r swyddogaethau hynny. Yn y gorffennol y byrddau draenio mewnol oedd yn codi'r ardollau hyn, ac aelodau a benodwyd gan awdurdodau lleol oedd mwyafrif aelodau'r bwrdd a oedd yn gosod yr ardoll.
315. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio adran 75 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu trefn ar gyfer apelau gan awdurdodau lleol os ydynt o'r farn bod ardoll CNC yn afresymol.
316. Byddai'r apêl yn mynd at Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardollau arbennig a godwyd gan CNC er mwyn talu costau yr aed iddynt wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â draenio tir.

**Adran 85 - Pŵer mynediad: cydymffurfio â gorchymyn i lanhau ffosydd etc.**

317. Mae adran 85 o'r Ddeddf yn mewnosod is-adran (1A) yn adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991, sy'n rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru neu bersonau a awdurdoddir ganddynt.
318. Mae adran 28 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn darparu y caiff y Tribiwnlys Tir Amaethyddol roi gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol i berchennog neu feddiannwr tir (yr ymatebydd) wneud gwaith ar ei dir er mwyn gwella draeniad ar dir cymydog. Os yw'r ymatebydd yn methu â chydymffurfio â'r gorchymyn caiff Gweinidogion Cymru, neu gorff draenio a awdurdoddir ganddynt, ddibynnu ar y pŵer o dan adran 29 i gael mynediad i dir er mwyn gwneud y gwaith sy'n ofynnol gan y gorchymyn, a chânt adennill y gost o wneud hynny.
319. Mae adran 29(1A) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru neu unrhyw berson a awdurdoddir ganddynt i gael mynediad i unrhyw dir pan fo'n angenrheidiol gwneud hynny er mwyn gweld a gydymffurfiwyd â gorchymyn. Ni chaniateir arfer y pŵer oni bai bod tri mis wedi mynd heibio ers dyddiad y gorchymyn (neu unrhyw gyfnod hirach a bennir yn y gorchymyn) ac os oes gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu na chydymffurfiwyd â'r gorchymyn.

313. They provide the Welsh Ministers with powers to bring forward regulations to set out new arrangements for determining the value of non-agricultural land used in the calculation of drainage rates and special levies.

**Section 84 – Power to make provision for appeals against special levies**

314. As a result of the transfer of IDB functions in Wales to NRW (in April 2015), NRW will raise special levies on local authorities to pay for part of these functions. These levies were previously raised by IDBs, where local authority appointed members comprised a majority of the board who set the levy.
315. This provision amends section 75 of the Local Government Finance Act 1988 to enable the Welsh Ministers to put in place a mechanism for appeals by local authorities in the event that they believe the NRW levy is unreasonable.
316. The appeal would be to the Welsh Ministers in relation to special levies issued by NRW to meet expenses incurred in the exercise of functions relating to land drainage.

**Section 85 Power of entry: compliance with order for cleansing ditches etc.**

317. Section 85 of the Act inserts in section 29 of the LDA 1991 subsection (1A) which confers a power of entry on the Welsh Ministers or persons authorised by them.
318. Section 28 of the LDA 1991 provides that the Agricultural Land Tribunal (ALT) may grant an order to require a land owner or occupier (the respondent) to carry out work on his or her land to improve land drainage on a neighbour's land. If the respondent fails to comply with the order, the Welsh Ministers or drainage body authorised by them, may rely on the power under section 29 to enter land to carry out the work required by the order and may recover the cost of doing so.
319. Section 29(1A) confers a power on the Welsh Ministers or any person authorised by them to enter any land where it is necessary to do so to inspect whether an order has been complied with. The power may only be exercised after three months of the date of the order (or any longer period specified in the order) and where the Welsh Ministers have reasonable grounds for believing that the order has not been complied with.

320. Mae adran 29(3), (4) a (5) o Ddeddf 1991 yn gymwys mewn perthynas â'r pŵer yn adran 29(1A). Mae adran 29(3) yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â phersonau eraill a chyfarpar ar y tir a gwarchod yn erbyn tresmaswyr; mae adran 29(4) yn darparu bod rhaid i'r person sy'n cael mynediad i'r tir roi dim llai na saith niwrnod o rybudd i'r meddiannwr; ac mae adran 29(5) yn gwneud darpariaeth ar gyfer digolledu os yw'r person sy'n arfer y pŵer yn achosi i unrhyw un arall gael unrhyw anaf.
321. Effaith adran 85(2) yw cymhwyso adran 29(1A) i unrhyw orchmynion a wneir o dan adran 28, gan gynnwys y rhai hynny a wnaed cyn i'r ddarpariaeth hon ddod i rym.
322. Fel arfer, byddai'r pŵer yn cael ei arfer pan fo'r person sy'n cael budd o orchymyn y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn cwyno i Lywodraeth Cymru fod ei dir yn parhau i ddioddef o ganlyniad i ddraeniad gwael am nad yw'r Ymatebydd wedi cydymffurfio â'r gorchymyn.

### **Adran 86 - Is-ddeddfau a wneir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru**

323. Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn newid y gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau yng Nghymru ac yn galluogi gorfodi is-ddeddfau penodol drwy hysbysiadau cosbau penodedig. Mae'n gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdodau lleol a nifer o gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Diddymwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i CNC. Roedd hynny'n cael effaith o 1 Ebrill 2013. O ganlyniad, mae angen diwygio'r cyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn Neddf 2012 er mwyn cyfeirio at CNC. Nodir y diwygiadau hynny yn Rhan 4 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, a gyflwynir gan adran 86.

### **Rhan 8 - Cyffredinol**

324. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â dehongli'r Ddeddf, dod â'r Ddeddf i rym a'i henw byr.

### **Adran 87 - Dehongli**

325. Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r termau allweddol y cyfeirir atynt yn y Ddeddf. Yn benodol, mae'r diffiniad o "Cymru" yr un fath â'r diffiniad o "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys y môr sy'n gyfagos i Gymru cyn belled â ffin tua'r môr y môr tiriogaethol - hynny yw mae'n ymestyn am ddeuddeg milltir forol. Nid yw'n cynnwys parth Cymru a ddiffinnir hefyd yn adran 158(1).



320. Section 29(3), (4) and (5) of the LDA 1991 apply in relation to the power in section 29(1A). Section 29(3) makes provision about the taking of other persons and equipment on to the land and securing against trespassers; section 29(4) provides that the person entering the land must give no less than seven days' notice to the occupier; and section 29(5) makes provision for compensation if the person exercising the power causes anyone else to sustain any injury.
321. Section 85(2) has the effect of applying section 29(1A) to any order made under section 28, including those made before this provision comes into force.
322. The power would usually be exercised where the person who has the benefit of an ALT order complains to the Welsh Government that their land continues to suffer from poor drainage because the respondent has not complied with the order.

### **Section 86 – Byelaws made by the Natural Resources Body for Wales**

323. The Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 changes the procedures for making byelaws in Wales and enables certain byelaws to be enforced by fixed penalty notices. It applies to byelaws made by local authorities and a number of other public bodies, including the Countryside Council for Wales (CCW). With effect from 1 April 2013, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 abolished CCW and transferred its functions to NRW. As a result, the references to CCW in the 2012 Act need to be amended to refer to NRW. Those amendments are set out in Part 4 of Schedule 2 to the Act, which is introduced by section 86.

### **Part 8 – General**

324. This Part includes provisions relating to the interpretation, coming into force and short title of the Act.

### **Section 87 – Interpretation**

325. This section sets out some key terms referred to in the Act. In particular, the definition of “Wales” is as in section 158(1) of the Government of Wales Act 2006 which defines it as including the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea – i.e. that it goes out to twelve nautical miles. It does not include the Welsh zone which is also defined in section 158(1).

### **Adran 88 - Dod i rym**

326. Mae adran 88 yn darparu y bydd Rhan 8 o'r Ddeddf yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Daw rhai darpariaethau i rym ar ddiwedd y ddau fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol. Y darpariaethau hynny yw: Rhan 1 (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol), Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd), Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn), adran 83 (diddymu gofynion i gyhoeddi), adran 84 (apelau yn erbyn ardollau draenio arbennig), adran 85 (pŵer mynediad) ac adran 86 (is-ddeddfau).
327. Daw darpariaethau eraill yn y Ddeddf i rym pan fydd Gweinidogion Cymru yn dod â hwy i rym drwy orchymyn. Y darpariaethau hynny yw: Rhan 3 (codi taliadau am fagiau siopa), Rhan 4 (casglu a gwaredu gwastraff), Rhan 6 (trwyddedu morol), ac adran 82 (pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol).

### **Atodlen 1 - Codi Taliadau am Fagiau Siopa: Sancsiynau Sifil**

328. Cyflwynir yr Atodlen hon gan adran 61.

#### *Sancsiynau sifil*

329. Mae paragraff 1 yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth y gallai person sy'n torri'r rheoliadau fod yn agored i sancsiynau sifil. Mae is-baragraff (3) yn darparu y caiff sancsiynau sifil fod ar ffurf cosbau ariannol penodedig (a ddiffinnir ym mharagraff 2(3)) a gofynion yn ôl disgrisiwn (a ddiffinnir ym mharagraff 4(3)).

#### *Cosbau ariannol penodedig*

330. Mae paragraff 2 yn darparu y caiff rheoliadau bagiau siopa roi'r pŵer i weinyddwr osod cosb ariannol benodedig nad yw'n fwy na £5,000 ar unrhyw berson sy'n torri'r rheoliadau. Dim ond mewn achosion pan fo'r gweinyddwr wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y rheoliadau wedi eu torri y caniateir rhoi hysbysiadau sy'n gosod cosbau ariannol penodedig.

#### *Cosbau ariannol penodedig: y weithdrefn*

331. Mae paragraff 3 yn darparu, pan fo gan weinyddwyr y pŵer i roi hysbysiadau cosbau ariannol penodedig, fod yn rhaid i'r rheoliadau nodi'r weithdrefn fel y'i nodir yn y paragraff hwn.
332. Mae is-baragraff (1)(a) yn darparu bod rhaid i weinyddwr roi 'hysbysiad o fwriad' yn gyntaf cyn y gall osod cosb. Rhaid i'r hysbysiad roi'r cyfle i'r person sy'n ei gael dalu'r gosb neu wneud sylwadau neu wrthwynebiadau o fewn cyfnod penodedig, na ddylai fod yn fwy na 28 o ddiwrnodau yn y ddau achos, i'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad (gweler is-baragraffau (2)(e) ac (f)). Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-baragraffau (2)(a) i (f).
333. O dan is-baragraff (1)(b) caiff y person y rhoddir hysbysiad iddo ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am y gosb drwy wneud taliad a gaiff fod yn llai na swm y gosb neu'n gyfwerth ag ef. Byddai hynny'n caniatáu i'r gweinyddwr gynnig gostyngiad am dalu'n gynnar. Os gwneir taliad ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

## **Section 88 – Coming into force**

326. Section 88 provides that Part 8 of the Act comes into force on the day that the Act receives Royal Assent. Some provisions come into force at the end of two months after the Act receives Royal Assent. These are: Part 1 (sustainable management of natural resources), Part 2 (climate change), Part 5 (fisheries for shellfish), section 83 (repeal of publication requirements), section 84 (appeals against special drainage levies), section 85 (power of entry) and section 86 (byelaws).
327. Other provisions of the Act will come into force when the Welsh Ministers bring them into force by order. These are: Part 3 (charges for carrier bags), Part 4 (collection and disposal of waste), Part 6 (marine licensing), and section 82 (flood and coastal erosion committee).

## **Schedule 1 – Charges for Carrier Bags: Civil Sanctions**

328. This Schedule is introduced by section 61.

### *Civil Sanctions*

329. Paragraph 1 provides that the carrier bag regulations may make provision that a person who breaches the regulations may be liable to civil sanctions. Sub-paragraph (3) provides that civil sanctions may take the form of fixed monetary penalties (defined in paragraph 2(3)) and discretionary requirements (defined in paragraph 4(3)).

### *Fixed Monetary Penalties*

330. Paragraph 2 provides that the carrier bag regulations may give an administrator a power to impose a fixed monetary penalty not exceeding £5,000 on any person who breaches the regulations. Notices imposing fixed monetary penalties may only be issued in cases where the administrator is satisfied on the balance of probabilities that a breach of the regulations has occurred.

### *Fixed Monetary Penalties: Procedure*

331. Paragraph 3 provides that where administrators have the power to issue fixed monetary penalty notices the regulations must set out the procedure as prescribed in this paragraph.
332. Sub-paragraph (1)(a) provides that before the administrator can impose a penalty they must first issue a 'notice of intent'. The notice must offer the person served the opportunity to either pay the penalty or make representations or objections within a specified time which in both cases must be no more than 28 days of when the notice was received (see sub-paragraphs (2)(e) and (f)). The notice must include the information as set out in sub-paragraphs (2)(a) to (f).
333. Under sub-paragraph (1)(b) the person served may discharge liability for the penalty by making a payment which may be less than or equal to the amount of the penalty. This would allow the administrator to offer a discount for early payment. If a payment is made no further action will be taken.

334. O dan is-baragraff (1)(c) caiff y person y rhoddir hysbysiad iddo wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig yn erbyn y gosb. Ar ddiwedd y cyfnod penodedig mae'r gweinyddwr yn penderfynu, ar ôl ystyried y sylwadau neu'r gwrthwynebiadau, a yw am osod y gosb ariannol benodedig ai peidio. Os yw'n parhau i fod o'r farn bod cosb yn ddyledus caiff roi "hysbysiad terfynol". Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys yr wybodaeth yn is-baragraffau (4)(a) i (f). Os yw'n penderfynu tynnu'r hysbysiad cosb yn ôl yna o dan baragraff 3(3) rhaid iddo egluro pam ei fod wedi penderfynu peidio â gosod y gosb.
335. Mae is-baragraff (5) yn nodi'r amgylchiadau hynny pan gaiff person y rhoddir hysbysiad iddo apelio yn erbyn hysbysiad terfynol (gweler paragraff 10 am y weithdrefn apelau).

*Gofynion yn ôl disgrisiwn*

336. Mae paragraff 4 yn darparu y caiff y rheoliadau roi'r pŵer i weinyddwr osod, drwy hysbysiad, un gofyniad neu ragor ("gofynion yn ôl disgrisiwn") ar berson. Diffinnir "gofynion yn ôl disgrisiwn" yn is-baragraff (3) fel:
- talu cosb ariannol o swm y caiff y gweinyddwr benderfynu arno ("cosb ariannol amrywiadwy");
  - cymryd y camau hynny y caiff gweinyddwr eu pennu o fewn y cyfnod hwnnw y caiff gweinyddwr ei bennu er mwyn sicrhau nad yw'r achos o beidio â chydymffurfio yn parhau neu'n digwydd eto ("gofyniad yn ôl disgrisiwn nad yw'n un ariannol").
337. Mae is-baragraff (2) yn pennu safon y prawf y mae'r rhaid i'r gweinyddwyr ei gymhwyso wrth benderfynu a yw'r rheoliadau wedi eu torri. O dan is-baragraff (5) rhaid i'r rheoliadau ddarparu bod terfyn yn cael ei osod ar gosbau ariannol amrywiadwy, sef uchafswm a bennir yn y rheoliadau, neu a benderfynir yn unol â hwy.

*Gofynion yn ôl disgrisiwn: y weithdrefn*

338. Mae paragraff 5 yn darparu ar gyfer y weithdrefn y mae'n rhaid ei nodi mewn rheoliadau ac y mae'n rhaid i'r gweinyddwr ei dilyn wrth osod unrhyw ofyniad yn ôl disgrisiwn. Rhaid i weinyddwr roi hysbysiad i'r person o'i fwriad i osod gofyniad yn ôl disgrisiwn. Rhaid i'r hysbysiad nodi o fewn pa gyfnod y caiff person y rhoddir hysbysiad iddo wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ynghylch y sancsiwn arfaethedig. Ni chaniateir i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer cyfnod o ddim llai na 28 o ddiwrnodau.
339. Mae is-baragraff (c) yn darparu bod rhaid i'r gweinyddwr, ar ôl diwedd y cyfnod a bennir ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau, benderfynu a yw am osod, tynnu'n ôl neu addasu'r gofyniad yn ôl disgrisiwn neu osod gofyniad yn ôl disgrisiwn arall yn ei le.
340. Pan fo'n gosod gofyniad yn ôl disgrisiwn rhaid i weinyddwr gyflwyno hysbysiad terfynol. Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-adran (4), gan gynnwys y ffaith bod gan y person yr hawl i apelio yn erbyn y sancsiwn.

334. Under sub-paragraph (1)(c) the person served may make written representations and objections against the penalty. At the end of the specified time period, the administrator, having considered the representations or objections decides whether they impose the fixed monetary penalty. If they are still of the view that the penalty is due they may issue a “final notice”. The final notice must include the information in sub-paragraphs (4)(a) to (f). If they decide to withdraw the penalty notice then under paragraph 3(3) they must explain why they have decided not to impose the penalty.
335. Sub-paragraph (5) sets out the circumstances in which a person served may appeal against a final notice. (See paragraph 10 for appeal procedure.)

*Discretionary Requirements*

336. Paragraph 4 provides that the regulations may give an administrator the power to impose, by notice, one or more requirements (“discretionary requirements”) on a person. “Discretionary requirements” are defined in sub-paragraph (3) as:
- the payment of a monetary penalty of an amount that the administrator will determine (“variable monetary penalty”);
  - to take such steps as may be specified by an administrator within such time period as the administrator may specify to ensure that the incident of non-compliance does not continue or recur (“non-monetary discretionary requirement”).
337. Sub-paragraph (2) specifies the standard of proof that must be applied by the administrators when deciding whether there has been a breach of the regulations. Under sub-paragraph (5) the regulations must provide that variable monetary penalties are capped to a maximum amount to be specified in, or determined in accordance with, the regulations.

*Discretionary requirements: procedure*

338. Paragraph 5 provides for the procedure that must be set out in regulations and followed by the administrator when imposing any discretionary requirement. An administrator must serve a notice on the person of their intention to impose a discretionary requirement. The notice must state the time within which the person served may make representations and objections about the proposed sanction. The regulations may not provide for the time period to be any less than 28 days.
339. Sub-paragraph (c) provides that after the end of the specified time for making representations and objections, the administrator must decide whether to impose, withdraw or vary the discretionary requirement or replace it with a different discretionary requirement.
340. When imposing a discretionary requirement an administrator must serve a final notice. The final notice must contain the information set out in sub-paragraph (4), including the fact that the person's right of appeal against the sanction.



341. Mae is-baragraff (5) yn nodi ar ba sail y gellir apelio yn erbyn y gofyniad yn ôl disgrisiwn, fan lleiaf.

*Gofynion yn ôl disgrisiwn: gorfodi*

342. Mae paragraff 6 yn darparu, pan nad yw person yn cydymffurfio â gofyniad yn ôl disgrisiwn nad yw'n un ariannol, y caiff y rheoliadau roi'r pŵer i weinyddwr osod cosb ariannol. Nid yw cosbau am beidio â chydymffurfio ar gael mewn achosion pan fo person wedi methu â thalu cosb ariannol amrywiadwy. Mae is-baragraff (2) yn darparu y caiff y rheoliadau naill ai bennu swm y gosb am beidio â chydymffurfio neu y caniateir penderfynu'r swm yn unol â'r rheoliadau. Ar y llaw arall, mae is-baragraff (3) yn darparu y caiff y rheoliadau bennu uchafswm y gosb y caiff gweinyddwr ei gosod neu'r uchafswm fel y'i penderfynir yn unol â'r rheoliadau. Mae is-baragraff (5) yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau nodi ar ba seiliau y caniateir apelio yn erbyn cosb am beidio â chydymffurfio, a nodir y seiliau hyn yn (a) i (c).

*Cyfuniad o sancsiynau*

343. Mae paragraff 7 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan gaiff rheoliadau bagiau siopa roi pwerau i weinyddwr osod y ddau fath o sancsiwn sifil (h.y. cosbau ariannol penodedig a gofynion yn ôl disgrisiwn) mewn perthynas â'r un math o doriad o'r rheoliadau. Yn benodol, os yw'r rheoliadau'n rhoi'r pwerau hynny, rhaid iddynt sicrhau na chaiff y gweinyddwr roi hysbysiad o fwriad i osod un math o gosb sifil ar berson os yw eisoes wedi gosod y math arall o gosb sifil ar y person am yr un toriad.

*Cosbau ariannol*

344. Mae paragraff 8 yn darparu, pan fo'r rheoliadau'n darparu ar gyfer gosod sancsiynau sifil, y cânt hefyd wneud darpariaeth fel a nodir yn is-baragraff (a) i (c). Cânt gynnwys disgowntiau am dalu'n gynnar neu ddarpariaeth ar gyfer talu llog neu gosb ariannol arall am dalu'r gosb wreiddiol yn hwyr. Mae is-baragraff (1)(b) yn darparu na chaiff cyfanswm unrhyw gosb am dalu'n hwyr fod yn fwy na chyfanswm y gosb a osodwyd.
345. O dan is-baragraff (1)(c) caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau ar gyfer gorfodi'r cosbau. Caiff darpariaeth o dan is-baragraff (1)(c) alluogi gweinyddwr i adennill cosb neu daliad arall y caniateir ei bennu yn y rheoliadau o dan is-baragraff (1)(b) fel dyled sifil drwy'r llysoedd sifil. Caiff y rheoliadau hefyd greu proses adennill symlach drwy drin y gosb fel petai'n daladwy o dan orchymyn llys.

*Adennill costau*

346. Mae paragraff 9 yn darparu y caiff rheoliadau roi pwerau i'r gweinyddwr adennill costau, drwy hysbysiad, gan berson y gosodir gofyniad yn ôl disgrisiwn arno. Mae is-baragraff (2) yn darparu y caiff y costau gynnwys costau ymchwilio, costau gweinyddu a chostau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol). O dan is-baragraff (3) pan gyflwynir hysbysiad ynghylch costau gallai fod yn ofynnol i'r gweinyddwr roi dadansoddiad manwl o'r costau y mae'n ceisio eu hadennill, ac nid yw'r person y cyflwynir hysbysiad iddo yn atebol i dalu unrhyw gostau yr aed iddynt yn ddiangen.



341. Sub-paragraph (5) sets out the minimum grounds for appeal against the discretionary requirement that must be available.

*Discretionary requirements: enforcement*

342. Paragraph 6 provides that where a person does not comply with a non-monetary discretionary requirement, the regulations may give an administrator power to impose a monetary penalty. Non-compliance penalties are not available in cases where a person has failed to pay a variable monetary penalty. Sub-paragraph (2) provides that the regulations may either specify the amount of the non-compliance penalty or that the amount may be determined in accordance with the regulations. Alternatively, sub-paragraph (3) provides that the regulations may specify a maximum penalty that an administrator may impose or the maximum amount as determined in accordance with the regulations. Sub-paragraph (5) provides that the regulations must state the grounds on which a non-compliance penalty may be appealed against which grounds are set out in (a) to (c).

*Combination of sanctions*

343. Paragraph 7 restricts the circumstances in which carrier bag regulations may give an administrator powers to impose both types of civil sanction (i.e. fixed monetary penalties and discretionary requirements) in relation to the same kind of breach of the regulations. In particular, if the regulations do confer those powers, they must ensure that the administrator may not serve a notice of intent to impose one kind of civil sanction on a person if it has already imposed the other kind of civil sanction on the person for the same breach.

*Monetary Penalties*

344. Paragraph 8 provides that where the regulations provide for civil sanctions to be imposed they may also make provision as set out in sub-paragraph (1)(a) to (c). They may include discounts for early payment or for the payment of interest or other financial penalty for late payment of the original penalty. Sub-paragraph (1)(b) provides that the total amount of any late payment penalty must not exceed the total amount of the penalty imposed.
345. Under sub-paragraph (1)(c) the regulations may include provisions to enforce the penalties. Provision under sub-paragraph (1)(c) may enable an administrator to recover a penalty or other payment as may be specified in the regulations under sub-paragraph (1)(b) as a civil debt through the civil courts. The regulations may also create a more streamlined process of recovery by treating the penalty as if it were payable under a court order.

*Costs Recovery*

346. Paragraph 9 provides that regulations may confer powers on the administrator to recover their costs, by notice, from a person on whom a discretionary requirement is imposed. Sub-paragraph (2) provides that the costs may include investigation costs, administration costs and the costs of obtaining expert (including legal) advice. Under sub-paragraph (3) where a costs notice is served the administrator may be required to give a detailed breakdown of the costs they are seeking to recover and that person served is not liable for any costs unnecessarily incurred.

347. Mae is-baragraff (4) yn darparu y caiff y ddarpariaeth ar gyfer talu costau'r gweinyddwr a wneir gan y rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer adennill llog a chosbau am dalu'n hwyr o dan baragraff 8. Mae is-baragraff 3(d) yn darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y gweinyddwr o ran talu costau.

*Apelau*

348. Mae paragraff 10 yn cynnwys rhai darpariaethau gweithdrefnol ar gyfer apelau yn erbyn cosbau sifil. Mae'n darparu'n benodol bod rhaid i'r rheoliadau ddarparu bod yr apelau i'w gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p.15)), neu dribiwnlys arall a grëir o dan ddeddfiad, wrando'r apêl. Mae rheoliad 21 o Reoliadau 2010 yn darparu bod apelau yn erbyn sancsiynau sifil i'w cyflwyno i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

*Cyhoeddusrwydd ar gyfer gosod sancsiynau sifil*

349. Mae paragraff 11 yn darparu y caiff y rheoliadau roi'r pŵer i weinyddwr roi hysbysiad cyhoeddusrwydd i berson y gosodwyd sancsiwn sifil arno. Byddai hysbysiad o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y gosodwyd sancsiwn, yn ogystal â'r wybodaeth arall honno y caniateir ei phennu yn y rheoliadau, a thalu am hynny ei hun. Os yw'r person yn methu â chyhoeddi'r hysbysiad yn ôl y gofyn, caiff y rheoliadau ddarparu i'r gweinyddwr gyhoeddi'r hysbysiad ac adennill y costau oddi wrth y person y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

*Personau sy'n atebol i sancsiynau sifil*

350. Mae paragraff 12 yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i swyddogion corff corfforaethol a phartneriaid o fewn partneriaeth fod yn atebol i sancsiynau sifil.

*Canllawiau ynghylch defnyddio pwerau i osod sancsiynau sifil ac adennill costau*

351. Mae paragraff 13 yn darparu, pan fo gweinyddwr i gael y pŵer i osod sancsiynau sifil, bod dyletswydd gyfatebol i fod ar y gweinyddwr i gyhoeddi canllawiau sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynghylch sut y bydd yn defnyddio ei bwerau sancsiynau sifil, gan gynnwys manylion ynghylch cosbau ariannol penodedig a gofynion yn ôl disgrisiwn megis: pryd y maent yn debygol o gael eu gosod, sut y penderfynir ar gosbau penodedig ac amrywiadwy, sut y gellir cael rhyddhad rhag atebolrwydd ac effaith rhyddhad ar hawliau i apelio.

*Cyhoeddi camau gorfodi*

352. Mae paragraff 14 yn darparu bod rhaid i reoliadau sy'n darparu ar gyfer sancsiynau sifil sicrhau bod y gweinyddwr yn cyhoeddi adroddiadau ar y defnydd o sancsiynau sifil.

*Cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddio*

353. Mae paragraff 15 yn darparu na chaniateir i bwerau sancsiynau sifil gael eu rhoi i weinyddwr mewn rheoliadau oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y bydd y gweinyddwr yn cydymffurfio â'r egwyddorion gwell rheoleiddio a nodir ym mharagraffau (a) a (b).

347. Sub-paragraph (4) provides that the provision made by the regulations for the payment of the administrator's costs may include provision for the recovery of interest and late payment penalties under paragraph 8. Sub-paragraph 3(d) provides for a right of appeal against the decision of the administrator regarding payment of costs.

*Appeal*

348. Paragraph 10 contains certain procedural provisions for appeals from civil penalties. In particular, it provides that the regulations must provide for appeals to be made to the First-tier Tribunal (established under the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 (c.15)) or another tribunal created under an enactment. Regulation 21 of the 2010 Regulations provides for appeals against civil sanctions to be made to the First-tier Tribunal.

*Publicity for imposition of civil sanctions*

349. Paragraph 11 provides that the regulations may confer a power on an administrator to issue a publicity notice to a person on whom a civil sanction has been imposed. Such a notice would require the recipient to publicise, at their own cost, that a sanction has been imposed, as well as such other information as may be specified in the regulations. If the person fails to publish the notice as required, the regulations may provide for the administrator to publish the notice and to recover the costs from the person to whom the notice relates.

*Persons liable to civil sanctions*

350. Paragraph 12 provides that the regulations may make provision for officers of a body corporate and partners of a partnership to be liable to civil sanctions.

*Guidance about use of powers to impose civil sanctions and recover costs*

351. Paragraph 13 provides that where an administrator is to have the power to impose civil sanctions, there is to be a corresponding duty on the administrator to publish guidance containing certain information about how it will use its civil sanction powers, including details about fixed monetary penalties and discretionary requirements such as: when they are likely to be imposed, how fixed and variable monetary penalties will be determined, how liability for penalties may be discharged and the effect of a discharge on rights of appeal.

*Publication of enforcement action*

352. Paragraph 14 provides that regulations providing for civil sanctions must secure the publication of reports by the administrator on the use of civil sanctions.

*Compliance with regulatory principles*

353. Paragraph 15 provides that civil sanction powers may not be conferred on an administrator in regulations unless the Welsh Ministers are satisfied that the administrator will comply with principles of better regulation as set out in paragraphs (a) and (b).

*Adolygu*

354. Mae paragraff 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r modd y mae'r darpariaethau sancsiynau sifil a nodir yn y rheoliadau yn gweithredu. Rhaid cynnal yr adolygiad cyntaf cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl 1 Hydref 2017, a rhaid cynnal adolygiadau dilynol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad blaenorol. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

*Atal dros dro*

355. Mae paragraff 17 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru atal dros dro bwerau gweinyddwr i osod sancsiynau sifil o dan amgylchiadau penodol drwy roi cyfarwyddyd i'r gweinyddwr. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu cyfarwyddydau o'r fath. Cyn rhoi cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r gweinyddwr a'r personau eraill hynny sy'n briodol yn eu barn hwy. Rhaid i unrhyw gyfarwyddydau a roddir gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u dwyn i sylw'r rheini y maent yn debygol o effeithio arnynt.

*Talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru*

356. Mae paragraff 18 yn darparu i arian a dderbynnir o gosbau fynd i Gronfa Gyfunol Cymru a sefydlwyd o dan adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. I'r gronfa hon y telir arian cyhoeddus a ddyrennir i'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru gan Lywodraeth y DU ynghyd ag arian a dderbynnir o ffynonellau eraill.

**ATODLEN 2**

*Rhan 1: Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol*

357. Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn gwneud nifer o ddiwygiadau a diddymiadau mewn perthynas â Rhan 1 o'r Ddeddf.
358. Mae paragraffau 1 i 5 yn gwneud nifer o ddiwygiadau o ganlyniad i adrannau 16 a 23 o'r Ddeddf. Mae diwygiadau yn cael eu gwneud i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949), Deddf Cefn Gwlad 1968 (Deddf 1968) a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, o ganlyniad i adran 16 o'r Ddeddf. Effaith y diwygiadau hyn yw tynnu ymaith bŵer CNC i wneud cytundebau rheoli tir o dan y Deddfau hyn, gan fod y pwerau hynny yn cael eu disodli yn awr gan y pŵer yn adran 16 o'r Ddeddf.
359. Mae paragraffau 1 i 5 o Atodlen 2 hefyd yn diwygio darpariaethau amrywiol sy'n cyfeirio at gytundebau a wneir o dan y pwerau blaenorol yn Neddf 1949, Deddf 1968 a Deddf 1981 fel eu bod yn cyfeirio yn lle hynny at gytundebau rheoli tir a wneir o dan adran 16 o'r Ddeddf.
360. Mae paragraff 2(2) yn diddymu adran 4 o Ddeddf 1968, er mwyn tynnu ymaith bŵer CNC i gynnal prosiectau neu gynlluniau arbrofol. Darperir pŵer ehangach i gynnal cynlluniau arbrofol erbyn hyn gan adran 23 o'r Ddeddf, sy'n rhoi adran newydd yn lle Adran 10C o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

*Review*

354. Paragraph 16 requires the Welsh Ministers to review the operation of the civil sanction provisions set out in regulations. The first review must take place as soon as practicable after 1 October 2017 and subsequent reviews must take place as soon as practicable after the end of three years beginning with the date on which the previous review took place. This section also requires the Welsh Ministers to publish the results of the review and lay it before the National Assembly.

*Suspension*

355. Paragraph 17 provides the Welsh Ministers with the power to suspend an administrator's powers to impose civil sanctions in certain circumstances by issuing a direction to the administrator. Such directions may be revoked by the Welsh Ministers. Before issuing a direction, the Welsh Ministers must consult the administrator and such other persons as they consider appropriate. Any directions issued must be laid before the National Assembly for Wales and brought to the attention of those that are likely to be affected by it.

*Payment of penalties into Welsh Consolidated Fund*

356. Paragraph 18 provides for money received from penalties to go to the Welsh Consolidated Fund established under section 117 of the Government of Wales Act 2006, into which is paid public money allocated to the devolved institutions in Wales by the UK Government and also that received from other sources.

## **SCHEDULE 2**

*Part 1: Sustainable management of natural resources*

357. Part 1 of Schedule 2 makes a number of amendments and repeals in relation to Part 1 of the Act.
358. Paragraphs 1 to 5 make a number of amendments as a consequence of sections 16 and 23 of the Act. Amendments are made to the National Parks and Access to the Countryside Act 1949 (1949 Act), Countryside Act 1968 (1968 Act) and Wildlife and Countryside Act 1981 as a result of section 16 of the Act. These amendments have the effect of removing NRW's powers to make land management agreements under these Acts, as those powers are now replaced by the power in section 16 of the Act.
359. Paragraphs 1 to 5 of Schedule 2 also amend various provisions that refer to agreements made under the previous powers in the 1949 Act, 1968 Act and 1981 Act so that they refer instead to land management agreements made under section 16 the Act.
360. Paragraph 2(2) repeals section 4 of the 1968 Act, removing NRW's power to conduct experimental projects or schemes. A broader power to conduct experimental schemes is now provided by section 23 of the Act, which substitutes Article 10C of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012.



361. Mae paragraffau 6 i 9 yn diwygio nifer o Ddeddfau er mwyn cysylltu â darpariaethau perthnasol yn Rhan 1 o'r Ddeddf. Mae paragraff 6 yn diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995 er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol roi sylw i'r adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol ac unrhyw ddatganiad(au) ardal perthnasol wrth gyhoeddi, mabwysiadu neu adolygu cynlluniau rheoli o dan adran 66 o'r Ddeddf honno.
362. Mae paragraff 7 yn diwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn sicrhau bod rhaid i'r awdurdod lleol neu'r bwrdd cadwraeth perthnasol, wrth gyhoeddi, mabwysiadu neu adolygu cynllun rheoli o dan adran 89 o'r Ddeddf honno, roi sylw i'r adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol ac unrhyw ddatganiad ardal sy'n berthnasol i'r ardal o harddwch naturiol eithriadol, fel y bo'n briodol.
363. Mae paragraff 8 yn diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, er mwyn sicrhau bod rhaid ystyried y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol wrth lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac, wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol, bod rhaid rhoi sylw i unrhyw ddatganiadau ardal sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol hwnnw.
364. Mae paragraff 9 yn diwygio'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i fioamrywiaeth, fel ei fod yn berthnasol yn unig i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac mewn perthynas â chyrff cyhoeddus eraill pan fônt yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Lloegr. Bydd adran 6 o'r Ddeddf yn gymwys, yn lle hynny, pan fo awdurdodau cyhoeddus ac eithrio Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.
365. Mae is-baragraff (3) yn diddymu adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r cynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Darperir ar gyfer y gofyniad hwn bellach gan adran 7 o'r Ddeddf. Mae amryw o ddiwygiadau eraill yn cael eu gwneud i Atodlen 11 i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn is-baragraff (4).
366. Mae paragraff 10 yn mewnosod paragraff newydd i adran 36(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y paragraff newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wrth baratoi asesiad llesiant lleol, ystyried datganiad neu ddatganiadau ardal a gyhoeddir o dan adran 10 o'r Ddeddf hon, sy'n ymwneud ag unrhyw ran o ardal awdurdod lleol. Mae is-baragraff (2) yn diweddarau'r diffiniad o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn Neddf 2015.



361. Paragraphs 6 to 9 make amendments to a number of Acts to create a link with relevant provisions in Part 1 of the Act. Paragraph 6 amends the Environment Act 1995 to ensure that National Park authorities are required to have regard to the most recent state of natural resources report and any relevant area statement(s) when publishing, adopting or reviewing management plans under section 66 of that Act.
362. Paragraph 7 amends the Countryside and Rights of Way Act 2000 to ensure that in publishing, adopting or reviewing a management plan under section 89 of that Act, the relevant local authority or conservation board must have regard to the most recent stage of natural resources report and any area statement relevant to the area of outstanding natural beauty as appropriate.
363. Paragraph 8 amends the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, to ensure that the national natural resources policy is taken into account in the preparation of the National Development Framework and that in the preparation of Local Development Plans (LDP) regard must be had to any areas statements relevant to that LDP.
364. Paragraph 9 amends the duty in section 40 of the NERC Act 2006 for public authorities to have regard to biodiversity, so that it applies only in relation to HMRC, and in relation to other public bodies when they are exercising functions in relation to England. Section 6 of the Act will apply instead where public authorities other than HMRC are exercising functions in relation to Wales.
365. Sub-paragraph (3) repeals section 42 of the NERC Act 2006 which requires the Welsh Ministers to prepare and publish a list of living organisms and habitats of principal importance for biodiversity in Wales. The requirement is now provided for by section 7 of the Act. A number of further amendments are made to Schedule 11 of the NERC Act 2006 in sub-paragraph (4).
366. Paragraph 10 inserts a new paragraph into section 36(1) of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. The new paragraph will require Public Service Boards in preparing a local well-being assessment to take into account an area statement or statements published under section 10 of this Act, which relate to any part of a local authority's area. Sub-paragraph (2) updates the definition of UN Sustainable Development Goals in the 2015 Act.

367. Mae paragraff 11 yn diddymu paragraff 29 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio (Cymru). Roedd paragraff 29 yn diwygio'r diffiniad o awdurdod cyhoeddus yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn diddymu adran 40 o'r Ddeddf honno, o ran swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â Chymru, felly nid yw paragraff 29 yn cael unrhyw effaith.

*Rhan 2: Codi taliadau am fapiau siopa*

368. Mae paragraffau 10 ac 11 o Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, sy'n cael yr effaith o ddatgymhwyso, mewn perthynas â Chymru, y darpariaethau ynghylch bagiau siopa untro yn Atodlen 6 o Ddeddf 2008.

*Rhan 3: Casglu a gwaredu gwastraff*

369. Yn Rhan 3 o Atodlen 2, mae paragraff 14 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, o ganlyniad i fewnosod adran 45AA newydd. Effaith is-baragraff (2) yw gwneud adran 45A o'r Ddeddf honno yn gymwys i Loegr yn unig, ac mae is-baragraff (3) yn diddymu adran 45B.
370. Mae paragraff 15 yn diddymu adran 2 o Ddeddf Ailgylchu Gwastraff Cartrefi 2003, a oedd yn mewnosod adran 45B i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
371. Mae paragraff 16 yn diddymu darpariaeth drosiannol yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymwneud ag adran 45B o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
372. Mae paragraff 17 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, o ganlyniad i fewnosod adran 9A newydd o'r Mesur.

*Rhan 4: Pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol*

373. Mae adran 82(3) a Rhan 4 o Atodlen 2 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddiweddarau deddfwriaeth sy'n cynnwys cyfeiriadau at Bwyllgorau Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r diwygiadau'n adlewyrchu'r ffaith bod Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (y pwyllgor llifogydd ac arfordirol rhanbarthol ar gyfer Cymru) wedi ei ddiddymu ac wedi'i ddisodli gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

*Rhan 5: Is-ddeddfau*

374. Yn Rhan 4 o Atodlen 2, mae paragraffau 26 a 27 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a Deddf Cefn Gwlad 1968. Mae'r ddwy Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau CNC o ran gwneud is-ddeddfau.
375. Yn Rhan 4 o Atodlen 2, mae paragraff 28 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 er mwyn cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru a rhoi cyfeiriadau at CNC yn eu lle.

367. Paragraph 11 repeals paragraph 29 of Schedule 2 to the Planning (Wales) Act. Paragraph 29 amended the definition of a public authority in section 40 of the NERC Act 2006. Section 6 of the Act repeals section 40 of the NERC Act 2006 in relation to the functions of public authorities in relation to Wales and therefore paragraph 29 has no effect.

*Part 2: Charges for carrier bags*

368. Paragraphs 10 and 11 of Schedule 2 make consequential amendments to the Climate Change Act 2008 and the Waste (Wales) Measure 2010 which have the effect of disapplying, in relation to Wales, the provisions about single use carrier bags in Schedule 6 of the 2008 Act.

*Part 3: Collection and disposal of waste*

369. In Part 3 of Schedule 2, paragraph 14 makes consequential amendments to the Environmental Protection Act 1990, as a result of the insertion of a new section 45AA. Sub-paragraph (2) has the effect of making section 45A of that Act applicable to England only, and sub-paragraph (3) repeals section 45B.
370. Paragraph 15 repeals section 2 of the Household Waste Recycling Act 2003, which inserted section 45B into the Environmental Protection Act 1990.
371. Paragraph 16 repeals a transitional provision in Schedule 11 of the Government of Wales Act 2006, relating to section 45B of the Environmental Protection Act 1990.
372. Paragraph 17 makes consequential amendments to the Waste (Wales) Measure 2010, as a result of the insertion of a new section 9A of the Measure.

*Part 4: Flood and coastal erosion committee*

373. Section 82(3) and Part 4 of Schedule 2 makes minor and consequential amendments to update legislation which contains references to Regional Flood and Coastal Committees in Wales. The amendments reflect the abolition of Flood Risk Management Wales (the regional flood and coastal committee for Wales) and its replacement by the Flood and Coastal Erosion Committee.

*Part 5: Byelaws*

374. In Part 4 of Schedule 2, paragraphs 26 and 27 make amendments to the National Parks and Access to the Countryside Act 1949 and the Countryside Act 1968, both of which contain provisions relating to CCW's byelaw making functions.
375. In Part 4 of Schedule 2, paragraph 28 makes a number of amendments to the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 that removes all references to CCW and replaces them with references to NRW.

376. Mae is-baragraff 2 yn gwneud hynny yn yr adran sy'n diffinio pa gyrrff sy'n awdurdodau deddfwriaethol ac sydd â'r pŵer i wneud is-ddeddfau at ddibenion y Ddeddf. Mae is-baragraffau 3 a 4 yn gwneud hynny mewn adrannau sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau a'r trefniadau ffurfiol ar gyfer gwneud is-ddeddfau.
377. Mae is-baragraff 5 yn diddymu paragraff 11 o Atodlen 2 i'r Ddeddf mewn perthynas â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

378. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12572>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	1 Mai 2015
Cyfnod 1 – Dadl	20 Hydref 2015
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – Ystyried y gwelliannau	26 Tachwedd 2015
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – Ystyried y gwelliannau	26 Ionawr 2016
Cyfnod 4 – Cymeradwywyd gan y Cynulliad	2 Chwefror 2016
Y Cydsyniad Brenhinol	21 Mawrth 2016

©Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

*These notes refer to the Environment (Wales) Act 2016 (anaw 3)  
which received Royal Assent on 21 March 2016*

376. Sub-paragraph 2 does so in the section defining which bodies are legislative authorities and have powers to make byelaws for the purposes of the Act. Sub-paragraphs 3 and 4 do so in sections dealing with the procedures and formalities for making byelaws.
377. Sub-paragraph 5 repeals paragraph 11 of Schedule 2 to the Act, in relation to the Wildlife and Countryside Act 1981.

## **RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

378. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at:

<http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12572>

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	11 May 2015
Stage 1 - Debate	20 October 2015
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	26 November 2016
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	26 January 2016
Stage 4 Approved by the Assembly	2 February 2016
Royal Assent	21 March 2016

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

**Ar-lein**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0333 202 5077

**Y Llyfrfa**

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)

Rhyngrwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office) and available from:**

**Online**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

Email: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0333 202 5077

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders: 020 7219 3890

General enquiries: 020 7219 3890

Fax orders: 020 7219 3866

Email: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)

Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-11298-6



9 780348 112986